GWELEDIGAETHEU

Y

Bardd Cwsc.

Y

RHANN GYNTAF.

Argraphwyd yn *Mwythig* gan *Thomas Durston*,
1759.

AT Y

DARLLENYDD.

A *Ddarllenno, yſtyried;*
A yſtyrio, cofied;
A gofio, gwnaed;
A wnêl, parhaed.

A barhao'n ffyrdd Rhinwedd,
Gan ymryd ihau oi gamwedd,
Fwyfwy fyth hyd ei ddiwedd,
Ni fedd a borthoʼr ffflammffiedd,
Na phwys aʼi ſawdd iʼr Sugnedd
Nid â byth i Wlâd y Dialedd
Penydfan pob Anwiredd.

Ond y difraw gwael a geulo
Ar ei ſorod, a ſuro,
(Nid byw y Ffydd na weithio)
A hirddrwg hir-ddilyno,
Heb Gred a Charid *effro;*
Gwae, gwae tragwyddol iddo!
Fe geiff weled a theimlo,
Fwy mewn munud llymyno,
Nâc a ſedr Oes ddyſeiſio.

BRITISH MUSEUM

Gw

I.

Gweledigaeth y BYD.

AR ryw brydnhawn gwaith têg o ha hir felyn teſog, cymmerais hynt i ben un o Fynydd-oedd *Cymru*, a chydami Spienddrych i helpu 'n golwg egwan, i weled pell yn agos, a phetheu bychain yn fawr; trwy'r awyr deneu eglur ar tês y ſplenydd tawel canfyddwn ymhell bell tros Fôr y *Werddon*, lawer golygiad hyfryd. Or diwedi porthi fy Llygaid ar bob rhyw hyfrydwch o'm hamgylch, onid oedd yr Haul ar gyrraedd ei gaereu'n y Gorllewin; gorweddais ar y gwelltglas tan fyn-fyfyrio decced a hawddgared (wrth fy ngwlad fy hun) oedd y Gwledydd pell y gwelſwn gip o olwg ar eu gwaſtadedd tirion; a gwyched oedd gael arnynt lawn olwg, a dedwydded y rhai a welſeint gwrs y byd wrthiſi a'm beth: Felly o hir drafaelio a'm *Llygad*, ac wedi a'm *Meddwl* daeth blinder, ac ynghyſcod Blinder daeth fy Meiſtr *Cwſc* yn lledradaidd i'm rhwymo; ac a'i goriadeu plwm ſe gloes ffeneſtri fy Llygaid a'm holl Synhwyreu eraill yn dynn ddiogel. Etto gwaith ofer oedd iddo geiſio cloi'r *Enaid* a fedr fyw a thrafaelio heb y Corph: Canys diangodd fy Yſryd ar eſcill Phanſi allan o'r corpws cloiedig: A chynta peth a welwn i, yn ſ' ymyl *dwmpath chwareu*, a'r fâth gad-gamlan mewn Peiſieu gleiſion a Chapieu cochion, yn dawnſio 'n hoewbryfar. Sefais ormyd ar fy nghyfyng gyngor awn i attynt ai peidio, oblegid ofnais yn fy ſtwdan mai naid oeddynt o *Sipſiwn* newyllyd, ac na

wnaent ûs lai na'm lladd i iw ſwpper, a'm llyncu yn ddihalen: Ond o hir graffu, mi a'u gwelwn hwy 'n well a theccach eu gwedd na'r giwed felynddu gelwyddog honno. Felly anturiais neſau attynt, yn ara' dêg fel iâr yn ſengi ar farwt, i gael gwybod beth oeddynt; ac or diwedd gofynnais eu cennad fel hyn o hyd y nhîn; Attolwg lan gyn'lleidfa, 'r wy'n deall mai rhai o bell ydych, a gymmerech i Fardd i'ch plith fy'n chwenych trafaelio? ar y gair diſtawodd y ſtrwſt, a phawb a'i lygad arnai, a than wichian, *Bardd*, ebr, un, *trafaelio* eb un arall, *in plith ni* ebr y trydydd; erbyn hyn mi adwaenwn rai oedd yn edrych arnai ſfyrnicca o'r cwbl: Yna dechreuaſant ſibrwd o gluſt i gluſt ryw ddirgel ſwynion ac edrych arni, a chyda hynny torrodd yr hwndrwd, a phawb a'i afel yno'i codaſant fi ar eu 'ſcwyddeu, fel codi Marchog Sîr; ac yna ymaith â ni fel y Gwynt tros Dai a Thiroedd, Dinaſoedd a Thyrnaſoedd, a Moroedd a Mynyddoedd, heb allu dal ſulw ar ddim gan gyflymed yr oeddynt yn hedeg. A phe' ſy waeth, dechreuais ammeu 'nghymdeithion wrth eu gwaith yn gwrthuno ac yn cuchio arnai eiſieu canu dychan i'm Brenin fy hûn Wel', ebr fi wrthi fy hun, yn iach weithian i'm hoedl; f' â'r carn-witſraid melltigedig hyn â mi i ſwytty neu ſeler rhyw Bendefig, ac yno im gadawant i dalu iawn gerſydd fy nghêg am eu Hedrad hwy: Neu gadawant fi yn noeth lumman i ffferri ar Forfa *Caer* neu ryw Oerle anghysbell arall, Ond wrth feddwl fod y wynebeu a adwaenwn i wedi eu claddu, a rheini'n fy mwrw ac eraill yn fy nghadw uwchben pob Cennant, deellais nad *Witſiaid* oeddynt, ond mai rhai a elwir y *Tyluyth têg*, Ni chawn i attreg nad dyma fi'n ymyl yr anferth *Gaſtyll* tetca'r a welais i 'rioed, a *Lynn* tro

mawr

mawr o'i amgylch: yma dechreuaſant roi barn arnai; awn ag e'n anrheg i'r Caſtell, ebr un hage crogyn yſtyfnig taflwn ef i'r Llynn, ni thâl mo'i ddangos i'n Twyſog mawr ni, meddei'r llall; a ddywed e' ei Weddi cyn cyſcu? ebr y trydydd. Wrth ddynt ſôn am *Weddi*, mi a riddfenais ryw ochenaid tuac i ſynu am faddcuant a help; a chynted y meddyliais, gwelwn ryw *Oleuni* o hirbell yn torri allan, oh mor brydferth! fel yr oedd hwn yn neſau 'r oedd ſy nghymdeithion i'n tywyllu ac yn diflannu; a chwippyn dyma'r *Diſclair* yn cyfeirio tros y Caſtell attom yn union, ar hyn gollyngaſant eu gafel, ac ar eu hymadawiad troeſant atti guwch uſternol; ac oni baſei i'r Angel ſy nghynnel, baſwn digon mân er gwneud paſtai cyn cael daiar. Beth, eb yr Angel, yw dy neges di yma? Yn wîr ſ' Arglwydd ebr finneu, nis gwn i p'le yw yma, na pheth yw ſy neges, na pheth yw ſy hun, na pheth aeth a'm rhan arall i, yr oedd genni bedwar aelod a phen, a pha un ai gartre y gadewais, ai i ryw geubwll, canys cô 'genni dramwy tros lawer o geunentydd geirwon, y bwriodd y *Tylwyth têg* fi, ys *têg* eu gwaith, nis gwn i Syr, pe crogid fi. Têg eb ef y gwnaethent â thi oni bai 'nyſod i mewn pryd ith: achub o gigweinieu Plant Annwfn. Gan fod cymmaint dy awydd i weled *cwrs y Byd* bach, cês orchymyn i roi i ti olwg arno, ſel y gwelit dy wallco'n anfodloni i'th ſtad a'th wlad dy hunan. Tyrd gyda mi, neu dro, eb ef, a chyda'r gair, a hi'n dechreu torri'r wawr, ſ' a'm cippiodd i'mhell bell tu ucha'r Caſtell, ac ar ſcafell o gwmmwl gwyn gorphwyſaſom yn yr entrych, i edrych ar yr Haul yn codi, ac ar ſy nghydymaith nefol oedd lawer diſcleiriach na'r Haul, ond bod ei lewyrch ef ar i ſynu gan y llen gêl oedd rhyngdo

ac i wared. Pan gryfhaodd yr Haul rhwng y ddau ddiſclair, gwelwn y Ddaiar fawr gwmpaſog megis pellen fechan gron ymhell odditanom: Edrych yrwan, eb yr Angel, ac a roes i mi ddrych-yſpio amgen nac oedd genni fi ar y mynydd. Pan yſpiais trwy hwn, gwelwn betheu mewn modd arall, eglurach nac erioed or blaen. Gwelwn un Ddinas anferthol o faintioli, a miloedd o Ddinaſoedd a Thêyrnaſoedd ynddi; a'r Eigion mawr ſel Llynntro o'i chwmpas, a moroedd eraill fel afonydd yn ei gwahanu hi'n rhanneu. O hir graffu, gwelwn Hi yn *dair Stryd fawr* tros Pen; a *Phorth* mawr diſcleirwych ymhen iſa pob Stryd, a *Thwr* teg ar bob Porth, ac ar bob Twr yr oedd *Merch* landeg aruthr yn ſefyll yngolwg yr holl Stryd; a'r tri Thwr o'r tu ceſn i'r Caereu 'n cyrraedd at odre'r Caſtell mawr hwnnw. Ar o hyd i'r tair anferthol hyn, gwelwn *Stryd groes arall*, a honno nid oedd ond bechan a gwael wrth y lleill, ond ei bod hi'n lanwaith, ac ar godiad uwch-law'r Strydoedd eraill, yn mynd rhagddi uwch uwch tu a'r Dwyrein, ar tair eraill ar i wared tu ar Gogledd at y Pyrth mawr. Ni fedrais i ymattal ddim hwy heb ofyn i'm cyfell a gawn gennad i ſiarad. Beth ynteu, eb yr Angel, ond ſiarad ti gwrando'n yſtyriol na orffo dywedyd, yr un peth i ti ond unwaith. Gwna' f' Arglwydd, ac ertolwg, ebr fi, ple yw'r Caſtell draw yn y Gogledd? Y Caſtell fry yn yr awyr, ebr ef, a pieu *Belial*, Tywyſog llywodraeth yr Awyr: a Llywodraethwr yr holl Ddinas fawr obry, feli gelwir *Caſtell Hudol*, *canys* hudol mawr yw, *Belia*, a thrwy hudoliaeth y mae e'n cadw tan ei faner y cwbl oll a weli; oddieithr y Stryd fechan groes accw. Twyſog mawr yw hwn, a miloedd o dwyſogion dano; Beth oedd *Cæſar* neu *Alecſander* fawr wrth hwn? beth yw'r

Twrc

Twrt a'r hên *Lewis* o *Frainc* ond gweiſion i hwn? Mawr, a mawr tros ben yw gallu, a chyfrwyſdra, a diwydrydd y t'wyſog *Belial* a'i luoedd hefyd ſy ganddo heb riſedi'n y Wlad iſa. I ba beth y mae 'r Merched yna'n ſefyll, ebr fi, a phwy ydynt? Yn ara, eb yr Angel, un cweſtiwn ar unwaith; iw caru a'u haddoli y maent yna. Nid rhyfedd yn wir ebr fi, a hawddgared ydynt, pettwn perchen traed y dwylo fel y bûm. minneu awn i garu neu adoli y rhain. Taw, taw, ebr ynte, os hynny a wneit a'th aelodeu, da dy fôd hebddynt, gwybydd ditheu yſyryd angall. nad yw'r tair Twyſoges hyn ond tair hudoles ddiniſtriol. Merched y Twyſog *Belial*, o'u holl degwch a'u mwynder ſy'n ſerenni'r Strydoedd, nid yw ond wynebiad ar wrthuni a chreulonder; mae'r Tair oddimewn fel eu Tad, yn llawn o wenwyn marwol. Och fi, 'ai poſſibl ebr fi'n athriſt iawn, ar glwyfo o'u car ad? Rhy wir yſywaeth, ebr ef. Gwych gennit y pelydru y mae'r tair ar eu haddolwyr; wel', ebr ef, mae yn y Pelydr accw lawer ſwyn ryfeddol, mae e'n eu *dallu* rhag gweled bach, mae e'n eu *ſynnu* rhag ymwrando a'u perygl, ac yn eu *lloſci* athrachwant diwala am ychwaneg o hono, ac ynte'n wenwyn marwol, yn magu ynddynt glefydon aneſcorol na ddichon un meddyg, ie, nac angeu byth bythoedd ei hiachau, na dim oni cheir phyſyg wriaeth nefol a elwir *edifeirwch*, i gyfog y drwg mewn pryd cyn y greddfo'n rhybell, wrth dremio gormod arnynt, Pam, ebr fi, na ſynn *Belial* yr addoliant iddo 'i hunan? Ond yr un peth yw, eb ef: mae'r hên Gadno yn cael ei addoli yn eu ferched, oblegid tra bo dyn yn glyn wrth y rhain neu wrth un o'r tair mae e'n ſicr tan nôd *Belial*, ac yn gwiſco 'i lifrai ef. Beth, ebr fi, y gelwch i'r tair Hudoles yna? Y bella draw, eb ef, a elwir

Balchder, Merch hyna *Belial*; yr ail, yw *Plesor*; ac *Elw* ydy'r nesa yma; y Tair hyn yw'r *Drindod* y mae'r *Byd* yn ei addoli. Arlygaf henw'r Ddinas fawr wallwfus hon; ebr fi, os oes arnai well henw na *Bedlam* fawr? Oes ebr ef, he a elwir y *Ddinas ddihenydd*. Och fi, ai Dynion dihenydd, ebr fi, yw'r cwbl fy ynddi? Y cwbl oll, ebr ynte, oddieithr ymbell un a ddiango allan i'r Ddinas ucha fry fy tan y Brenin *IMMANUEL*. Gwae finneu, a'm heiddo pa fodd y diangant, a hwythe 'n llygadrythu fyth ar y peth fy'n eu dallu fwyfwy, ac yn eu hanreithio yn eu dallineb? Llwyr amhoffibl, ebr ynte, fyddei i undyn ddianc oddiyma, oni bai fod *IMMANUEL* oddifry yn danfon ei Gennadon hwyr a boreu iw perfwadio i droi atto Ef ei hunion Frenhin oddiwrth y Gwrthryfelwr, ac yn gyrru hefyd i ymbell un anrheg o ennaint gwerthfawr a elwir *ffydd*, i iro'u llygaid; a'r fawl a gaffo'r *gwir* ennaint hwnnw, canys mae *rhith* o hwn fel o bob peth arall yn y *Ddinas ddihenydd*, ond pwy bynnac a ymiro a'r *iawn* ennaint fe wel ei friwieu ai wallco, ac nid erys yma funud hwy pe rhoe *Belial* iddo 'i dair Merch, ie, neu 'r bedwaredd, fy fwya oll, am aros. Beth y gelwir y Strydoedd mawr hyn, ebr fi? Gelwir, ebr ynte, bob un wrth henw'r Dwyfoges fy'n rheoli ynddi; Stryd *Balchder* yw'r, bella, y ganol Stryd *Plesor* y nesa Stryd yr *Elw*. Pwy ertolwg, ebr fi, fy'n aros yn y Strydoedd yma? pa Iaith? pa Ffordd? pa Genedl? Llawer, ebr ef, o bob iaith, a Crefydd, a Chenedl tan yr Haul hwn, fy'n byw ymhôb un o'r Strydoedd mawr obry: a llawer un yn byw ymhob un o'r tair Stryd ar gyrfieu, a phawb nefa'r y gallo at y Porth: a mynych iawn y mudant heb fedru fawr aros yn y naill, gan ddaed ganddynt Dwyfoges Stryd arall: A'r hen

hên *Gadno* tan ei ſcatell yn gado i bawb garu ei ddewis, neu'r tair os monn, ſiccra oll yw ef o hono. Tyrd yn nês attynt eb yr Angel, ac a'm cippiodd i wared yn y llen-gêl, trwy lawer o fwrllwch diffaith oedd yn codi o'r Ddinas, ac yn Stryd *Balchder* deſcynnaſom ar ben 'hangle o Blaſdy penegored mawr, wedi i'r Cwn a'r Brain dynnu ei Lygaid, a'i berchenogion wedi mynd i *Loegr*, neu *Fraint*, i chwilio *yno* am beth a faſei can haws ei gael *gartre*, felly yn lle'r hên Dylwyth luſengar daionus gwladaidd gynt, nid oes rwan yn cadw meddiant ond y modryb Dylluan *hurt*, neu Frain *rheibus*, neu Biod *brithfeilchion*, neu'r cyffelyb i ddadcan *campeu* y perchenogion preſennol. Yr oedd yno fyrdd o'r fath blaſau gwrthodedig, a allaſei oni bai *Falchder*, fod fel cynt yn gyrchfa goreugwyr, yn Noddfa i'r gweiniaid, yn Yſcol Heddwch a phob Daioni, ac yn fendith i fil o Dai bâch o'u hamgylch. O ben y Murddyn yma'r oeddem yn cael digon o le, a llonydd i weled yr holl Stryd o'n deu-ty. Tai têg iawn, rhyfeddol o uchder, ac o wychder, ac achos da, o ran bod yno Y merodron, Brenhinoedd a Thwyſogion 'gantoedd. Gwyr mawr a Bonheddigion fyrdd, a llawer iawn o Forched o bob gradd; Gwelwn aml Goegen gorniog fel Llong ar lawn hwyl, yn rhodio megis mewn Fframm, a chryn Siop Pedler oi chwmpas, ac wrth eu chluſtiau werth Tyddyn da o berlau: a rhai oedd yn canu i gael canmol eu *llais*, rhai'n dawnſio i ddangos eu *llun*, eraill oedd yn paentio i wellau eu *lliw*; eráill wrth y Drych er's teir-awr yn ymbincio, yn dyſcu gwenu, yn ſymmud pinneu, yn gwneud munudie 'ac yſtumieu. Llawer murſen oedd yno, na wyddei pa ſutt i agor ei gweſuſeu i ſiarad, chwaethach i fwytta, na pha ſodd o Wir ddyſoſiwn i

edrych

edrych tan ei thraed; a llawer Yſcowl garpiog a fynnei daeru ei bod hi cyſtal Merch ſonheddig a'r oreu'n y Stryd, a llawer yſcogyn rhygyngog a allei ridyllio Ffa wrth wynt ei gynffon. A mi 'n edrych o bell ar y rhain a chant o'r ſâth, dyma 'n dyfod heibio i ni globen o baunes fraith ucheldred ac o'i lledol gant yn ſpio, rhain'n ymgrymmu megis iw haddoli, ymbell un a roe beth yn ei llaw hi. Pan ſethodd genni ddyfeiſio beth oedd hi, gofynnais; O ebr ynghyfaill, un yw hon ſy a'i chynnyſcaeth oll yn y golwg, etto gweli faint ſy o raiffolion yn ei cheiſio, a'r gwaela'n abl, er ſy arni hi o gaffaeliad; hitheu *ni fynn a gaffo ni cheiff a ddymuno*, ac ni fiaryd ond a'i gwell am ddywedyd o'i Mamm wrthi nad oes un gamp waeth ar Ferch ieuanc na bod yn *ddiſalch* wrth garu. Ar hyn dyma baladr o wr a faſei'n Alderman ac mewn llawer a ſwyddeu yn dyfod allan odditanom, yn lledu ei eſcill, megis i hedeg, ag ynteu prin y gallei ymlwybran o glun i glun fel ceffyl a phwn, o achos y *geſt* a'r *Gowt* ac amryw glefydon bonheddigaidd eraill; er hynny ni cheiti ganddo ond trwy ffafr fawr un cibedrychiad, a chôfio er dim ei alw wrth ei holl *ditlau* a'i *ſwyddau*. Oddi ar hyn trois yngolwg tu arall i'r Stryd lle gwelwn glamp o bendefig ieuanc a lliaws o'i ôl yn deg eiwen, a lla s ei foes ibawb a'i cyrfyddaei. Knyfedd, ebr fi, fod hwn a hwn accw'n perthyn i'r un Stryd. O, yr un Dwyſoges *Balchder* ſy'n rheoli'r ddau, ebr ynteu: Nid yw hwn ond dywedyd yn deg am ei neges, lle clod y mae e'r awron, ac ar fedr wrth hynny ymgodi i'r Swydd ucha'n yn Deyrnas; hawdd ganddo wylo wrth y bobl faint yw eu cam gan ddrwg ſwyddogion yn eu gorthrymmu; etto ei *fawrhâd* ei *hur*, nid *lleſâd* y *Deyrnas* yw corph y gainc. O hir dremio

dremio canſûm wrth Borth y *Balchder*, Ddinas deg ar ſaith fryn, ac ar ben y Llys tra ardderchog'r oedd y *Goron driphlyg* a'r *Cleddyfeu* a'r *Goriadeu* 'n groeſion: wel'dyma *Ruſain*, ebr fi, ac yn hon y mae'r *Pâb* yn byw? ie ſynycha' eb yr Angel, ond mae ganddo Lys ymhob un o'r Strydoedd--eraill. Gyfeiryd â *Rhuſain*, gelwn Ddinas â Llys teg iawn, ac arno wedi derchafu'n uchel *banner lleuad* ar Faner aur, wrth hyn gwybûm mai'r *Twrc* oedd yno. Neſa at y Porth ond y rhain, oedd lŷs *Lewis* XIV. o *Ffrainc*, fel y deellais wrth ei arfau ef, y *tair Flour de lis* ar Faner arian ynghrôg uchel: Wrth ſelu ar uchder a mawredd y Llyſoedd hyn, gwelwn lawer o dramwy o'r naill Lys i'r llall, gofynnais beth oedd ŷr achos; oh? llawer achos tywyll, eb yr Angel, ſy rhwng y tri Phen cyfrwyſgry hyn a'u gilydd: Ond er eu bod hwy'n eu tybio'n hunain yn addas ddyweddi i'r tair Twyſoges fry, etto nid yw eu gallu a'u dichell ddim wrth y rheini. Ie ni thybia *Belial* fawr mor holl Ddinas (er amled ei Brenhinoedd) yn addas iw Ferch.ed ef. Er ei fod e'n eu cynnyg hwy'n briod i bawb, etto ni roes e'r un yn hollawl i neb erioed. Bu ymorcheſtu rhwng y Tri hyn am danynt; y *Twrc* a'i geilw ei hun *Duw'r ddaiar*, a ſynnei'r hyna'n briod ſef *Balchder*: Nage, meddei Frenin *Ffrainc*, myfi pieu honno ſy'n cadw fy holl ddeiliaid yn ei Stryd hi, ac hefyd yn dwyn atti lawer o *Loegr* a Theyrnaſoedd eraill. Mynnei'r *Spaen* y Dwyſoges *Etw* heb waetha i *Holland*, a'r holl *Iddewon*; Mynnei *Loegr* y Dwyſoges *Pleſer*, heb waetha i'r *Paganeaid*. Ond mynnei'r Pâb y Tair, ar well rheſymmeu na'r lleill i gyd: ac mae *Belial* yn ei gynnws e'n neſa attynt yn y tair Stryd. At am hynny y mae'r tramwy rwan, ebr fi? nage, ebr

ebr ef, cyttunodd *Belial* rhyngddynt yn y matter hwnnw er's talm, Ond yr awron fe roes y tri i waſcu i penneu 'nghyd, pa fodd naſa y gallent ddifa y Stryd groes accw, ſef Dinas *IMMANUEL*, ac yn enwedig un Llys mawr ſy yno; o wir wenwyn ei weled e'n deccach Adeilad nac ſy yn y Ddinas ddihenydd oll. Ac mae *Belial* yn addo i'r ſawl a wnel hynny, hanner ai Frenhiniaeth tra fo ef byw a'r cwbi pan fo marw. Ond er maint ei allu a dyfned ei ddichellion, ar maint o Emprwyr Brenhinoedd a Llywiadwyr cyfrwyſgall ſy tan ei Faner ef yn yr anferth Ddinas ddihenydd, ac ar glewed ei fyddinoedd aneirif ef tu draw i'r Pyrth yn y Wlâd iſa etto eb yr Angel, cânt weled hynny'n ormod o daſc iddynt: Er maint, er cryfed, ac er dichlined yw'r *Mawr* hwn, etto mae yn y Stryd fach accw Un ſy *Fwy* nac ynteu. Nid oeddwn i'n cael gwrando mo'i reſymmau angylaidd ef yn iawn gan y pendwmpian yr oeddynt hyd y Stryd lithrig yma bob yn awr; a gwelwn rai ag yſcolion yn dringo'r Twr, ac wedr mynd i'r ffon ucha, ſyrthient bendramwnwgl i'r gwaelod: i ba le y mae'r ynfydion accw'n ceiſio mynd, ebr fi? i rywle digon uchel, eb ef, ceiſio y maent dorri tryſordy'r Dwyſoges. Mi wrantaf yno le llawn, ebr fi. Oeseb ef, bob peth a berthyn i'r Stryd yma, iw rhannu rhwng y trigolion: Pob math o arfeu *rhyfel* i oreſcyn ac ymledu; pob math o arfeu *bonodd* banerau, ſcwtſiwn, llyfreu a acheu, gwerſi'r hynafiaid, cywyddeu; pob math o wiſcoedd gwychion ſtoriau gorcheſtol, drychau ffeilſion; pob lliwieu a dyfroedd i deccau'r wynebpryd; pob uchel ſwyddau a thitlau, ac ar fyrr iti, mae yno bob peth a bair i ddyn dybio'n well o hono'i hun, ac yn waeth o eraill nac y dyles. Prif Swyddogion y Tryſordy hwn yw Meiſtred y

Ceremoniau

Ceremoniau, Herwyr, Achwyr, Beirdd, Areithwyr, Gwenieithwyr Dawnſwyr Taelwriaid Pelwyr, Gwniadyddeſau a'r cyffelyb. O'r Stryd fawr hon, ni aethom i'r neſa lle mae'r dwyſoges *Elw* yn rheoli, Stryd lawn a chyfoethog aruthr oedd *hon*, etto nid hanner mor wych a glanwaith a Stryd *Balchder* na'i phobl hanner mor ehud wyneb uchel, canys dynion llechwrus iſelgraff oedd yma gan mwyaf. Yr oedd yn y Stryd hon fyrdd o *Hiſpaenwyr*, *Hollanawyr*, *Venetiaid*, ac *Iddewon* yma a thraw; a llawer iawn o hên bobl oedrannus. Attolwg Syr, ebr fi, pa ryw o ddynion yw y rhain? Rhyw *Siôn lygad y geiniog*, eb ynte, yw'r cwbl. Yn y pen iſa, cei weled y *Pap* etto, Goreſcynnwyr Teyrnaſoedd a'i Sawdwyr, Gorthrymwyr Fforeſtwyr, Cauwyr y Drosfa gyffredin. Uſtuſiaid a'u Breibwyr, a'u holl Sîl o'r cyfarthwyr hyd at y ceisbwl: O'r tu arall, ebr ef, mae'r Phyſygwyr, Poteeariaid, Meddygon; Cybyddion; Marſiandwyr Ceibddeilwyr Llogwyr; *Attalwyr* degymeu, neu gyflogeu neu renti, neu luſenau a adawſid at Yſcolion, Luſendai a'r cyfryw. Porthmyn, Maelwyr a fydd yn cadw ac yn codi'r Farchnad at eu llaw eu hunain: Siopwyr (neu Siarpwyr) a elwant ar *angen*, neu *anwybodaeth* y prynwr, Stiwardiaid bob gradd, Clipwyr, Tafarnwyr ſy'n *yſpeilio* Teuluoedd yr oferwyr o'u *dâ*, a'r Wlad oi *Haidd* at faſa i'r tlodion. Hyn oll o *Garnlladron*, ebr ef; a mân ladron yw'r lleill, gan mwya ſy ymhen ucha'r Stryd, ſef Yſpeilwyr ffyrdd, Taelwriaid, Gwebyddion, Melinyddion, Meſurwyr gwlŷb a ſych a'r cyffelyb. Yngh anol hyn, clywn ryw anfad rydwſt tu a phen iſa'r Stryd, a thyrfa fawr o bobl yn ymdyrru tu a'r Porth, a'r fath ymwthi o ac ymdaeru, a wnæth i mi feddwl fod rhyw ffrae gyffredin ar droed, nes

gofyn

gofyn i'm cyfaill beth oedd y matter; Tryſor mawr tros ben ſy'n y Twr yna, eb yr Angel, a'r holl ymgyrch ſy i ddewis Tryſorwr i'r Dwyſoges yn lle'r Pâp a drowyd allan o'r Swydd. Felly nineu aethom i weled y' *Lecſiwn*. Y Gwŷr oedd yn ſeſyll am y Swydd oedd y *Stiwardiad*, y *Llogwyr*, y *Cyfreithwyr* a'r *Maerſiandwyr*, a'r cyfoethocca o'r cwbl a'i cai: (oblegid pa mwya ſy gennit, mwya gei ac y geiſi, rhyw *ddolur diwala* ſy'n perthyn i'r Stryd. Gwrthodwyd y Stiwardiaid y cynnyg cynta, rhag iddynt dlodi'r holl Stryd, ac fel y codaſeint eu Plaſau ar furddynnod ei Meiſtred, felly rhag iddynt o'r diwedd droi'r Dwyſoges ei hun allan o feddiant. Yna rhwng y tri eraill yr aeth y ddadl; mwy o Sidaneu oedd gan y Marſiandwyr, mwy o Weithredoedd ar Diroedd gan y Cyfreithwyr, a mwy o Godeu Howniou, a Biliau a Bandieu gan y Llogwyr Hai, ni chyttunir heno, eb yr Angel, tyrd ymaith, cyfoethoccach yw'r Cyfreithwyr na'r Marſiandwyr, a chyfoethoccach, yw'r llogwr na'r Cyfreithwyr, a'r Stiwardiaid na'r Llogwyr, a *Belial* na'r cwbl, canys ef a'u pieu hwy oll a'u petheu hefyd. I ba beth y mae'r Dwyſoges yn cadw'r Lladron hyn oi chylch, ebr fi? Beth gymmwyſach, eb ynte, a hi'n Ben-lladrones ei hun. Synnais ei glywed e'n galw'r Dwyſoges felly, a'r Bon'ddigion mwya yno yn Garn-lladron; Attolwg ſ' arglwydd, ebr fi, pa fodd y gelwch y Pendefigion urddaſol yna yn fwy Lladron na 'Speilwyr-ffyrdd? Nid wyti ond ehud ebr ef: Onid yw'r cna êl a'i gleddy'n ei law a'i reibwyr o'i ôl, hyd y byd tan ladd, a lloſci, a lladratta Teyrnaſoedd oddi ar eu hiawn berch'nogion, ac a ddiſgwyl wedi ei addoli yn Gyncwerwr. yn waeth na Lleidryn a gymer bwrs a y Ffordd-ſawr? Beth yw Laeliwr a ddwg ddarn o frethyn, wrth

Wr

Wr mawr a ddwg allan o'r Mynydd ddarn o Blwy? Oni haeddei hwn ei alw'n Garnlleidr wrth y llall? ni ddûg hwnnw ond cynhinion oddiarno *ef*, eithr a ddûg oddiar y *tlawd* fywioliaeth ei anifail: ac wrth hynny, ei fywioliaeth ynteu a'i weinaid. Beth yw dwyn dyrneid o flawd yn y Felin, wrth ddwyn cant o hobeidieu i bydru, i gael gwedi werthi un ymhrîs pedwar? Beth yw Sawdwr lledlwm addycco dy ddillad wrth ei gleddyf, wrth y Cyfreithwyr a ddwg dy holl ſtat oddiarnat, a chwi gwydd, heb nac iawn na rhwymedi i gael arno? A pheth yw Pigwr-pocced, a ddygo bumpynt, wrth gogiwr dîs, a'th yſpeilia o gantpunt mewn traean nôs? A pheth yw Hwndliwr'ath ſiommei mewn rhyw hên geffyl, methiant, wrth y Potecari a'th dwylla o'th arian a'th hoedl hefyd am ryw hên phyſygwriaeth ſethedig? Ac etto, beth yw'r holl Ladron hyn wrth y Penlladrones fawr yna ſy'n dwyn oddiar y cwbl yr holl betheu hyn, a'u calonneu, a'u heneidieu yn niwedd y ffair. O'r Stryd fawaidd anrhefnus hon ni aethom i Stryd y Dwyſoges *Pleſer*, yn hon gwelwn lawer o *Fritaniaid*, *Ffrancod*, *Italiaid*, *Paganiaid*, &c. Twyſoges lân iawn yr olwg oedd hon, a gwîn cymmyſc yn y naill law, a chrwth a thelyn yn y llall: ac yn ei Thryſorfa aneirif o bleſerau a theganeu i gael cwſmeriaeth pawb, a'u cadw yn gwaſanaeth ei Thad. Ie, 'r oedd llawer yn dianc i'r Stryd fwyn hon, i fwrw triſtwch eu colledion a'u dyledion yn y Strydoedd eraill. Stryd lawn aruthur oedd hon, o bobl ieuanc yn enwedig; a'r Dwyſoges yn ofalus am foddio pawb a chadwſaeth i bôb nôd. Os ſychedig wyt, mae i ti yma dy ddewis ddiod: Os ceri ganu a dawnſio, cei yma dy wala. Os denodd glendid hon, di i chwantio corph Merch, nid rhaid iddi ond codi bys

ar

ar un o Swyddogion ei Thâd (ſy o'i hamgylch bob amſer er nas gwelir) a hwy a droſglwyddant iti fenyw yn ddiattreg; neu *gorph* putten newydd gladdu, a hwytheu ânt i mewn iddo, yn lle *enaid*, rhag i ti golli pwrpas mor ddaionus. *Yma* mae tai teg a gerddi tra hyfryd, perllannau llownion, llwyni cyſcodol, cymmwys i bob dirgel ymgyfarfod i ddal adar, ac ymbell gwnningen wen: afonydd gloew tirion iw pyſcotta, meuſydd maith cwmpaſog, hawddgar i erlid ceunach a chadno Hyd y Stryd allan gwelit *chwareuon* Interlud, ſiwglaeth a phob *caſtieu* hûg, pob rhyw *gerdd* faſwedd *daſod* a *thant*, canu baledeu, a phob digrifwch; a phob rhyw lendid o Feibion a Merched yn canu ac yn dawnſio, a llawer o Stryd *Balchder* yn dyfod yma i gael eu moli a'u haddoli. Yn y tai, gwelem rai ar welau ſidanblu yn ymdrobaeddu mewn *trythyllwch*: rhai'n tyngu ac yn rhegu uwchben y *Dabler*, eraill yn ſiffrwd y *Diſieu* a'r *Cardieu*. Rhai o Stryd *Elw* a chanddynt yſtafell yn *hon*, a redeint yma a'u harian iw cyfry, ond ni arhoent fawr rhag i rai o'r aneirif deganeu ſy yma eu hudo i ymadel a pheth o'u harian yn ddilog. Gwelwn eraill yn fyrddeidieu yn gwledda, a pheth o bob creadur o'u blaen; a chwedi i bob un o ſaig i ſaig ſolera cymmaint o'r dainteithion; ac a wnaethei wledd i ddyn cymmedrol tros wythnos, yna *bytheirio* oedd y grâs bwyd, yna moeſwch iechyd y brenin, yna iechyd pob cydymaith da, ac felly ymlaen i foddi archfa'r bwydydd, a gofalon hefyd: yna *Tobaceo*, yna pawb a'i *Stor* ar ei gymydog, os gwir, os celwydd, nis gwaeth am y bo hi'n *ddigrif*, neu'n *ddiweddar* neu'n ſicer os bydd hi rhywbeth *gwradwyddus*. O'r diwedd rhwng ymbell fytheiriad trwm, a bod pawb a'i biſtol pridd y chwythu mŵg a than, ac abſen iw gymydog

gymydog, a'r llawr yn fudr cuſys rhwng colli diod a phoeri mi ofnais y gallei gaſtie' butrach na rheini fod yn agos, ac a ddeiſyfiais gael ſymmud. Oddi yno ni aethom lle clywem drŵſt mawr a churo a dwndrio, a chrio a chwerthin, a bloeddio a chanu. Wel'dyma *Fedlam* yn ddiddadl, ebr fi. Erbyn i ni fyned i mewn, darfaſei'r ymddugwd, ac un ar y llawr yn glwtt, un arall yn bwrw i fynu, un arall yn pendwmpian uwchben aclwyded o fflagenni tolciog, a darneu pibelli a godardeu; a pheth erbyn ymorol, ydoedd ond cyfeddach rhwng ſaith o gymdogion ſychedig. *Eurych*, a *Lliwydd*, a *Gof*, *Mwyngloddiwr*, *'Scubwr-ſimneian*, a *Phrydydd*, ac *Offeiriad* a ddaethei i bregethu ſobrwydd, ac i ddangos ynddo 'i hun wrthuned o beth yw *meddwdod*; a dechreu'r ffrwgwd diweddar oedd dadleu ac ymdaeru faſei rhyngddynt, p'run oreu o'r ſeithrew a garei bot a phibell; a'r Prydydd aethei a'r maes ar bawb ond yr Offeiriad, a hwnnw, o barch iw ſiaeced, a gawſei'r gair trecha, o fod yn ben y cymdeithion da, ac felly cloes y Bardd y cwbl ar gan:

O'r dynion p'le'r adwaenych,
A'r ddaiar faith ſaith mor ſych,
A'r goreu o'r rhain am gwrw rhudd,
Offeiriedyn a Phrydydd.

Wedi llwyrflino ar y moch abrwyſc hyn, ni aethom yn nes i'r Porth i ſpio gwallieu i ardderchog Lys *Gariad* y Brenhin cibddall, lle hawdd mynd i mewn, ac anhawdd mynd allan, ac ynddo aneirif o Stafelloedd. Yn y Neuadd gyfeiryd a'r drws, yr oedd *Cuwpid* benſyfrdan a'i ddwy ſaeth ar ei ſwa, yn ergydio gwenwyn nychlyd a elwir *blys*. Hyd y llawr gwelwn lawer o Ferched glan trwſiadus yn rhodio wrth yſcwîr, ac o'u lledol drueiniaid o Lancieu yn tremio ar eu tegwch ac yn

erbyn bob un am gael gan ei baunes un cil-edrychiad, gan ofni Cuwch yn waeth nac Angeu; ymbell un tan blygu at lawr, a roe *Lythyr* yn llaw ei Dduwies, un arall *gerdd*, a diſgwyl yn ofnus fel 'Scolheigion yn dangos eu Taſc iw Meiſtr; a hwytheu a roent ymbell gip o Wen gynffonnog i gadw eu haddolwyr mewn awch, ond nid dim ychwaneg, rhag iddynt dorri eu blys, a mynd yn iach o'r *Clwy* ac ymadel. Mynd ymlaen i'r *Parlwr*, gwelwn ddyſcu dawnſio, a chanu, a llais ac a llaw i yrru eu Cariadeu yn ſaith ynfyttach nac oeddynt euſys: Mynd i'r *Buytty*, dyſcu'r oeddid yno wers o gymhendod mindlws wrth fwytta: Mind i'r *Seler*, yno cymyſcu Diodydd cryfion o *ſwyn-ſerch* o greifion ewinedd a'r cyffelyb: Mynd i fyny i'r *Lofftydd*, gwelem un mewn' ſtafell ddirgel yn gwneud pob yſtumieu arno 'i hun i ddyſcu moes boneddigaidd iw Gariad; un arall mewn Drych yn dyſcu chwerthin yn gymmwys heb ddangos iw Gariad ormod o'i ddannedd; un arall yn taccluſo 'i chwedl erbyn mynd atti hi, ac yn dywedyd yr un wers ganwaith trosti. Blino ar y ffloreg ddiflas honno, a myned i gell arall, yno'r oedd Pendefig wedi cyrchu Bardd o Stryd *Balchder*, i wneud Cerdd fawl iw angyles, a chywydd moliant iddo 'i hun; a'r Bardd yn dadcan ei gelfyddyd, mi fedraf, ebr ef, ei chyffelybu hi i bob *côeh* a *gwyn* tan yr Haul, a'i gwallt hi i gan peth melynach na'r aur; ac am eich Cywydd chwitheu, medraf ddwy eich Acheu trwy berfedd llawer o Farchogion, a Thywyſogion, a thrwy'r dw'r Diluw, a'r cwbl yn glîr hyd at *Adda*. Wel' dyma Fardd, ebr fi, ſy well olrheiniwr na mi: Tyrd, tyrd, eb yr Angel, mae rhain ar fedr twyllo'r fenyw, ond pan elont atti, bid ſicer y cant attcb caſt am gaſt. Wrth ymadel a rhain, gwelſom gip

ip ar gelloedd lle'r oeddid yn gwneud caſtieu bryn-ach nac y gad gwylder eu henwi, a wnaeth i'm Cydymaith ſy nghippio i'n ddigllon o'r Llys pen-chwiban yma, i Dryſordy'r Dwyſoges (oblegid ni aem lle chwenychem er na doreu na chloieu.) Yno gwelem fyrdd o Ferched glan, pob diodydd, ſrwythydd; dainteithion, pob rhyw offer a lly-reu cerdd dafod a thant, telyneu, pibeu, cywy-ddeu, caroleu &c. pob math o chwareuon tawl-bwrdd ffriſtial, diſieu, cardieu, &c. pob llunieu gwledydd, a threfi, a dynion, a dyſeiſieu, a chaſt-eu digrif: pob dyfroedd, per-arogleu, a lliwieu, a ſmottieu i wneud yr wrthun yn lan, a'r hen i edrych yn ieuanc, ac i ſawyr y buttain a'i heſcyrn bwdr fod yn beraidd tros y tro. Ar fyrr, yr oedd yno bob math o *gyſgodion*, pleſer a *rhith* hyfryd-wch: ac o ddywedyd y gwir, ni choelia 'i na walliaſei'r fan yma finneu, oni baſei i'm Cyfeill yn ddiymannerch, ſy nghipio i ymhell oddiwrth y tri Thŵr hudol i ben ucha'r Strydoedd, a'm deſcyn i wrth gaſtell o *Lys* anferthol o faint, a thirion iawn yr olwg cynta, ond gwael a gwrth-un arſwydus o'r tu pella, etto ni welid ond yn anhawdd iawn mor tu gwrthun; a myrdd o ddryſeu oedd arno a'r holl ddoreu 'n wych y tu allân, ond yn bwdr y tu mewn. Attolwg, P Arglwydd, ebr fi, os rhyngai'ch bodd p'le yw'r fan ryfeddol hon? Hwn, ebr ef, yw Llys ail Ferch *Belial*, a elwir *Rhagrith*: Yma mae hi'n cadw ei Hyſcol. ac nid oes na Mâb na Merch o fewn yr holl Ddinas, na fu'n 'Scolheigion iddi hi, a rhan fwya'n yfed eu Dyſc yn odiaeth, fel y gwelir ei gwerſi hi wedi mynd yn ail natur yn gyfrodedd trwy eu holl feddyliau, geirieu a gwei-thredoedd agos er ein blant. wedi i mi ſpio ennyd ar ffalſder pob cwrr o'r Adeilad, dyma

Ganhebrwng yn mynd heibio, a myrdd o wylo ac ochain, a llawer o ddynion a cheffyleu wedi cu hulio mewn galarwiſcoedd duon; ymhen ennyd, dyma'r druan *Weddw*, wedi ei mwgydu rhag edrych mwy ar y byd brwnt yma, yn dyſod tan leiſio'n wann, ac och'neidio'n llêſc rhwng lleſmeirieu: Yn wîr, ni fedrais inneu nad wylaiſ beth o defuri: Iê, iê, eb yr Angel, cedwch eich dagreu at rywbeth rheitiach: Nid wy'r lleiſieu hyn ond dyſc *Rhagrith*, ac yn ei Hyſcol fawr hi, y lluniwyd y gwiſcoedd duon yna. Nid oes un o rhain yn wylo o ddifri; Mae'r *Widow*, cyn mind corph hwn o'i thy, wedi gollwng *Gwr arall* euſys at ei chalon; pe cai hi ymadel a'r gôſt ſy wrth y corph, ni waeth ganddi o frwynen pettei ei enaid ef yn ngwaelod Uffern, na'i geraint ef mwy na hitheu; oblegid pan oedd gletta arno, yn lle ei gynghori'n ofalus, a gweddio'n daerddwys am drugaredd iddo, ſôn yr oeddid am ei Betheu, ac am ei Lythyr-cymmun, neu am ei Acheu, neu laned, gryfed Gwr ydoedd ef, a'r cyffelyb: Ac felly rwan nid yw'r wylo yma, ond rhai o ran defod ac *arfer*, eraill o *gwmnhi*, eraill am eu *cyflog*. Prin yr aethei rhai'n heibio, dyma Dyrfa arall yn dyfod i'r golwg, rhyw Arglwydd gwych Arthur, a'i Arglwyddes wrth ei glun, yn mynd yn araf mewn ſtât, a llawer o Wyr cyfrifol yn eu gapio a myrdd heſyd ar eu traed yn dangos iddo bôb uſudd-dod a pharch; ac wrth y *Fafreu*, doellais mai *Priôdas* ydoedd. Dyma Arglwydd ardderchog, ebr fi, ſy'n headdu cymmaint parch gan y rhai'n oll. Ped yſtyrit y cwbl, ti a ddywedit rywbeth arall, eb ef: Un o Stryd *Pleſer* yw'r Arglwydd yma, a Merch yw hitheu o Stryd *Balchder*; a'r henddyn accw ſy'n ſiarad wag ef, un ydyw o Stryd yr *Elw*, ſy ganddo arian

ar

ar holl dir yr Arglwydd agos, a heddyw'n dyfod orphen taledigaeth: ni aethom i glywed yr ymddiddan. Yn wir, Syr meddei'r Codog, ni fynnaſwn i er a feddai, fod arnoch eiſieu dim a'r a allwn i at ymddangos heddyw'n debyg i chwi'ch hunan, ac yn ſicr gan ddarfod i chwi daro wrth Arglwyddes mor hawddgar odidog a hon; (a'r Cottyn hên-graff yn gwybod o'r goreu beth oedd hi.) Myn, myn, myn, eb yr Arglwydd, nela pleſer, at edrych ar degwch hon, oedd wrando'ch mwynion reſymmeu chwi; gwell genni dalu i chwi lôg, na chael arian yn rhâd gan neb arall. Yn ddiau, f' Arglwydd, ebr un o'r pen cymdeithion, a elwid Gwenieithiwr, nid yw f' ewythr yn dangos dim ond a haeddechi o barch, ond trwy'ch cennad, ni roes ef hanner a haeddei f' Arglwyddes o glôd. Ni cheiſiai, ebr ef, ond gwaetha ungwr ddangos ei glanach hi'n hôll Stryd *Balchder*, na'ch gwychach chwithe'n hôll Stryd *Pleſer*, na'ch mwynach witheu f' ewythr yn Stryd yr *Elw*. O'ch tyb dda chwi, eb yr Arglwydd, yw hynny, ond ni choeliai fynd o ddau ynghyd erioed trwy fwy o gariad na ninneu. Fel yr oeddynt yn mynd ymlaen, yr oedd y dyrfa'n cynnyddu, a phawb yn deg ei wên, ac yn llaes ei foes i'r llall, ac yn rhedeg i ymgyfwrdd a'u trwyneu gan lawr, fel dau Geiliog a fyddei'n mynd i daro. Gwybydd weithian, eb yr Angel, na welaiſti etto *foes*, ac na chlywaiſt yma *air*, ond o werſi *Rhagrith*. Nid oes yma un wedi'r holl fwynder, a chanddo ffyrlingwerth o gariad i'r llall, iê, gelynion yw llawer o honynt iw gilydd. Nid yw'r Arglwydd yma, ond megis *cyffclêr* rhyngthynt, a phawb a'i grab arno. Mae'r Feinir a'i bryd ar ei *fawredd* a'i *fonedd* ef, modd y caffo hi'r blaen ar lawer o'r chwiorgeſau. Y Cott ſy a'i olwg ar ei *Dir* ef

iw Fab ei hun, y lleill i gyd ar *Arian* ei gynny
ſcaeth ef, oblegid ei ddeiliaid ef ydynt oll, ſef e
Farſiandwyr, ei Daelwriaid, ei Gryddion, a'
Grefftwyr eraill ef, au huliodd ac a'i maentum-
iodd e'n yr holl wychder mawr hwn, ac heb
gael ffyrling etto, nac yn debyg i gael, ond geir
ieu têg, ac weithieu fygythion ondodid: Ballach
pa ſawl tô, pa ſawl plyg a roes *Rhagrith* yma a
wyneb y *Gwirioned!* Hwn yn addo mawredd iw
Gariad, ac ynteu ar werthu ei Dir; hithe'n add
cynnyſcaeth a glendid heb feddu, ond glendid *go*
ſod, a'r hên ganer yn ei Chynnyſcaeth ai Corp
hefyd. Wel'dyma arwydd, ebr fi, na ddyli
fyth farnu wrth y golwg. Iê, tyrd ymlaen, eb
ef, a dangoſaf i ti beth ychwaneg; ar y gair,
a'm troſglwyddodd, i fynu, lle'r oedd Eglwyſi'
Ddinas ddihenydd, canys yr oedd rhîth o *Grefyd*
gan bawb ynddi hyd yn oed y digrêd. Ac
Deml yr *anghred* yr aethom gynta, gwelwn yn
rai yn addoli llun *Dyn*, eraill yr *Huul*, eraill,
Lleuad, felly aneirif o'r fath Dduwieu eraill, hy
at y *Winwyn* a'r *garlleg*; a Duwies fawr a elwi
Twyll, yn cael addoliant cyffredinol; er hynn
gwelit beth ôl y Grefydd *Griſtianogol* ymyſc
rhann fwya o'r rhain. Oddi yno ni aethom
gynulleidfa o rai *Mudion*, lle nid oedd ond och
neidio, a chrynu, a churo'r ddwyfron. Dyma
ob er Angel, rith o edifeirwch a goſtyngeiddrw
ydd mawr, ond nid oes yma ond 'piniwn,
chyndynrhwydd, a balchder, a thywyllwch dud
ew; er maint y ſoniant am eu *goleuni oddimewn*
nid oes ganddynt gymaint a *Spectol* natur pe ſ
gan y digrêd y welaiſt gynneu. Oddiwrth
cwn mudion digwyddodd i ni droi i Eglwy
fawr benegored, a myrdd o eſcidieu yn y porth
wrth y rhain deellais mai teml y *Tyrciaid* ydoedd
ni

nid oedd gan y rhain ond *Spectol* dywyll a chymyſclyd iawn a elwid *Alcoran*; etto trwy hon'r oeddynt fyth yn ſpio 'mhen yr Eglwys am eu Prophwyd a addawſei ar ei air celwydd, ddychwel i ymweled â hwynt er's talm, ac etto heb gywiro. Oddiyno'r aethom i Eglwys yr *Iddewon*, 'r oedd y rhain hwythen methu cael y ffordd i ddianc o'r Ddinas ddihenydd, er bod Spectol lwydoleu ganddynt, am fôd rhyw huchen wrth ſpio'n dyfod tros eu llygaid eiſieu i hiro a'r gwerthfawr ennaint, *ffydd*. Yn neſa'r aethom at y *Papiſtiaid*; dyma, eb yr Angel, yr Eglwys ſy'n *twyllo'r Cenhedloedd!* Rhagrith a adeiladodd yr Eglwys yma ar ei chôſt ei hun. Canys mae'r Papiſtiaid yn cynnwſ, ie'n gorchymyn na chadwer llw â Heretic, er darfod ei gymmeryd ar y Cymmun: O'r Ganghell ni aethom trwy dylleu cloieu i ben rhyw gell neilltuol, llawn o ganhwylleu ganol dydd golcu, lle gwelem Offeiriad wedi eillio 'i goryn yn rhodio, ac megis yn diſgwil rhai atto; yn y man, dyma globen o Wraig a Llances lân o'i hôl, yn mynd ar ei glinieu o'i flaen ef, i gyfadde'i phechodeu: Fy nhad yſprydol ebr y Wreigdda, mae arna'i faich rhydrwm ei oddef, oni chaf eich trugaredd iw yſcafnhau; mi briodais on o Eglwys *Loegr*; ac, pa beth, ebr y Corynfoel, priodi Heretic! priodi Gelyn! nid oes fyth faddeuant iw gael; ar y gair hwnnw hi a leſmeiriodd, ac ynte'n bugunad melltithion arni, och a phe ſy waeth, ebr hi, pan ddadebrodd, mi a'i lleddais ef! O, ho! a leddaiſti ef, wel'dyma rywbeth at cael cymmod yr Eglwys, 'r wyſi'n dywedyd itti, oni bai ladd o honot ef, ni chawſit fyth ollyngdod, na phurdan, ond mynd yn union i Ddiawl wrth blwm. Ond p'le mae'ch Offrwn chwi'r Faeden, ebr ef, tan 'ſcyrnygu?

Dyma, ebr hi, ac eſtynnodd gryn-god o arian, Wel, ebr ynte, 'bellach mi wna 'ch cymmod, eich Penyd yw bod byth yn weddw, rhag i chwi wneud drwg-Fargen arall. Pen aeth hi ymaith, dyma'r Forwyn yn dyfod ymlaen i draethu ei chyffes hitheu: Eich pardwn y Nhad cyffeſwr ebr hi, mi a feichiogais, ac a laddais fy Mhlentyn. Têg iawn yn wîr, ebr y Cyffeſwr, a phwy oedd y Tad? Yn wir, un o'ch Monachod chwi, ebr hi, iſt, iſt ebr ef, dim anair i Wyr yr Eglwys: Ple mae'r iawn i'r Eglwys ſy gennych? Dyma, ebr hitheu, ac a eſtynnodd iddo euryn. Rhaid i chwi edifarhau, a'ch Penyd yw gwilied wrth fy ngwelu i heno, ebr ef, tan gilwenu arni hi. Yn hyn dyma bedwar o'rai moelion eraill yn lluſco dynan at y Cyffeſwr, ac ynte'n dyfod mor 'wllyſcar ac at grogpren. Dyma i chwi geneu, ebr, un o'r pedwar, i ddwyn ei benyd am ddadcuddio dirgelion yr Eglwys Garholic. Pa beth, ebr y Cyffeſwr, tan edrych ar ryw ſiêl ddu oedd yno gerllaw? Ond cyffeſa filcin beth a ddywedaſti? Yn wîr, eb y truan, cymydog a ofynnodd i mi, a welſwm i'r *Eneidieu* 'n griddfan tan yr Allor *Ddygwyl y Meirw*, minneu ddywedais, glywed y llais, ond na welſwm i ddim. Aiê, Syrs, dywedwch y cwbl, ebr, un o'r lleill. Ond mi atteb ais, ebr ef, glywed hono 'i mai gwneud caſtieu'r y chwi, a ni'r anllythrennog, nad oes yn lle Eneidieu ond Crancod y Môr yn 'ſcyrlwgach tan y carbed. O Fab y Fall, o Wyneb y Felltith! ebr y Cyſteſwr, ond ewch ymlaen Faſtiff; ac mai weir oedd yn troi delw St *Pe dr*, ac mai wrth weir yr oedd yr Yſpryd Glan, yn deſcyn o loſtt y grog ar yr Oſteiriad. O etifedd Uffern! eb y Cyffeſwr, hai, hai, cymrwch ef Boenwyr, a theflwch ef'r Simnei fyglyd yna, am ddywedyd chwedleu

chwedleu. Wel dyma i ti'r Eglwys a fyn *Rhagrith* ei galw'n Eglwys Gatholic, ac mai rhain yw'r unic rai cadwedig, eb yr Angel: Bu gan y rhain yr iawn *Spectol*, eithr torraſant hyd y gwydr fyrdd o lunieu; a bu ganddynt wir ffydd, ond hwy a gynnyſcaſant yr ennaint hwnnw a'u defnyddieu newyddion eu hunain, fel na welant mwy na'r anghred. Oddiyno ni aethom i *Scubor*, lle'r oedd un yn dyſnwared Pregethu ar ei dafod leferydd, weithieu 'r un peth deirgwaith olynol. Wel, 'eb yr Angel, mae gan y rhain yr iawn *Spectol* i weled y petheu a berthyn iw heddwch, ond bod yn fyrr yn eu hennaint un o'r defnyddieu anghenrheitia, a elwir cariad perffaith. Mae amryw achoſion yn gyrru rhai *yma*; rhai o ran parch iw hynaſaid, rhai o anwybodaeth, a llawer er manteiſieu bydol. Gwnaent iti dybio'u bod yn tagu ar wyneb, ond hwy a ſedrant lyncu Llyffaint rhag angen: Ac felly mae'r Dwyſoges *Rhagrith* yn dyſcu rhai mewn Scuboriau. Ertolwg, ebr ſi, p'le weithian y mae *Eglwys Loegr*? O, ebr ynteu, mae honno yn y Ddinas ucha 'fry yn rhann fawr o'r *Eglwys gatholic*, Ond, ebr, ef, mae 'n y Ddinas *yma* rai Eglwyſi *Prawf*, yn perthyn i *Eglwys Loegr*, lle mae'r *Cymru* a'r *Saeſon* tan brawf tros dro, iw cymmwyſo at gael eu henweu'n Llyfr yr *Eglwys gatholic*, a'r ſawl a'i caffo, *giwyn ei fyd fyth!* Eithr nid oes ſywaeth ond ychydig yn ymgymmwyſo ah gael braint yn honno. O blegid yn lle edrych tu ac yno, mae gormod yn ymddallu wrth y tair Twyſoges obry, ac mae *Rhagrith* yn cadw llawer, ac un llygad ar y Ddinas ucha, ar llall a'r yr iſa; iê, mae *Rhagrith* cyn lewed a thwylle llawer o'u ffordd, wedi iddynt orfod y tair Hudoles eraill. Tyrd i mewn yma, cei weled ychwaneg, ebr ef,

ac

ac a'm cipiodd i lofft y grog, un o Eglwyſi *Cymru*, a'r bobl ar ganol y Gwaſanaeth, yno gwelem rai'n ſiſial ſiarad, rhai'n chwerthin, rhai'n tremio ar Ferched glan, eraill yn darllen gwiſciad eu Cymydog o'r coryn i'r ſowdl, rhai'n ymwthio ac yn ymddanheddu am eu braint, rhai'n heppian, eraill yn ddyfal ar eu dyfoſiwn, a llawer o rheini hefyd yn rhagrithio. Ni welaiſti etto, eb yr Angel, na ddo'myſc yr ynghred, ddigywilydd-dra mor oleu-gyhoedd a hwn: ond felly mae ſywaeth *llygriad y peth gorau yw'r llygriad gwaetha' oll.* Yna hwy a aethant i'r Cymmun, a phoh un yn ymddangos yn ſyrn barchus i'r Allor. Er hynny (trwy ddrŷch fy nghyſeill) gwelwn ymbell un gyda'r bara yn derbyn iw fol megis llun *Maſtiff*, un arall *Dwrchdaiar*, un arall megis *Bryr*, un arall *Fochyn*, un arall megis *Sarph hedegog*; ac ychydig, o mor ychydig yn derbyn pelydryn o oleuni diſclair gyda'r bara a'r gwin. Dyna, eb ef, Rowndiad ſy'n mynd yn Siri ac o ran, bod y Gyſraith yn gofyn cymmuno'n yn Eglwys cyn cael ſwydd, ynte' ddaeth yma rhag ei cholli; ac er bod yma rai'n llawenu ei weled ef, ni bu etto yn ein plith ni ddim llawenydd o'i droedigaeth ef; wrth hynny ni throes ef ſywaeth ond tros y tro: ac felly ti weli fod *Rhagrith* yn dra hŷ ddyfod at yr Allor o flaen *IMMANUEL* ddiſiommedig. Ond er maint yw hi yn y Ddinas ddihenydd, ni all hithe ddim yn Ninas *IMMANUEL* tu ucha'r Gaer accw. Ar y gair ni a droſem ein hwynebeu oddiwrth y Ddinas fawr ddihenydd, ac aethom ar i fynu, tu a'r Ddinas fach arall; wrth fyned gwelem ymhell ucha'r Strydoedd lawer wedi lled troi oddiwrth hudoliaeth y *Pyrth dihenydd*, ac yn ymorol am *Borth y bywyd*, ond naill ai methent ei gael, a blinder

blinent ar y ffordd, nid oedd fawr iawn yn mynd trwodd, oddieithr un dyn wynebdrift oedd yn rhedeg oddifri a myrdd o'i ddeutu'n ei ftoli, rhai 'n ei watwar, rhain ei fygwth, a'i geraint yn ei ddal ac yn ei greu i beidio ai daflu ei hun i golli'r holl fyd ar unwaith. Nid wyfi, ebr ynte'n colli ond rhan fechan o hono, a phe collwn i'r cwbl; Ertolwg pa'r golled yw? O blegid be' fy yn y Byd mor ddymunol, oni ddymunei ddyn dwyll a thrais, a thrueni, a drygioni, a phendro, a gwallco? *Bodlonrhwydd* a *Llonyddwch*, ebr ef, yw happufrwydd dyn, ond nid oes yn eich Dinas chwi ddim o'r fath betheu iw cael. Oblegid pwy fy yma'n *foalon* iw ftât? *uwch*, *uwch* y caes pawb o Stryd *Balchder*; moes, moes ychwaneg, medd pawb yn Stryd yr *Elw*; molus, moes etto yw llais pawb yn Stryd *Pleſer*. Ac am *Lonyddwch*, p'le mae? a phwy fy'n ei gael? Os Gwr *mawr*, dyna weniaith a chynfigen ar ei ladd; os *tlawd*, hwdiwch bawb iw fathru a'i ddiyftyru. Os mynni godi, dyro dy fryd ar fynd yn Ddyfeifiwr; os mynni barch, bydd Ffroftiwr neu Rodrefwr; Os byddi Duwiol yn cyrchu i'r Eglwys a'r Allor, gelwir di'n Rhagrithiwr, os peidi, dyna di'n Anghrift ne' 'n Heretic: Os llawen fyddi, gelwir di'n wawdiwr; os diftaw, gelwir di'n gofton gwenwynllyd; os dilyni oneftrwydd, nid wyti ond ffŵl di-ddeunyd; os trwfiadus, balch; os nadê, mochyn; oe llyfn dyleferydd, dyna di'n ffals, neu ddihiryn anhawdd dyddirnad; os garw, cythrel trahaus anghydfod. Dyma'r B Y D yr ych i'n ei fawrhau, ebr ef, ac ertolwg cymrwch i chwi fy rhann i o hono, ac ar y gair fe a ymefcydwodd oddiwrthynt oll ac ymaith ag e'n ddihafarch at y Porth cyfyng, ac heb waetha i'r cwbl tan ymwthio f'aeth drwodd a ninne' a'i ledol;

ol; a llawer o Wyr duon ar y caereu o ddeutu'r Porth yn gwadd y Dyn ac yn ei ganmol. Pwy, ebr fi, yw'r duon fry? Gwiliwyr y brenin *IMMANUEL*, ebr ynte, ſy'n enw eu Meiſtr yn gwadd ac yn helpu rhai trwy'r Porth yma Erbyn hyn 'roeddym ni wrth y Porth; iſel a chyfyng iawn oedd hwn, a gwael wrth y Pyrth iſa; O ddeutu'r drws 'roedd y *Deg gorchymmyn*, y Llêch gynta o'r tu deheu; ac uwch ei phen, *Ceri DDUW aeth holl galon*, &c. ac uwch ben, yr ail Llêch; o'r tu arall, *Car dy gymydog fel ti dy hun*; ac uwch ben y cwbl *Na cherwch y Byd, na'r petheu ſy'n y byd*, &c. Ni edrychaſwn i fawr nad dyma'r Gwilwyr yn dechreu gwaeddi ar y Dynion dihenydd, ffoweh, ffowch am eich einioes! ondychydig adroe unwaith attynt, etto rhai a ofynnent, ffoi rhag pa beth? Rhag Twyſog y byd hwn, ſy'n llywodraethu ymhlant yr anufudd-dod meddei'r gwiliwr; rhag y llygredigaeth ſy 'n y byd trwy chwant y cnawd, chwant y llygad a balchder y bywyd; rhag y digoſaint ſy ar ddyfod arnoch. Beth, ebr gwiliwr arall yw'ch anwyl Ddinas chwi, ond Taflod fawr o boethfel uwch ben Uffern, a phettei chwi yma, caech weled y tan tu draw i'ch caereu ar ymgymeryd i'ch loſci hyd *Annwfn*: Rai a'u gwatwarei rhai a fygythiei oni thawent ai lol anfoeſol, etto ymhell un a ofynnei i ba le y flown? Yma, meddei'r Gwilwyr, ffowch yma at eich union Frenin ſy etto trwom ni'n cynnyg i chwi gymmod, os trowch i'ch ufudd-dod oddiwrth y Gwrthryfelwr *Belial* a'i hudol ferched. Er gwyched yr olwg arnynt nid yw ond ffûg, nid yw *Belial* ond Tywyſog tlawd iawn gartre, nid oes ganddo yno ond chwi'n gynnud ar y tan, a chwi'n rhoſt ac yn ferw i'ch cnoi, ac byth nid ewch i'n ddigon byth ni ddaw torr ar ei newyn ef na'ch poen chwitheu. A phwy a waſanaethei 'i fath Gigydd maleiſddrwg

mewn

mewn gwallco ennyd, ac mewn dirboeneu byth wedi, ac a allei gael byd da tan Frenin toſturio a charedig iw ddeiliaid, heb wneud iddynt erioed ond y Daioni bwygilydd, a'u cadw rhag *Belial* i roi teyrnas i bob un o'r diwedd yn ngwlad y Goleuni! Oh, ynfydion! a gymerwch i'r Gelyn echryſlawn yna ſy a'i geg yn lloſci o ſyched am eich gwaed, yn lle'r Twyſog trugarog a roes ei waed ei hun i'ch achub? Etto ni wyddit fod y rheſymmeu hyn a feddalhae graig yn lleiſio fawr iddynt hwy, a'r achos fwya oedd, nad oedd fawr yn cael hamdden iw *gwrando*, gan edrych ary Pyrth, ac o'r gwrandawyr nid oedd fawr yn *yſtyried*, ac o'r rheini nid oedd fawr yn eu *cofio* chwaith hir, rhai ni choelient mai *Belial* yr oeddynt yn ei waſanaethu, eraill ſynnent mai'r twll bach diſathr hwnnw oedd Borth y Bywyd, ac ni choelient mai hudoliaeth oedd y Pyrth diſclair eraill a'r Caſtell i rwyſtro iddynt weled eu Deſtryw nes mynd iddo. Yn hyn dyma drwp, o bobl o Stryd *Balchder* yn ddigon hy'n curo wrth y Porth, ond yr oeddynt oll mor warſyth nad aent byth i le mor iſel heb ddiwyno'u perwigeu a'u cyrn, felly hwy a rodiaſant yn eu hol yn o furllyd. Ynghynſſon y rhai'n daeth attom ni fagad o Stryd *Elw*; ac, ebr un, ai dyma Borth y bywyd? ie, ebr y Gwiliwr oedd uwch ben. Be' ſy iw wneud, ebr ef, ar ddyfod trwodd? darllenwch o ddeutu'r drws, cewch wybod; darllennodd y Cybydd y Deg, Gorchymmyn i gyd troſtynt; pwy, ebr ef, a ddyweid dorri o honoſi un o'r rhain? ond pan edrychodd e'n uwch a gweled, *Na cherwch y Byd, na'r pethau ſy'n y Byd*, fe ſynnodd, ac ni fedrei lyncu mor Gair caled hwnnw: 'r oedd yno un piglas cenſigennus a droes yn ol wrth ddarllen, *Câr dy Gymydog fel ti dy hun*, yr oedd yno Gweſtiwr ac Athrodwr a chwidr-droiſant wrth

wrth ddarllen, *Na ddwg gam Dyſtiolaeth*; pan ddarllenwyd, *Na Lâdd* nid yma i ni, eb y Phyſygwyr. I fod yn fyrr, gwel ei bawb rywbeth yn ei flino, ac felly cyd ddychwelaſant oll i 'ſtudio'r pwynt, ni welais i'r un etto yn dyfod wedi dyſcu ei wers, ond yr oedd ganddynt gymaint o Godeu a Scrif'nadeu'n dynn o'u cwmpas nad aethent fyth trwy grau mor gyfyng pe ceiſiaſent. Yn y fan, dyma yrr o Stryd *Pleſer* yn rhodio tu a'r Porth. Yn rhodd, ebr un wrth y gwilwyr, i ba le mae'r ffordd yma'n mynd? Dyma, ebr gwiliwr, y ffordd ſy'n arwain i lawenydd a hyfrydwch tragywyddol, ar hyn ymegniodd pawb i ddyfod trwodd, ond methaſant; canys yr oedd rhai'n rhy foliog i le mor gyfyng, eraill yn rhy egwan i ymwthio wedi i Ferched ei dihoeni, a rheini'n eu hattal gerfydd eu gwendid afiach. O, ebr gwiliwr oedd yn edrych arnynt, ni wiw i chwi gynnyg mynd trwodd a'ch teganeu gyda chwi, rhaid i chwi adel eich Pottieu, a'ch Dyſcleu, a'ch Putteinied, a'ch holl Gêr eraill o'ch ol, ac yna bryſſiwch. Ebr Ffidler, a faſei trwodd o'rs ennyd, oni bai rhag ofn torri'r Ffidil, pa fodd y byddwn ni byw? O, ebr y gwiliwr, rhaid i chwi cymmeryd gair y Brenin am yrru ar eich ol gynnifer o'r petheu yna a'r a fo da er eich lles. Rhoes hynny'r cwbl i ymwrando, *Hai, hai* ebr un *gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn*, ac ar hynny troeſant oll yn unfryd yn eu hol. Tyrd trwodd weithian, eb yr Angel, ac a'm tynnodd i mewn lle gwelwn yn y Porth yn gynta *Fedyddfaen* mawr, ac yn ei ymyl, *Fynnon* o ddw'r hallt; beth a wnâ hon ar lygad y ffordd, ebr fi? Am fod yn rhaid i bawb ymolchi ynddi cyn cael braint yn Llys *IMMANUEL*, hi a elwir *Ffynnon Edifeirwch*; uwch ben, gwelwn yn ſcrifennedig, *Dyma*

Barth

Borth yr Arglwydd, &c. Yr oedd y Porth a'r Stryd hefyd yn lledu ac yn yſcafnhau fel yr elid ymlaen; pan aethom ronyn uwch i'r Stryd, clywn lais ara'n dywedyd om hol, *Dyma'r Ffordd, rhodia ynddi.* Yr oedd y Stryd ar orufynu etto'n bur lân ac union, ac er nad oedd y tai ond îs yma nac yn y Ddinas *ddihenydd*; etto'r oeddynt yn dirionach, os oes yma lai o feddianneu mae 'ma hefyd lai o ymryſon a gofalon; os oes llai o feigieu, mae llai a ddolurieu; os oes llai o drwſt, mae hefyd lai o driſtwch, a mwy'n ſicrr a wir lawenydd. Bu ryfedd genni'r Diſtawrwydd a'r *Tawelwch* hawddgar oedd yma wrth i wared. Yn lle'r tyngu a'r rhegu, a'r gwawdio, a phutteinio, a meddwi; yn lle balchder ac oferedd, y ſyrthni'n y naill cwrr, a thrawſni'n y cwrr arall; ie, 'n lle'r holl ffrio ffair, a'r ſtrôſt, a'r ffrwſt a'r ffrwgwd oedd yno'n pendifadu dynion yn ddibaid, ac yn lle'r anirif ddrygeu gwaſtadol oedd iſod; Ni weliti yma ond ſobrwydd mwynder a ſirioldeb, heddwch a diolchgarwch; Toſturi, ddiniweidrwydd a boddonrhwydd yn eglur yn wyneb pob Dyn; oddiithr ymbell un a wylei'n ddiſtaw o frynti fod cyd yn Ninas y Gelyn. Nid oedd yma na châs, na lid, ond i *bechod*, ac yn ſicrr o orchfygu hwnnw, dim ofn ond rhag digio'u Brenin, a hwnnw'n barottach i gymmodi nac i ddigio wrth ei ddeiliaid, a dim ſwn ond Pſalmau mawl iw ceidwad. Eryn hyn ni aethem i olwg Adeilad deg tros ben, o nor ogoneddus ydoedd! ni fedd neb yn y Ddinas dihenydd na'r *Twrc*, na'r *Mogul*, na'r un o'r lleill dim elfydd i *hon*. Wel' dyma'r *Eglwys gatholic*, o yr Angel. Ai yma mae *IMMANUEL* yn adw'i Lys, ebr fi? Ie, ebr ef, dyma'i unig Freinllys daiarol ef. Oes yma nemor tano ef o ennau coronog, ebr fi? ychydig, ebr ynte; mae

dy

dy Frenhines di a rhai Twyſogion *Llychlyn* a'r *Ellmyn*, ac ychydig o fan Dwyſogion eraill. Beth yw hynny, ebr finneu, wrth ſy dan *Beliel* fawr, wele Ymerodron a Brenhinoedd heb rifedi? Er hynny i gyd, eb yr Angel, ni all un o honynt oll ſymmud bys llaw heb gynhwyſiad *IMMANUEL*; na *Belial* ei hunan chwaith. Oblegid *IMMANUEL* yw ei union Frenin ynte, ond darfod iddo wrthryfela, a chael ei gadwyno am hynny'n Garcharor tragwyddoi; eith mae e'n cael cennad etto tros ennyd fach i ymweled a'r Ddinas ddihenyd, ac yn tynnu pawb a'r allo i'r un Gwrthryfel ac i gael rhan o'r goſp; er ygwyr ef na wna hynny ond chwanegu ei goſp ei hun. etto ni âd malis a chynfigen iddo beidio pan gaffo yſtlys cennad: Achan ddaed ganddo ddrygioni ſe gais ddifar ddinas a'r Adeilad hon, er y gwyr e'n hen iawn fod ei Cheidwad hi'n anorchfygol. Ertolwg, ebr fi, f Arglwydd a gawn i neſau i gael manylach golwg ar y Brenhinlle godidog hwn? canys cynnefaſe nghalon i wrth y lle (er y golwg cynta,) Ceu'r hawdd, eb yr Angel, oblegid yna mae ſy lle a'm ſiars a'm gorchwyl inneu. Pa neſa yr awn att mwyfwy y rhyfeddwu uchod, gryfed a hardded laned a hawddgared oedd pob rhan o honi, gyw reinied y gwaith a chariaduſed y defnyddieu, *Crai* ddirfawr, o waith a chadernid anrhaethawl oed y Sylfaen, a Meini bywiol ar hynny wedi eu goſ od a'u cyſtylltu mewn treſn mor odidog nad oed boſſibl i un mae'n fod cyn hardded mewn unll arall ac ydoedd e'n ie le ei hun. Gwelwn u rhan o'r *Eglwys* yn taſlu allan yn *groes* glandeg hynod iawn, a chanſu'r Angel fi'n ſpio arno, adwaenoſti y Rhan yna, ebe ef? ni wyddwn i be i atteb. Dyna *Eglwys Loegr*, ebr ef, mi gyffro beth, ac wedi edrych i ſynu, mi welwn y Fren hine

nes *Ann* ar ben yr Eglwys, a Chleddy 'mhôb
aw, un yn yr aſſwy' a elwid *Cyfiawnder* i gadw
deiliaid rhag *Dynion* y *Ddinas ddibenydd*, a'r llall
n ei llaw ddeheu iw cadw rhag *Belial* a'i Ddry-
au *Yſprydol*, hwn a elwid *Cleddy'r Yſpryd*, neu
ir Duw, o tan y Cleddyf *aſſwy*'r oedd Llyfr
tatut Loeger, tan y llall'r oedd *Beibl* mawr. Cle-
ſy'r Yſpryd oedd danllyd ac anferthol o hyd, fe
ddei 'mhellach nac y cyffyrddei' llall. Gwe-
yn y Twyſogion eraill, a'r unrhyw arfeu'n am-
leffyn ei rhan hwytheu o'r Eglwys: Eithr tecca
welwn i Rhann ſy Mrenhines ſy hun a gloewa
harfeu. Wrth ei deheulaw hi, gwelwn ſyrdd
rai duon, Archeſcobion, Eſcobion a Dyſcawd-
yr yn cynnal gyda hi yn *Nghleddy'r Yſpryd*: A
nai Sawdwyr, a Swyddogion ond ychydig o'r
yfreithwyr oedd yn cyd-gynnal yn y Cleddyf
all. Cês gennad i orphwyſo peth wrth un o'r
yſeu gogoneddus. lle'r oedd rhai'n dyfod i gael
raint yn yr *Eglwys Gyffredin*, ac Angel tâl yn
adw'r drws a'r Eglwys oddi mewn mor oleu
ambaid, nad oedd wiw i Rhagrith ddangos yno
no'i hwyneb; etto hi ymddangoſei weithiau wrth
drws er nad aeth hi 'rioed i mewn. Fel y gwe-
is i o fewn chwarter awr, dyma *Bapiſt* oedd
n tybio mai'r Pap a pioedd yr *Eglwys Gatholic*,
n cleimio fod iddo ynte fraint. Be ſy gennych
brofi'ch braint, ebr y Porthor? Mae genni,
digon, ebr hwnnw o *Draddodiadeu'r Tadau* ac
Eiſteddfodau'r Eglwys, ond pam y rhaid i mi
wy o ſiccrwydd, ebr ef, na *gair y Pap* ſy 'n
iſte'n y Gadair ddiſiomedig? Yna'r egorodd y
Portholwyth o feibl dirfawr o faint; Dyma, ebr
f, ein hunic Lyfr *Statut* ni yma, profweh eich
awl o hwn neu ymadewch; ar hyn fe'mada-
wodd. Yn hyn, dyma yrr o *Gwaceridiad* a ſynei

fynd i mewn a'u hettieu am eu penneu, eith
trowyd hwy ymaith am fod cynddrwg eu moe
Wedi hynny, dechreuodd rhai o dylwyth y 'Scu
bor a fafafei yno er's ennyd, lefaru. Nid oe
gennym ni, meddent, ond yr un Statut a chwi
theu, am hynny dangofwch i ni'n braint Arho
wch, ebr y Porthor diſcleirwyn gân graffu ar e
talcennau hwy, mi a ddangofa i chwi rywbeth
D'accw, ebr ef, a welwch i ôl yr rhwyg a wnae
thech i'n yr Eglwys i fynd allan o hon i heb na
achos nac yſtyr? ac y rwan a fynnech chwi
yma? Ewch yn ol i'r Porth cyfyng ac ymolch
wch yno 'n ddwys yn Ffynnon *Edifeirwch* i ed
rych a gyfogoch i beth gwaed Brenhinol a lyn
cafoch gynt, a dygwch beth o'r dwfr hwnnw
dymmeru 'r clai at ail uno y rhwyg accw, ac yn
crocfo wrthych. Ond cyn i ni fynd rwyd ym
Iaen tu a'r Gorllewin, mi glywn fi oddi fyn
ymyſc y Pennaethiaid, a phawb o fawr i fac
yn hêl ei arfeu, ac yn ym harneiſio, megis a
Ryfel: a chyn i mi gael ennyd i fpio am le
ffoi, dyma'r Awyr oll wedi duo, a'r Ddinas wed
tywyllu'n waeth nac ar *Eclips*, a Taraneu '
thuo a'r Mêllt yn gwau'n dryfrith, a Chafodyd
di dorri o faetheu marwol yn cyfeirio o'r Pyrth i
at yr Eglwys Gatholic; ac oni bai fod yn llaw
pawb darian i ddiarbyn y piccellau tanllyd, a bo
y Graig fylfaen yn rhygadarn i ddim fannu arn
gwneſtid ni oll yn un goelceth. Ond och! ni
oedd hyn ond *Prolog* neu dammeid prawf writ
oedd i galyn: Oblegid ar fyrr, dyma'r tywyll
wch yn mynd yn fath ddwach a *Belial* ei hun y
y cwmmwl tewa, a'i benmilwyr daiarol ac uffer
nol o'i ddeutu, i ddiarbyn ac i wneud ei wlly
ef, bawb o'r neilltu Fe roefei ar y *Pâb* a'i Fa
arall o *Frainc* ddiniſtrio Eglwys *Loegr* a'i Brenhi

nes

s, ar y *Twrc* a'r *Moſcoviaid* daro y rhanneu
ill o'r Eglwys a lladd y bobl, yn enwedig y
enhines a'r Twyſogion eraill, a lloſci'r *Bibl*
anad dim. Cynta gwaith a wnaeth y Fren-
es a'r Seinctieu eraill oedd droi ar eu glinieu,
achwyn eu cam wrth Frenin y Brenhinoedd
y geirieu yma, *Mae eſtyniad ei adenydd ef yn*
eid lled dy dir di ob IMMANUEL! *Iſ.*
8. yn ebrwydd dyma lais yn atteb, *Gwrth' neb-*
h Ddiawl ac ſe ffy oddi wrthych; ac yna de-
euodd y maes galluocca a chynddeiriocca' fu'
ed ar y ddaiar, pan ddechreuwyd gwyntio *Cleddy*
Yſpryd, dechreuodd *Belial* a'i luoedd uffernol
thgilio, yn y man dechreuodd y *Pâb* lwfrhau,
Brenin Ffraine yn dal allan, ond yr oedd ynte
ron digalonni wrth weled y Frenhines a'i
liaid mor gyttunol, ac wedi colli ei Longeu
Wyr o'r hailltu, a llawer oi ddeiliaid yn gwr-
yteia o'r tu arall: a'r *Twrc* ynte 'n dechreu
eiddio: yn hyn, och! mi welwn ſ' anwyl
dymaith yn ſaethu oddiwrthiſi i'r entrych, at
ld o Dwyſogion gwynion eraill, a dyna'r pryd
echreuodd y *Pâb* a'r Swyddogion daiarol eraill
hu a llewygu, a'r Penaethiaid uffernol ſyrthio o
ur y myrddiwn, a phob un cymaint ei ſwn yn
ympo (i'm tyb i) a phe ſyrthiaſei fynydd an-
h i eigion y môr, A rhwng y ſwn hwnnw a
ffro goll fy nghyfeill mineu a ddeffrois om
ſc; a dychwelais o'm llwyr anfodd i'm tywar-
n drymluog, a gwyched hyfryded oedd gael
yn Yſpryd *rhydd*, ac yn ſicr yn y fath
nnhi er maint y perygl. Ond erbyn hyn, nid
d genni nêb i'm cyſſuro ond yr *Arwen*, a hon-
lled-ffrom, prin y ces ganddi fi elu i mi y hyn
igymmeu ſy'n canlyn.

Ar feſur *Gwel yr Adeilad*,

I.

GWEL ddyn, Adeilad hyfryd
O'r Llawr i'r Nenn yn unud,
Daiarſyd dirfawr,
Ei Phenſaer a'r Pherchennog
Yw'r Brenin hollalluog
A'i Llywydd tramawr
Y Byd
Ei Gaer a'i gyrreu i gyd;
O Dô'r Sêr cannaid
Hyd Farth, y 'Scrubliaid,
Pyſc ac ymluſciaid,
A'r hediaid fwy na rhi,
A roed, ô Ddyn! yn Ddeiliaid,
Er teyrnged fach, i ti:
I Ddyn
Ac ynte' iddo 'i hun,
Y gwnaeth *Jehofa*,
Yr Adail yma,
Fel *oil-Nef* llia
Tan lawen Heulwen hâ,
A'r cwbl, eitha terfyn
A wyddei Ddyn oedd *dda*.

II.

Ond cynta blyſſiodd wybod
Y *drwg*, a chael o Bechod
Gynn wyſiad bychan,
Hi : eth yn anferth Gawres,
Gwae ddynion ſaint Gwyddanes
I ddiw'no'r cyfan:
Pob rhann
O'r Adail aeth yn wann,

Mae'r *ail* a'r *Seler*,
Trwy ſrâd y Dyſnder,
Yn crynu'n ſceler
wen llawer lleſmer llêſc;
r *Barth* perllannog llownwyd
ebddwyn ond chwyn a hêſc.
Mae'r *Gaer*
r *Murieu* Cleimieu claer.
A'r *To*, ar ddadmer,
Er maint eu cryſder,
Anfeidrol µchder,
u gwychder frithder fry;
ae'r *Dreigieu* yn darogan
od peryg' tân yn Ty,

III.

wel ddyn, Adeilad fawrwych,
'r Eigion mawr i'r Entrych
Ar untroed embyd,
Mae'r Llawr i gyd ar d' ollwng
aluriwyn hwn hyd Annw
Yn donnen ddybryd;
O ddyn,

y Bechod ti dy hun,
A boerodd Ddiluw,
Chwyth etto Ddeſtryw
O wreichion hyllfyw
'r Hollfyd eiff yn fanc,
i dithe'n waeth, *Fyd bychan*
yth, byth ar druan dranc.
Ond mae
n lle i ochel gwae,
Un Llys trugaredd,
Ac yn dy gyrredd,
Cais yno annedd,
hag mynd i'r Sugnedd ſyth,
c onid ei di yno

Gwae di deni fyth.

IV.

Gwêl di'r Adeilad honno,
Gadarnach nac y gallo
Fyth golli'r diwrnod;
Un well na'r *Hellfyd* cyfrdo,
Ddiogel i ddiwygio
A ddygodd Pechod,
Caer gronn
Ar waſcar Daiar donn,
Yn Noddfa neſol.
Craig anorchfygol,
A meini bywiol,
Gor breiniol ger ein bron;
Yr *Eglwys* lân *Gatholic*
A'i Thylwyth ydyw hon:
Er maint
Ein pechod hynod haint,
Cawn yno bardwn,
Os *uſudd gredwn*,
Yn *hon* ymdynnwn
A bryſſiwn i gael *braint*
A hyn a'n gwna'n *ddaiarol*
A *neſol* ſiriol *Saint*.

Amen.

II.

Gweledigaeth Angeu *yn ei Frenhinllys iſa.*

PAN oedd *Phœbus* ûn-llygeidiog ar gyrraedd ei eithaf bennod yn y deheu, ac yn dd gwg o hirbell ar *Brydain* fawr a'r holl Ogledd dir; ryw hirnos Gaia dduoer, pan oedd hi llawer twymnach yn nghegin *Glynn-cywarch* na

ar ben *cadair Idris*, ac yn well mewn ſtafell glŷd gyda chywely cymmes, nac mewn amdo ymhorth y fonwent; myfyrio'r oeddwn i ar ryw ymddiddanion a faſei wrth y tân rhyngo'i a Chymyrog, am *fyrdra hoedel Dyn*, a ſiccred yw i bawb farw, ac anſiccred yr amſer; a hyn newydd roi 'mhen i lawr ac yn llêd-eſtro, mi glywn bwyſ mawr yn dyfod arnai'n lledradaidd o'm coryn i'm ſowdl fel na allwn ſymmud bys llaw, ond y tafod yn unic. a gwelwn megis Mâb ar fy nwyfron, a Merch ar gefn hynny. Erbyn craffu, mi adwaenwn y Mâb wrth ei arogleu trwm a'i gudynneu gwlithog a'i lygaid môl-glafaidd mai fy Meiſtr *cwſc* ydoedd. Ertolwg, Syr, ebr fi, tan wiçhian, beth a wneuthum i'ch erbyn pan ddygech y wyddan yma i'm nychu? Iſt, ebr ynte, nid oes yma ond fy chwaer *Hunlle*, mynd yr ym ni'n dau i 'mweled a'n brawd *Angeu*: eiſieu trydydd ſy arnom, a rhag i ti wyrth'nebu daethom arnat, (fel y bydd ynte') 'n ddirybudd. Am hynny dyfod ſy raid i ti, un ai oth fodd ai oth anfodd. Och, ebr finneu, ai rhaid i mi farw? Na raid, eb yr *Hunlle*, ni a'ch arbedwn hyn o dro. Ond trwy'ch cennad, ebr fi, nid arbedodd eich'b awd Angeu nêb erioed etto, a ddygid iw ergyd ef, y gwr aeth i ymaflyd cwymp âg Arglwydd y Bywyd ei hun, ond ychydig a 'nillodd ynte' ar yr orcheſt honno. Cododd *Hunlle* ar y gair yma'n ddigllon ac a 'madawodd. Hai, ebr *cwſc*, tyrd ymaith, ni bydd i ti ddim ediſeirwch o'th ſwrnai. Wel', ebr fi, na ddêl byth nos i *Langwſc*, ac na chaffo'r *Hunlle* byth orphwys ond ar flaen mynawyd oni ddygwch fi'n ôl lle i'm cawſoch. Yna i ffordd yr aeth â mi troes elltydd a thrwy goedydd, tros foroedd, a dyffrynoedd tros Geſtyll a Thyrau, a Fonydd a Chreigiau, a ph'le

y deſcynnem ond wrth un o Byrth Merched *Belial*, o'r tu cefn i'r *Ddinas ddihenydd*, lle gwelwn ſod y tri Phorth dihenydd yn cyfyngu'n un o'r tu cefn, ac yn agor i'r un lle: lle mwrllwch oerddu gwenwynig, llawn niwl afiach a chwmylau cuwchdrwm ofnadwy. Attolwg, Syr, ebr fi, p'le yw'r fangre hon? *Stafelloedd Angeu*, ebr *Cwſc*. Ni chês i ond gofyn- na chlywn i rai'n crio, rhai'n griddfan, rhai'n ochain, rhai'n ymleferydd, rhai'n dâl i duchan yn llêſc, eraill mewn llafur mawr, a phôb arwyddion ymadawiad dyn, ac ymbell un ar eu ebwch mawr yn tewi, a chwapp ar hynny, clywn droi agoriad mewn clo, minneu a drois wrth y ſwn i ſpio am y drws, ac o hir graffu, gwelwn fyrddiwn o ddryſau 'n edrych ymhell, ac er hynny yn f'ymyl. Yn rhodd, Meiſtr *Cwſc*, ebr fi, i ba le mae'r dryſau yna'n egor? Maent yn agor ebr ynte, i *Dir Ango*, Gwlâd fawr tan lywodraeth ſy mrawd yr *Angeu*, a'r *Gaer* fawr yma, yw Terfyn yr anferth *Dragwyddoldeb*. Erbyn hyn gwelwn *Angeu bâch* wrth bôb drws, heb un'n un 'arfeu, na'r un henw a'i gilydd, etto, gwyddis arnynt mai Swyddogion yr un Brenin oeddynt oll: Er y byddei aml ymryſon rhyngddynt am y cleifion; mynnei'r naill gipio'r cla'n anrheg trwy ei ddrws ei hun, a'r llall a'i mynnei trwy ei ddrws ynte. Wrth neſau canſûm yn ſcrifen nedig uwchben pôb drws henw'r *Angeu* oedd yn ei gadw, ac heſyd wrth bôb drws ryw gant o amryw betheu wedi eu gadel yn llanaſtr, arwydd fod brys ar y rhai a aetheint trwodd. Uwchben undrws gwelwn *Newyn*, ac etto ar lawr yn ymyl byrſeu a chodeu llownion, a thryncieu wedi eu hoelio. Dyma, ebr ef, borth y *Cybydd*[illegible] Pwy, ebr fi pioedd y carpieu yna? Cybyddion, ebr

ef, gan mwyaf: Ond mae yna rai'n perthyn i *Segurwyr* a *Hwſmyntafod*, ac i eraill tlawd ymhob peth ond yr Yſpryd, oedd well ganddynt newynu na gofyn. Yn y drws neſa'r oedd Angeu *anwyd*, gyfeiryd a hwn clywn lawer *hydyd-ydyd-eian*; wrth y drws yma'r oedd llawer o lyfreu, rhai pottieu a fflagenni, ymbell ffon a phaſtwn, rhai cwmpaſeu, a chyrt, a chêr Llongeu. F'aeth ffordd yma 'Scolheigion, ebr fi, do, ebr ynte, rai unic a dihelp a phell oddiwrth ymgeledd a'u carei; wedi dwyn hyd yn oed y dillad oddiarnynt. Dyna, ebr ef, (am y pottieu) weddillion y cymdeithion da, a ſydd a'u traed yn fferri tan feincieu, tra bo eu penne 'n berwi gan ddiod a dwndwr: a'r petheu draw ſy'n perthyn i drafaelwyr mynyddoedd eiriog, ac i Farſiandwyr y Gogleddfor. Y neſa oedd ſcerbwd teneu a elwid Angeu *Ofn*, gellid gweled trwy hwn nas medde'r un *Galon*; ac wrth ddrws hwn hefyd godeu a chiſtieu, a chloieu, a cheſtyll. I hwn yr ai'r Llogwyr, a Drwgwladwyr, a Gorthrymwyr, a rhai o'r Mwrdrwyr, ond'r oedd llawer o'r rheini yn galw heibio i'r drws neſa lle'r oedd Angeu a elwid *Crôg*, a'i gortyn parod am ei wddf. Neſa i hynny oedd Angeu *Cariad*, ac wrth ei draed rwdd o bob offer a llyfreu muwſic, a cherdd, a llythyreu mwynion ac yſmottieu a lliwieu i harddu'r wyneb, a mîl lo ryw ſciabas deganeu ir pwrpas hwnnw, a rhai cleddyfeu; a rhain, ebr ef, y bu'r herwyr yn ymladd am y feinwen, a rhai'n eu lladd eu hunain: mi a welwn nad oedd yr Angeu yma ond cibddall. Y drws neſa'r oedd yr Angeu gwaetha 'i liw o'r cwbl a'i a fu wedi diflannu, fo'i gelwid Angeu *Cynſigen*; hwn, ebr *Cwſc*, a fydd yn cyrchu colledwyr, athrodwyr, ac ymbell farchoges a fydd yn ymwenwyno

wenwyno wrth y Gyfraith a barodd i Wraig ymddaroſtwng iw Gwr. Attolwg Syr, ebr fi, beth yw marchoges? Marchoges, ebr ef, y gelwir yma, y Ferch a fynn ſarchogaeth ei gwr, a'i chymdogaeth, a'i gwlad os geill, ac o hir ſarchogaeth, hi a ferchyg ddiawl o'r diwedd o'r drws yna hyd yn Annw'n. Yn meſa'r oedd drws Angeu *Uchel gais*, i'r ſawl ſy'n ffroenio'n uchel, ac yn torri eu gyddfau eiſieu edrych tan eu traed, wrth hwn 'r oedd coronau, teyrnwiail, banerau a phob papureu am ſwyddeu, pob arfeu bonedd a rhyfel. Ond cyn i mi edrych ychwaneg o'r aneirif ddryſeu hynny, clywn lais yn peri i minneu wrth fy henw *ymddattod*, ar y gair mi'm clywn yn dechreu toddi fel caſeg eira yn gwres yr Haul, yna rhoes fy Meiſtr, i mi ryw ddiod gwſc fel yr hunais, ond erbyn i mi ddeffro ſ' am dygaſei i ryw ffor'd allan o bellder y tu arall i'r *Gaer*; mi'm gwelwn mewn Dyffryn pygddu anfeidrol o gwmpas ac i'm tyb i nid oedd diben arno: ac ymhen ennyd wrth ymbell oleuni glas fel canwyll ar ddiffodd, mi welwn aneirif oh ! aneirif o gyſcodion Dynion, rhai ar draed, a rhai ar feirch yn gwau trwy eu gilydd fel y gwynt, yn ddiſtaw ac yn ddifrifol aruthr. A gwlad ddiffrwyth lom adwyn heb na gwellt na gwair, na choed nac anifail, oddieithr gwylltfilod marwol a phryfed gwenwynig o bob math; ſeirph, nadroedd, llau, llyffaint, llyngyr, locuſtiaid, pry'r bendro, a'r cyffelyb oll ſy'n byw ar lygredigaeth Dyn. Trwy fyrddiwn o gyſcodion ac ymluſciaid, a beddi, a Monwentau, a Beddrodau, ni aethom ymlaen i weled y Wlad yn ddirwyſtr; tan na welwn i rai 'n troi ac yn edrych arnai; a chwippyn er maint oedd y diſtawrwydd o'r blaen, dyma fi o'r naill i'r llall fod

yno

yno *Ddyn bydol*; Dyn bydol, ebr un, Dyn bydol, eb y llall tan ymdyrru attai fel y lindys o bob cwrr. Pa ſodd y daethoch, Syre, eb rhyw ſurgyn o Angeu bach oedd yno? Yn wîr Syr, ebr fi, nis gwn i mwy na chwitheu. Beth y gelwir chwi, ebr ynte? Gelwch fi yma fel y fynnoch yn eich gwlad eich hun, ond fe'm gelwid i gartre, *Bardd Cwſc*. Ar y gair, gwelwn gnap o henddyn gwargam a'i ddeupen fel mîaren gen lawr, yn ymſytho ac yn edrych arnai'n waeth na'r Dreflyn coch, a chyn dywedyd gair, dyma fe'n taflu penglog fawr heibio i'm pen i diolch i'r Garreg fedd a'm cyſcododd, Syr, ertolwg, ebr fi, i Ddyn dieithr na ſu yma 'rioed o'r blaen, ac ni ddaw byth pe cawn unwaith ben y ffordd adre. Mi wna'i chwi gofio'ch bod yma, eb ef, ac eilwaith ag aſcwrn morddwyd goſododd arna 'i 'n gythreulig, a mineu'n oſcoi 'ngoreu. Beth, ebr fi, dyma wlad anfoeſol iawn i ddieithriaid, Oes yma un Uſtus o heddwch? Heddwch! ebr ynte pa heddwch a haeddîti na adewit lonydd i rai yn eu beddi? Attolwg, Syr, ebr fi, a gawn i wybod eich henw chwi, oblegid nis gwn i ſlino a neb o'r Wlad yma 'rioed. Syre, ebr ynte, gwybyddwch mai Fi, ac nid chwi, yw'r *Bardd Cwſc*, ac a gêd lonydd yma er's naw cant o flynyddoed, gan bawb ond chychwi, ac a aeth i'm cynnyg i drachefn. Peidiwch ymrawd, ebr *Merddyn*, oedd yn agos, na fyddwch ryboeth; diolchwch iddo'n hytrach am gadw coffadwriaeth parchus o'ch henw ar y Ddaiar. Yn wir, parch mawr, eb ynte, oddiwrth y fath bembwl a hwn; A fedrwch wi, Syre, ganu ar y pedwar meſur ar hugain, a fedrwch wi ddwyn acheu *Gog* a *Magog*, ac achau *Brutus ap Silvius* hyd ganmlwydd cyn diſa *Caer-Troia*; A fedrwch wi *frutia* pa bryd, a pheth

ſyd

fydd diwedd y rhyfeloedd rhwng y Llew a'r Eryr, ac rhwng y Ddraig a'r Carw coch? ha! Hai, gadewch i minneu ofyn liddo gweſtiwn, ebr un arall, oedd wrth fyddan ſawr yn berwi, ſoc, ſoc, dy-gloc, dy-gloc. Tyrd yn nês, ebr ef, beth yw meddwl hyn?

Mi fyddaf hyd Ddyddbrawd,
Ar wyneb daiarbrawd,
Ac ni wyddis beth yw nghnawd,
Ai Cîg a'i Pyſcawd.

Dymunaf eich henw, Syr, ebr fi, fel i'ch attebwy'n gymwyſach. Myfi, ebr ef, yw *Talieſſin* ben-beirdd y gorllewin, a dyna beth a'm difregwawd i. Nis gwn i, ebr finneu, beth a allei'ch meddwl fod, o nid allei'r *Fâd-felen* a ddifethodd *Faelgwn* Gwynedd, eich lladd chwitheu ar y feiſdon a'ch rhannu rhwng y Brain a'r Pyſcod. Taw ſtwl, ebr ef, brutio'r oeddwn i am fy nwy *elwedigaeth*, Gwr o Gyfraith a Phrydydd: A ph'run meddi di rwan debycca ai *Cyfreithiwr* i Gigſran reibus, ai *Prydydd* i Forfil! Pa ſawl un a ddi-giga un *Cyfreithiwr* i godi ei grombil ei hun, ac oh! mor ddifatter y gollwng e'r gwaed, a ga'el Dyn yn lledfarw! A'r *Prydydd*, ynte, p'le mae'r Phyſcodyn ſy'r un lwnc ag ef, ac mae hi'n fôr arno bob amſer, etto ni thyrr y Mor-heli moi ſyched ef. Ac erbyn y bai Ddyn yn *Brydydd* ac yn *Gyfreithiwr*, pwy a wyr p'run ai Cîg ai Pyſcod fyddei: ac yn ſiccr, os byddei'n un o Wyr Llys fel y bum i, ac yn gorfod iddo newid ei flas at bob geneu. Ond dywed i mi, ebr ef, a oes y rwan nemor o'r rheiny ar y Ddaiar? Oes, ebr finneu, ddigon, os medr un glyttio rhyw fath ar ddyri, dyna fe'n Gadeir-fardd. Ond o'r lleill, ebr fi, mae'r fath bla yn gyfarthwyr, yn fan-Dwrneiod

eiod a Chlarcod nad oedd locuſtaid yr Aipht ddim pwys ar y Wlad wrth y rhain. Nid oedd yn eich amſer chwi, Syr, ond bargeinion bol clawdd, a lled llaw o ſcrifen am dyddyn canpunt, a chodi carnedd neu goeten *Arthur* yn goffadwriaeth o'r pryniant a'r terfyneu: Nid oes mo'r *nerth* i hynny rwan, ond mae chwaneg o *ddichell* ddyfeiſddrwg, a chyfled, a chromlech o femrwn ſcrifennedig i ſiccri 'au'r fargen; ac er hynny odid na fydd neu ſe fynnir ryw wendid ynddi. Wel', wel', ebr *Talieſſin*, ni thalwn i yno ddraen, ni waeth genni lle'r wyf: ni cheir byth *Wir* lle bo llawer o Feirdd, na *Thegwch* lle bo llawer o Gyfreithwyr, nes y caffer *Iechyd* lle bo llawer o Phyſygwyr. Yn hyn, dyma ryw ſwbach henllwyd bach a glywſei fod yno *Ddyn bydol* yn ſyrthio wrth fy nhraed, ac yn wylo'n hidl. Och o druan. ebr fi, beth wyti? Un ſy'n cael gormod o gam yn y byd beunydd, ebr ynte, ſe gai'ch enaid chwi fynny i mi uniondeb. Beth, ebr fi, y gelwir di? F' a'm gelwir i *Rhywun*, ebr ef, ac nid oes na llutteiaeth nac athrod, na chelwyddeu na chwedleu, i yrru rhai benben, nad arna'i y bwrir y rhan fwya o honynt. Yn wir, medd un mae hi'n Ferch odiaeth, ac hi fu'n eich canmol chwi wrth *rywun*, er bod *rhywun* mawr yn ei cheiſio hi. Mi a glywais *rywun*, medd y llall, yn cyfri naw cant o bunneu o ddled ar y ſtat honno. Gwelais *rywun* ddoe, medd y Cardottyn, a chadach brith tel moriwr a ddaethei a llong fawr o yd i'r borth neſa; ac felly pob cerpyn am llurguniia i iw ddrwg ei hun; Rhai a'm geilw i'n *Ffrind*; mi ges wybod gan Ffriend, medd un, nad oes ymryd hwn a hwn adel ffyrling iw Wraig, ac nad oes dim di-ddiprwydd rhyngthynt; rhai eraill a'm diyſtyrant i mheliach gan yn galw'n *Frân*, ſe ddy-

wed

wed *Brân* i mi fod yno gaſtieu drwg meddant. Ie, rhai a'm geilw ar henw parched ccach yn *Henwr*, etto nid eiddo fi hanner y coelion, a'r brutieu, a'r cynghorion a roir ar yr Henwr; ni pherais i erioed ddilyn yr henffordd, os byddei'r newydd yn well, ac ni feddyliais i erioed waraſun cyrchu i'r Eglwys with beri, *Na fynych dramwy lle bo mwya dy groeſo*, na chant o'r fath. Ond *Rhywun* yw fy henw cyffredina i, ebr ef, hwnnw a gewchwi glywed fynychaf ymhob mawrddrwg; oblegid gofynnwch i un lle dywedpwyd y mawr gelwydd gw'radwyddus, pwy a'i dyweid; yn wir, medd ynte, nis gwn i pwy, ond fo'i dyweid *Rhywun* yn y cwmnhi, holi pawb o'r cwmpeini am y chwedl, fe'i clybu pawb gan *rywun*, ond nis gwyr neb gan bwy. Onid yw hyn yn gamm cywilyddus, ebr ef; Ertolwg, a hyſpyſwchwi i bawb a glywoch yn fy henwi, na ddywedais i ddim o'r petheu hyn, ni ddyfeiſiais ac ni adroddais i gelwydd erioed i wradwyddo neb, nac un chwedl i yrru ceraint bendramwnwgl ai gilydd; nid wy'n dyfod ar eu cyfyl, nis gwn i ddim o'u ſtoriau, na'u maſnach, na'u cyfrinach felltigedig hwy, na wiw iddynt fwrw mo'u drygeu arna'i, ond ar eu 'menyddieu llygredig eu hunain Ar hyn, dyma Angeu bach, un o ſcrifenyddion y Brenhin, yn gofyn i mi fy henw ac yn peri i Meiſtr *Cwſc* fy nwyn i'n chrwydd ger bron y Brenin. Gorſed mynd o'm llwyr anfodd gan y nerth a'm cippiodd fel corwynt, rhwng uchel ac iſel, filoedd o filltiroedd yn ein hol ar y llaw aſſwy, oni ddaethom eilwaith i olwg y Wal derfyn ac mewn congl gaeth ni welem glogwyn o Lys candr ll penegored dirfawr, yn cyrraedd hyd at y Wal lle'r oedd y dryſau anferth, a rheiny oll yn arwain i'r anferth Lys arſwydus hwn: a phenglo-

geu

eu Dynion y gwnellſid y murieu, a rheini 'n cyrnygu dannedd yn erchyll; du oedd y clai oedi ei gyweirio trwy ddagreu a chwys, a'r calch ddi allan yn frith o phlem a chrawn, ac oddiewn o waed dugoch. Ar ben pob twr, gwelit Angeu bach a chanddo galon dwymn ar flaen ei aeth. O amgylch y Llys'r oedd rhai *coed*, ymeli Ywen wenwynig, a Cypres wydden farwol, ac n y rheini 'roedd yn nythu ddylluanod, Cigfrain ac Adar y Cyrph a'r cyfryw, yn creu am *Gig* fyth, r nad oedd y fangre oll ond un *Gigfa* fawr ddrewedig. O eſcyrn morddwydydd Dynion y gwnelid holl bilereu'r Neuadd, a Philereu'r Parlwr o eſcyrn y coeſeu, a'r llorieu'n un walfa o bob cigyddiaeth. Ond ni cheſ i fawr aros nad dyma fi ngolwg *Allor* fawr arſwydus lle gwelwn y Brenin. Dychrynadwy yn traflyncu cîg a gwaed Dynion, a mil o fan angheuod o bob twll yn ei borthi fyth, a chîg ir twymn: Dyma, eb yr Angeu, a'm dygaſei i yno walch a ges i ynghanol *Tir Angof*, a ddaeth mor yſca'n droed na phrofodd eich mawrhydi dammeid o hono 'rioed. Pa fodd y gall hynny fod, ebr y Brenin, ac a ledodd ei hopran cyfled a daiargryn i'm llyncu. Ar hyn, mi a drois tan grynu at *Cwſc*; Mvſi, ebr *Cwſc*, o'i dygais ef yma. Wel', ebr y Brenin cul ofnadwy er mwyn fy mrawd *Cwſc*, chwi ellwch fynd i droi'ch traed am y tro, yma; ond gwiliwch fi'r tro neſa. Wedi iddo fod ennyd yn bwrw celanedd iw geubal ddiwala, parodd roi dyfyn iw ddeiliaid, ac a ſymudodd o'r Allor i *Orſeddfainc* echryſlawn dra uchel, i fwrw'r carchariorion newydd ddyfod. A ewn munyd, dyma'r meirw fwy na rhi o finteioedd yn gwneud eu moes i'r Brenin, ac yn cymryd eu lle mewn trefn odiaeth. A'r Brenhin *Angeu* yn ei frenhinwiſc o

Scarlad

Scarlad gloewgoch, ac hyd-ddi lunieu Gwragedd a Phlant yn wylo, a Gwyr un ochneidio; ac am ei ben gap dugoch trichonglod (a yrrasei ei gar *Lucifer* yn anrheg iddo) ar ei gonglau scrifnasid *Galar a griddfan a gwae* uwch ei ben 't oedd myrdd o lunieu rhyfeloedd ar for a thîr, trefi'n llosci, y ddaiar yn ymagor, a'r Dw'r diluw; a than ei draed nid oedd ond coroneu a theyrnwiail yr holl Frenhinoedd a orchfygasei fe 'rioed. Ar ei law ddeheu 'r oedd *Tynged* yn eiste, ac a golwg ddu ddêl yn darllen anferth Lyfr oedd o'i flaen; Ac ar y llaw asiwy'r oedd hendyn a elwid *Amser* yn dylifo aneirif o edafedd *aur*, ac adafedd *arian*, a *chopr*, a *haiarn* lawer iawn, ac ymbell edy'n prifio'n well at ei diwedd: myrddiwn yn prifio 'n waeth; hyd yr adafedd yr oedd *oriau*, *diwrnodiau*, a *blynyddoedd*; a Thynged wrth ei Lyfr yn torri'r edafedd *einioes*, ac yn egor dryseu'r Wal dersyn rhwng y *ddau Fyd*. Ni chawsswn i fawr edrych na chlywn alw at y barr bedwar o ffidleriaid oedd newydd farw. Pa fodd, ebr Brenin y Dychryn, a daed gennych lawenydd na ddaliasechwi o'r tu draw i'r *Agendor*, canys ni fu o'r tu yma i'r Cyfwng lawenydd erioed? Ni wnaethom ni, ebr un Cerddor, ddrwg i neb erioed, ond eu gwneud yn llawen a chymeryd yn diswaw a gaem am ein poen. A gadwasech i neb, ebr *Angeu*, i golli eu hamser oddiwrth eu gorchwyl, neu o fynd i'r Eglwys, ha? Na do, ebr un arall, oddieithr bod ymbell Sul wedi gwasanaeth yn y tafarn dy tan dranoeth, neu amser ha mewn twmpath chwarae, ac yn wîr, yr oeddym ni'n gariadusach, ac yn lwccusach a'r am gyn'lleidsa na'r Person. Ffwrdd, ffwrdd a't rhain i Wlad yr Anobaith, ebr y Brenin ofnadwy, rhwymwch y pedwar gefn gefn, a theflwch hwy at eu cymeiriaid, i ddawnsio 'n droednoeth hyd

aclwydydd

aelwydydd gwyniais, ac i ryngu fyth heb na *chod* na *chlera*. Y neſa a ddaeth at y barr, oedd rhyw Frenin agos i *Rufein*: Cyfod dy law garcharor, ebr un o'r Swyddogion; gobeithio, ebr hwnnw, fôd gennych beth gwell moes a ffaſr i *Frenin*, Syre, ebr, *Angeu* chwitheu ddylaſech ddâl y tu arall i'r Angendor lle mae pawb yn Frenhinoedd; ond gwybyddwch nad oes o'r tu yma'r un ond ſy Hunan, ac un Brenin arall ſydd i wared obry, a chewch weled an phriſia hwnnw na minneu yngraddeu'ch mawrhydi eithr yngraddeu 'ch drygioni, i gael cymmwyſo 'ch côſp at eich beieu, am hynny attebwch i'r holion. Syr, ebr ynte, gwybyddwch nad oes gennych ddim awdurdod i'm dâl, nac i'm holi: Mae gonni faddeuant o'm hôll bechodeu tan law'r *Pâb* ei hun, am i mi ei waſanaethu e'n ffyddlon, ynte roes i mi gynhwyſiad i fynd yn union i *Baradwys*, heb aros funud yn y purdan: Wrth hyn, dyma'r Brenin a'r holl gegeu cuſion yn rhoi oer-yſcyrnygſa i geiſio dynwared *chwerthin*; a'r llall yn ddigllon wrth y chwerthin yn eu gorchymyn i ddangos iddo 'i ffordd. Taw ffŵl colledig, ebr *Angeu*, tu draw i'r Wâl o'th ôl y mae'r *purdan*, canys yn dy fywyd y dylaſai ymburo: Ac ar y llaw-ddeheu tu hwynt i'r Agendor yna, y mae *Paradwys*. Ac nid oes dim ffordd boſſibl i ti ddianc weithian, na thros yr Agendor i *Baradwys*, na thrwy'r Wâlderfyn yn d' ôl i'r *Byd*: Canys pe rhoit dy frenhiniaeth (lle ni feddi ddimmeu i roi) ni cheit gan borthor y dryſau yna, ſpio unwaith trwy dwll y clo. Y *Walddiadlam* y gelwir hon. canys pan ddeler unwaith trwyddi, yn iâch fyth ddychwelyd. Ond gan eich bod cymmaint yn llyfreu'r Pab, cewch fynd i gyweirio 'i wely ef at y Pab oedd o'i ſiaen, ac yno cewch gufanu 'i fawd ef

byth, ac ynte fawd *Lucifer*. Ar y gair, dyma bedwar o'r mân angheuod yn ei godi, ag ynte erbyn hyn yn crynu fel dail yr aethnen, ac a'i cippiafant fel y mêllt allan o'r golwg. Yn nefa at hwn daeth Mab a Merch: Ef a faſei'n *gydymaith dâ*, a hithe'n Ferch *fwyn*, ne'n rhwydd o'r chorph: Eithr galwyd hwy yno wrth eu henwau noethion, *Meddwin* a *Phuttain*. Gobeithio, ebr y Meddwin, y c[illegible] gennych beth ffafr, mi yrrais i chwi lawer yſ[illegible]yfaeth dew mewn llifeiriant o gwrw da; a phan fethais yn lladd eraill, daethum fy hun yn 'wllyſcar i'ch porthi. Trwy gennad y Cwrt, nid hanner a yrrais i iddo, ebr y Butten, wedi eu hoffrwm yn ebyrth llôſc, yn Gîg rhôſt parod iw fwrdd. Hai, hai, ebr Angeu, er eich trachwanteu melltigedig eich hunain, ac nid i'm porthi i y gwnaed hyn oll: Rhwymwch y ddau, wyneb yn wyneb, gan eu bod vn hên gyfeillion, a bwriwch hwy i *Wlâd y tywyllwch*, a chwyded ef iw chêg hi, pi[illegible] hitheu dan iw berfedd ynte hyd Ddyddfarn; [illegible]a cippiwyd hwytheu allan a'u penne'n iſa. [illegible]neſa i'r rhain, daeth ſaith *Recordor:* peri iddynt godi eu dwylo at y barr, ni chlywid mo hynny, canys'r oedd y cledreu 'n ireiddlyd; ond dechreuodd un ddadleu 'n hyfach, ni ddylaſem gael dyfyn teg i barotoi'n hatteb, yn lle'n rhuthro'n lledradaidd. O nid ym ni rwymedig i roi i chwi'r un dyfyn pennodol, ebr *Angeu*, am eich bod yn cael ymhob lle, bôb amſer o'ch einioes rybudd o'm dyfodiad i. Pa ſawl pregeth a glywſoch am *farwoldeb dyn?* Pa ſawl llyfr, pa ſawl bedd, pa ſawl clul, pa ſawl clefyd, pa ſawl cennad ac arwydd a welſoch? Beth yw'ch Cwſc ond fy mrawd i? Beth yw'ch penglogeu ond fy llun i? Beth yw'ch bwyd beunyddiol ond creaduriaid *meirwon?* Na cheiſiwch fwrw mo'ch aſ-

wydd

wydd arna fi, chwi ni fynnech ſôn am y dyſyn
er ei gael ganwaith. Ertolwg, ebr un *Recorder*
coch, beth ſy gennych i'n herbyn? Beth, ebr An-
geu? Yſod chwys a gwaed y tlodion, a chodi
dwbl eich cyflog. Dyma wr goneſt, eb ef, gan
ddangos Cecryn oedd o'u hôl, a wyr na wnaethum
'rioed ond tegwch: Ac nid têg i chwi'n dal ni
yma heb gennych un bai pennodol iw broſi i'n
herbyn. Hai, hai, ebr Angeu, cewch broſi'n eich
erbyn eich hunain: Goſodwch, ebr ef, y rhain
ar fin y *Dibyn* ger bron Gorſedd *Cyfiawnder*, hwy
a gant yno uniondeb er nas gwnaethant. Yr oedd
yn ol etto faith o Garcharorion eraill, a rheiny'n
gadw'r fath drafferth a thrwſt, rhai'n gweniei-
thio, rhai'n ymrincian, rhai'n bygwth, rhai'n cyn-
hori, &c. Prin y galwaſid hwy at y barr, nad
yma'r Llys oll wedi duo'n faith hyllach nac or
blaen, a grydwſt, a chyffro mawr o gylch yr Or-
eddfainc a'r Angeu'n laſach nac erioed. Erbyn
morol un o gennadon *Lucifer* a ddaethei â Lly-
hyr at Angeu, ynghylch y faith garcharor hyn
c ymhen ennyd parodd *Tynged* ddarllen y Lly-
hyr ar oſteg, ac hyd yr wy'n cofio dyma'r geirieu

Lucifer *Brenin Brenhinoedd y Byd, Twyſog Annw'n a Phrif-Reolwr y Dyſnder ar Ein naturiol Fâb, y galluoccaf Ddychrynadwy Fren-in* Angeu, *cyfarch a goruchafiaeth ac yſpledd-ach dragwyddol.*

'n gymaint a darfod i rai o'n cennadon cyflym
'n waſtad allan ar Yſpî, yſpyſu i ni ddyfod
ynneu i'ch Brenhinllys, faith Garcharor o'r faith
wogaeth ddihira'n y Byd, a pherycla, a'eh bod
wi ar fodr eu hyſcwyd tros y Geulan i'm Teyr-
as i; Eich cynghori'r wyfi i broſi pob ffordd

boſſibl iw gollwng hwy'n eu hol i'r Byd: gwn
ânt yno fwy o waſanaeth i chwi am ymborth
i mineu am well cwmnhi: Canys, gwell gen
nym eu lle na'u cwmpeini, cawſom ormod
heldren gyda'u cymmeiriaid hwy er's talm, a'
Llywodraeth i'n cythryblus euſys Am hynn
trowch hwy'n ei hol, neu gedwch gyda chwi hwyn
Oblegid myn y Goron Uffernol os bwri hwy ym
mi a faluriaf tan Seiliau dy Deyrnas di hyd o
fyrthio'n un a'm Teyrnas fawr fy hun.

O'n Brenhinllys ar ſugnedd yn y Fall-gyrch eirias y y Flwyddyn o'n Teyrnaſiad, 5425.

Safod y Brenin Angeu a'i wep yn wyrdd ac y
las ennyd ar ei gyfyng gyngor. Ond tra bu e
myfyrio, dyma Dynged yn troi atto'r fath guw
haiarn ddu a wnaeth iddo grynu. Syre, ebr
edrychwch beth a wneloch: Ni feiddia fi ollw
neb yn ol trwy Derfyn glawdd Tragwyddold
y *Wal ddiadlam*, na chwitheu eu llechi h
yma; am hynny, gyrrwch hwynt ymlaen i
deſtryw heb waetha i'r Fall fawr; Fe fedro
drefnu llawer dalfa o fil neu ddengmil o eneidi
bob un iw le mewn munud, a pha'r gledi fy
arno rwan gyda faith ar eu perycled? Pa ddel
bannac, pe troent y llywodraeth uffernol tros
cholyn, gyrr di hwynt yno'n fydyn, rhag ofn
mi gael gorchymyn i'th daro di'n ddim cyn
amſer. Am ei fygythion *et*, nid ynt ond celw
ddog: Canys er bod dy ddiben di a'r hendd
draw (gan odrych ar *Amſer*) yn neſau o fe
ychydig ddalenneu'n fy Llyfr diſommiant i; E
nid rhaid i ti un o'n ſoddi at *Lucifer*, er daed
ddei gan bawb yno dy gael di, etto byth
canț: Oblegid mae'r Creigieu dûr a diemw
tragwyd

tragwyddol ſy'n toi Annwn yn rhy gedyrn o beth iw malurio. Ar hynny galwodd Angeu'n gyffrous am un i ſgrifennu'r atteb fel hyn:

Angeu, *Frenin y Dychryniadau, cwncwerwr y cwncwerwyr at ein Parchediccaf Gâr a'n cymydog* Lucifer *Brenin Hirnos, Penllywodraethwr y Llynclyn Diphwys annerch.*

Ar ddwfn yſtyried eich brenhinol ddymuniant hwn, gwelſom yn ſuddiolach nid yn unic i'n Llywodraeth ni, eithr hefyd i'ch' Teyrnas helaeth chwitheu, yrru'r carcharorion hyn bella, bai boſſibl, oddiwrth ddryſeu'r Wal-ddiadlam, rhag iw Sawyr drewedig ddychrynu'r holl Ddinas *ddihenydd*, fel na ddêl dyn byth i Dragwyddoldeb o'r tu yma i'r Agendor, ac felly ni chawn i fyth oeri ngholyn, na chwitheu ddim cwſmeriaeth rhwng Ddaiar ac Uffern. Eithr gadawaf i chwi eu barnu a'u bwrw i'r celloedd a welochwi gymmwyſaf a ſiccraf iddynt.

O'm Brenhinllys iſa yn y Goll-borth *fawr ar* Ddiſtryw. *Er blwyddyn adnewyddiad ſy Nheyrnas*, 1670.

Erbyn clywed hyn oll, 'r oeddwn inne'n yſu am gael gwybod pa ryw bobl allei'r *Seithnyn* hynny od, a'r Diawliaid eu hunain yn eu harſwydo cymmaint. Ond cyn pen nemor, dyma Glarc Goron yn eu galw hwy wrth eu henwau fel canlyn. Meiſtr *Medleiwir*, alias *Bys ym hôb rywes*, 'roedd hwn mor chwidr a phryſur yn forddio'r lleill nad oedd e'n cael mor ennyd i atteb troſto'i hun nes i Angeu fygwth ei hollti i'i ſaeth. Yna Meiſtr *Enllibiwr*, alias *Gelyn y eirda*, dim atteb; mae e'n orchwylus glywed

ei ditlau; eb y trydydd, nis gall aros mo'r llyſenwau. Ai tybied, eb yr *Enllibiwr*, nad oes *ditlau* i chwitheu? Gelwch, ebr ef, Meiſtr *Rhodreſwr* mel-dafod, *alias*, Lyſn y llwnc, *alias*, Gwên y gwenwyn. *Redi!* ebr Merch oedd yno tan ddangos y Rhodreſwr. O, ebr ynte, Madam *Marchoges!* eich gwaſanaethwr tlawd, da genni'ch gweled yn iâch ni weles i 'rioed ferch harddach mewn clôs; ond o'ch feddwl druaned yw'r Wlâd ar eich ôl am lywodraethwraig odiaeth, etto 'ch cwmnhi hyfryd chwi a wnâ Uffern ei hun yn beth gwell. O Fâb y Fall fawr, ebr hi, nid rhaid i nêb gyda thi'r un Uffern arall, 'r wyti'n ddigon. Yna galwodd y Criwr *Marchoges*, alias *Meiſtres y Clôs! Redi*, eb, rhywun arall, ond hi ni ddywedodd air, eiſieu ei galw hi *Madam*. Yn neſa, galwyd *Bwriadwr Dyfeiſieu*, alias, *Siôn o bob Creſt*. Ond ni attebei hwnnw chwaith, 'r roedd e'n pryſur ddyfeiſio'r ffordd i ddianc rhag *Gwlâd yr Anobaith*. *Redi, redi*, ebr un oi ôl, dyma, fo'n ſpio lle i dorri'ch brenhinllys, ac oni wiliwch, mae ganddo gryn ddyfais i'ch erbyn. Ebr y *Bwriadwr*, gelwch ynte'n rhodd, Meiſtr *Cyhuddwr*, ei frodyr, *alias*, Gwiliwr y gwallieu, *alias*, Lluniwr Achwynion. *Redi, redi*, dyma fo, ebr Ceccryn, cyfreithgar, canys gwyddei bob un henw'r llall, ond ni addefei neb mo'i henw ei hunan. 'Gelw chwitheu, ebr Cyhuddwr, Meiſtr *Ceccryn cyfreithgar*, alias, *Cwmbrus y cyrtieu*: Tyſtion, tyſtion o honoch, fel y galwodd y cna fi, ebr Ceccryn. Hai, hai, ebr *Angeu*, nid wrth y Bedyddfaen, ond wrth y Beieu'r henwir pawb yn y Wlad yma, a thrwy 'ch cennad, Meiſtr *Ceccryn*, dyna'ch henweu a ſai arnoch o hyn allan byth. Aie, ebr *Ceccryn*, myn Diawl, mi wna 'n hallt i chwitheu, e y galleich fy lladd, nid oes gennych ddim awdur

do

dod i'm llyſenwi. Mi rôf gydcwyn am hynny, ac am gamgarchariad arnochwi ach car *Lucifer* ynghwrt *Cyfiawnder*. Erbyn hyn, gwelwn fyddinoedd *Angeu* wedi ymdrefnu, ac ymarfogi, a'u golwg ar y Brenin am roi'r gair. Yna, ebr y Brenin, wedi ymſythu ar ei frenhinfainc, Fy lluoedd ofnadwy anorchfygol na arbedwch ofal a phryſurdeb i hebrwng y Carcharorion hyn allan o'm Terfyneu i rhag diwyno 'Ngwlad; a bwriwch hwy 'n rhwym tros y Dibyn diobaith, au penne 'n iſa. Ond yr wythfed y gwr cwmbrus yna ſy 'n ſy mygwch ef yn rhydd uwchben y Geulan tan Gwrt *Cyfiawnder*, i profi, gwneud ei gwyn yn dda i'm herbyn i, os geill. A chyda 'i fod e'n eiſtedd, dyma'r holl Fyddinoedd marwol wedi amgylchu a rhwymo'r Carcharorion, ac yn eu cychwyn tu a'u lletty. A minneu wedi mynd allan, ac yn lled-ſpio ar eu hôl, Tyrd yma, ebr *Gwſc*, ac a'm cippiodd i ben y Twr ucha ar y Llys. Oddiyno, gwelwn y Carcharorion yn mynd rhagddynt iw dihenydd tragwyddol: A chyn pen nemor, cododd pwff o gorwynt, ac a chwalodd y Niwl pygdew cyffredin oedd ar wyneb *Tir Ango*, o nid aeth hi'n llwyd oleu, lle gwelwn i fyrdd fyrddiwn o ganhwylleu gleiſion, ac wrth y rheiny, cês olwg o hirbell ar fin, y *Geulan ddiwaelod*: Ond os golwg dra echryſlawn oedd honno, 'roedd yno uwchben olwg erchyllach na hitheu, ſef, *Cyfiawnder* ar ei *Gorſeddfainc* yn cadw drws Uffern, ar Frawdle neilltuol uwchben y ſafn i roi barn ar y Colledigion fel y delont. Gwelwn daflu'r lleill bendramwnwgl, a *Checcryn* ynteu yn rhuthro 'i daflu ei hun tros yr ymyl ofnadwy, rhag edrych unwaith ar Gwrt *Cyfiawnder*, canys och! 'r roedd yno olwg rydoſt i wyneb euog. Nid oeddwn i ond yſpio o *hirbell*, etto mi a welais fwy

o erchylldod arſwydus, nac a ſedrai rwan ei draethu, nac a ſedrais i'r pryd hynny ei oddef; canys, ymdrechodd a dychlammodd f' yſpryd gan y dirfawr ddychryn, ac ymorcheſtodd mor egniol, oni thorrodd holl gloicu Cwſc, a dychwelodd f' enaid iw cynnefin ſwyddau: A bu lawen iawn genni'ngweled fy hun etto yn ymyſc y rhai *byw*; a bwriedais fyw well-well, gan fod yn eſmwythach genni gan mlynedd o gyſtudd yn llwybreu ſancteiddrwydd, na gorfod gweled cip arall ar erchylldod, y Noſon honno.

Ar y Dôn a elwir Leaveland, *neu* Gadel y Tîr.

1.

GADEL *tîr*, a gadel *tai*,
(Byrr yw'r rhwyſc i Ddyn barhau)
Gadel *Pleſer* mwynder mêl,
A gadel *uchel achau*.

2.

Gadel *Nerth*, a *Thegwch pryd*,
Gadel *Prawf* a *Synwyr* ddrud,
Gadel *Dyſc* a *cheraint* da,
A phôb *anwyldra* 'r Hollfyd.

3.

Oes dim help rhag *Angeu Gawr*,
Y Carnlleidr Mwrdriwr mawr,
Sy'n dwyn a feddom ddrwg a dâ,
A ninneu iw Gigſa gegfawr!

4.

Gwyr yr Aur, ond gwych y fai
Gael fyth fwynhau'ch meddianneu:
Mae'l y gwnewch 'i rhyngoch, Rodd
A ryngo fodd i'r *Angeu*.

5. Chwi

5.

Chwi rai *glân* o *bryd* a *gwedd*,
Sy'n gwallio Corſedd-feincieu!
Mae'l y trwſiwch chwithe'ch min
I ddallu'r Brenin *Angeu*.

6.

Chwi'r yſcafna ar eich troed,
Yn ngrymmus Oed eich blodeu;
Ymwnewch i ffoi, a chwi gewch glôd
O diengwch rhag nôd *Angeu*.

7.

Mae clod i *Ddawns* a pheraidd *Gân*,
Am warrio aſlan Ddrygeu;
Ond mawr na fedrei *Sioncrwydd* Ffrainc,
Rygyngu cainc rhag *Angeu*.

8.

Chwychwi *Drafaelwyr* Môr a Thud,
A'r Byd i gyda a'i gyrreu:
Yn rhodd a welſoch mewn un lle,
Rhw gongol grê rhag *Angeu?*

9.

Chwi 'Scolheigion a Gwyr-*Llys*,
Sy'n deall mogys duwieu?
A rowch'i myſc eich dyſc a'ch dawn,
Ryw gyngor iawn rhag *Angeu*.

10.

Y Byd y Cnawd a'r Gythrael yw,
Priſ Elynion pob dyn byw:
Ac etto gwiliwch *Angeu Gawr*,
O'r *gellborth fawr ar Ddeſtryw*.

11.

Sôn am *Amgeu* nid oes bris,
Ai *Gellborth* a'i *Ddiangborth* Lys;
Ond beth pan eleeh di dy hun,
Oes fatter p'r un o'r ddeu-lys?

Nid oes yma ronyn prîs,
Fynd tros y ſtrip yn uwch ne'n îs;
Nid yw'r *bythol betheu* mawr,
I'th dyb di nawr ond bribis.

13

Ond pan fo'r Ange 'mron dy ddâl,
Wrth odre'r *Wal ddidlam*,
Gwybydd y bydd i ti bris
Os cemmi ris yn lledcam.

14.

Pan fo d' Enaid am y clô,
A mynd i'r fawr *Dragwyddol Fro*,
Oes brîs wrth egor cîl y Ddôr,
Pa dy i'r *Agendor* fyddo?

15.

Credu ac *Edifarhau*,
A *Buchedd Sanctaidd y gwellau*,
Y rhain wy'r unig help i Ddyn,
Rhag ing a cholyn *Angeu*.

16.

Gwael y gweli rhain yn awr,
Ond wrth fudo i'r Byd mawr,
Tydi a'u prifi'n fwy na hyn,
A fin dy *Derfyn* dirfawr.

17.

Pan fo'r Byd i gyd ar goll.
A'i fwynder oll ar d' ollwng,
Anfeidrol fydd eu prîs au gwerth,
Wrth Gae yr anferth *Gyfwng*.

III.

Gweledigaeth UFFERN.

AR foreu têg o *Ebrill* rywiog a'r Ddaiar yn las feichiog a *Phrydain* baradwyſedd yn gwiſco lifrai gwychion, arwyddion *Heuluen Hâ*; rhodio'r oeddwn ynglann *Hafren*, ynghanol melyſbyncieu cerddorion bach y Goedwig, oedd yn ymryſon torri pob meſureu *mawl* hyfrydlais i'r Creawdwr; a minne'n llawer rhwymediccach, weithieu mi gyd-bynciwn a'r Cor aſcellog mwynion, ac weithieu darllenwn rann o Lyfr *Ymarfer Duwioldeb*. Er hynny yn y myw nid i o'm cof ſy *ngweledigaetheu* o'r blaen, na redent fyth a hefyd i'm rhwiſtro ar draws pob meddyliau eraill. A daliaſant im blino, nes imi wrth fanwl ymreſymmu yſtyried nad oes un weledigaeth ond *oddiuchod* er rhybudd i ymgroeſi, ac wrth hynny fod arnai ddlêd iw ſcrifennu hwy i lawr er rhybudd i eraill hefyd. Ac ar ganol hynny o waith, a mi 'n bendrift yn ceiſio taſclu rhai o'r coſonau oſnadwy, daeth arnai heppian uwchben fy mhapur, a hynny a roes le i'm Meiſtr *Cwſc* lithro ar fy ngwartha. Braidd y cloiſei *Gwſc* fy ſynhwyreu, nad dyma'n cyfeirio atta'i rwy *ddrychiolaeth* ogoneddus, ar wedd gwr ieuanc tal a glanded iawn, a'i wiſc yn ſaith wynnach na'r eira, a'i wyneb yn tywyllu'r Haul o ddiſcleirdeb, ai ſolyngrych aurgudynnau ymrannu'n ddwybleth loewdeg oddiarnodd ar lûn *Coron*. Tyrd gyda mi ddyn marwol! ebr ef, pan ddaeth hyd attaf: Pwy wyt ſ? Arglwydd? ebr finneu. Myfi, ebr ef, yw Angel

Teyrnaſoedd

Teyrnaſoedd y Gogledd, gwaicheidwad *Prydain* a'i Brenhines. Myfi yw un o'r Tywyſogion ſy tan Orſeddfainc yr Oen yn derbyn gorch'mynion ymhlaid yr *Eſengyl*, iw chadw rhag ei holl elynion ſy yn Uffern ac yn *Rhufain*, yn *Ffraine* ac *yn ghaer Cwſtenyn*, yn *Affrica* a'r *India* a phale bynnac arall y maent yn dyſeifio dichellion iw difa. Myfi yw'r Angel a'th warenodd tu iſa i Gaſtell *Belial*, ac a ddangoſais i ti oferedd a gwallco'r holl Fyd, y *Ddinas ddihenydd*, a godidowgrwydd Dinas *Emmanuel*, a daethum etto trwy ei orchymyn Ef i ddangos i ti betheu mwy, am dy fod yn ceiſio gwneud deunydd o'r hyn a welaiſt euſys. Pa fodd f' Arglwydd, ebr fi, y mae'ch anrhydedd gogoneddus ſy'n goruwchwilio Teyrnaſoedd a Brenhinoedd yn ymoſtwng at gymdeithas burgyn o'm beth i? O! ebr ynte, mwy gennym ni *rinwedd Cardottyn* na *mawredd brenin*. Beth os wyf fwy na holl Frenhinoedd y Ddaiar, ac uwch na llawer o'r aneirif Bennaethiaid Nefol, etto gan deilyngu o'n hanfeidrol Feiſtr, ni oſtyngiad mor anrhaethol arno 'i Hun, a gwiſco un o'ch cyrph chwi a byw'n eich myſc, a marw i'ch achub: Pa fodd y meiddiwn i amgen na thybio'n rhydda ſy ſwydd dy waſanaethu di a'r gwaelaf o'r *Dynion* ſy cyfuwch yn ffafer ſy Meiſtr? Tyrd allan yſpryd a *dibridda*! ebr ef, a'i olwg ar ei ſynu; a chyda'r gair, mi 'm clywn yn ymryddhau oddiwrth bob rhann o'r corph, ac ynte'n ſy nghipio i ſynu i entrych nefoedd, trwy ſro'r Mellt a'r Taraneu a holl Arfdai gwyniais yr Wybr, aneirif o raddeu'n uwch nac y baſwn gydag ef o'r blaen, lle prin y gwelwn y Ddaiar cyfled a chadlais. Wedi gadel i mi orphwys ychydig fe'm cododd eilchwyl fyrddiwn o filltiroedd, oni welwn yr Htul ymhell odditanom, a, thrwy *caer*

gwydrion

gwydion ac heibio i'r *Tŵr tewdws*, a llawer o Sêr tramawr eraill i gael golwg o hirbell ar Fydoedd eraill A o hîr ymdaith, dyma ni ar derfyneu 'r anferth *Dragwyddoldeb*; yngolwg dau Lys y gor'-cheſtol Frenin *Angeu*. un o'r tu deheu a'r llall o'r tu aſſwy ymhell bell oddiwrth eu gilydd, gan fod rhwy ddirfawr *Wâg* rhyngddynt. Gofynnais a gawn fynd i weled y Brenhinllys deheu, oblegid ni welſwn mo *hwnnw'n* debyg i'r *llall* a welſwn i o'r blaen. Cei ondodid, ebr ynte, weled ychwaneg o'r rhagor ſy rhwng y naill Lys a'r llall rywbryd. Eithr rhaid i ni rwan hwylio ffordd arall. Ar hyn troeſom oddiwrth y *byd bâch*, a thros y Cyfwng ymollyngaſom i'r *Wlâd tragwyddol*, rhwng y ddau Lys i'r *Gwagle* hyll; anferth Wlad, ddofn iawn a thywyll, di-dreſn a di-drigolion, weithie'n *cer* ac weithie'n *boeth*, weithio'n *ddiſtaw*, ac weithieu yn *ſynio* gan y rhaiadydd dyfroedd yn deſcyn ar y Taneu ac yn ei diffodd; ac yn y man gwelit damchwa o dan yn torri allan ac a loſcei'r dwſt yn ſych: Felly nid oedd yno ddim cwrs, na dim cyfa, dim byw, na dim llun-iaidd; ond yr *anghyſſondeb ſyfrdan*, a *ſyndod tywyll* a'm dallaſei i fyth, o ni baſei i'm cyfaill noethi eilwaith e nefol ddiſcleirwiſc. Wrth ei oleu ef gwelwn *Dîr Ango*, a minion Gwylltoedd *Deſtryw* ymlaen o'r tu aſſwy; ac o'r tu deheu megis godreuon iſa caereu'r *Gogoniant*. Wel'dyma'r Agendor fawr ſy rhwng *Abraham* a *Difes*, ebr ef, a elwir y *Gymyſcfa* ddidreſn, hon yw gwlad y *defnyddieu*, a greodd y Creawdr gynta dyma lle mae *hadau* pob peth byw, ac o'r rhain y gwnaeth y *gair* Hollalluog eich Byd chwi ac oll ſy ynddo, Dw'r Tân, Awyr, Tîr, anifeiliaid, pyſc a phryfed, adar eſcellog, a chyrph dynion, ond mae eich *eneidieu* o ddechreuad ac acheu uwch

ac

ac ardderchoccach. Trwy'r *Gymmyſca* fawr arſwydus, ni a dorraſom o'r diwedd allan i'r llaw chwith; a chyn trafaelio neppell yno, lle'r oedd pob peth yn dechreu mynd hyllach, hyllach, clywn y galon ynghoron yngwddf, a'm gwallt yn ſefyll ſel gwrych draenog cyn gweled; ond pan welais och ormod golwg i dafod ddatcah, nac i yſpryd dyn marwol ei edrych! mi a lewygais. Oh! aruthrol anferthol *Gyfwng* tra erchyll yn ymagor i Fyd arall! Och ar cleccian fyth yr oedd y fflameu echryſlawn wrth ymluchio tros ymyleu'r Geulan felltigedig a'r dreigieu mêllt yſcethrin yn rhwygo 'r mwg dudew'r oedd y *Safn* anferth yn ei fwrw i fynu, Pan ddadebrodd f'anwyl gydymmaith fi, thoes i mi ryw ddw'r *yſprydol* iw yfed; o odidocced oedd ei flas ai liw! pan yfais y dwr nefol clywn *nerth* rhyfeddol yn dyfod imi, a *ſynwyr*, a *thalon*, a *ffydd* ac amryw rinweddeu nefol eraill. Ac erbyn hyn neſſeais gydage'n ddiarſwyd, at fin y Dibyn, yn y Llenn, a'r fflammeu'n ymrannu o'n deutu ac yn ein gochel, heb feiddio cyffwrdd a Thrigolion *Gwlâd Uchelder*. Yna o ben y Geulan anaelef ymollyngaſom fel y gweliti ddwy Seren yn ſyrthio o entrych nêf, i lawr a ni fil filiwn o filltiroedd, tros lawer o greigieu brwmſtan, a llawr anfad raiadr gwrthun, a chlogwyn eirias a phôb peth a gwg cro-gedig ar i wared fyth, etto'r oeddynt oll yn ein gochel ni; oddieithr unwaith yr eſtynnais fy nhrwyn allan o'r *llen gêl*, tarawodd y fath archfa fi o fygfeydd a thagfeydd ac a'm gorphenaſei oni baſei iddo'n ddiſymwth f' achub a'r dw'r bywiol. Erbyn imi ddadebru gwelwn ein bod wedi dyfod i ryw ſefyllfod; canys yn yr holl Gêg anferthol honno nid oedd boſſibl ddim cynt gae attreg, gan ſerthed a llithricced ydoedd. Yno gadawodd fy nhwy-

log

og i mi orphwys peth drachefn; ac yn hynny o
ibiant digwyddodd i'r Taraneu a'r Corwynt-
edd crôch ddiſtewi gronyn, ac heb waetha i
wn y rhaiadydd geirwon, mi a glywn o hirbell ſwn
rall mwy na'r cwbl, o grochleiſieu echrys, bon-
lefain, gwaeddi, ac ochain cryf, a thyngu a rhe-
u a chablu, oni roeſwn i newid ar fy nghluſtieu
hag gwrando. A chyn i ni ymſymmud fodfedd
lywem oddifynu'r fath drwp-hwlrwp-rap dy
wmp dy-damp, ac oni baſei i ni oſcoi'n ſydyn
yrthiaſeu arnom gantoedd o ddynion anhappus
edd yn dyfod ar eu penneu mewn gormod brys
ddrwgfargen, a llu o Ellyllon yn ei gyrru. O
ir, ebr un Diawl, cymrwch yn araf rhag dyry-
u'ch cudyn crych. *Madam*, a fynnwchwi glu-
og eſmwyth? mae arnai ofn na fydd arnoch
dim trefn erbyn yr eloch i'ch lletty, meddei ef
rth y llall. Gwrthnyſig aruthr oedd y dieithriaid
fynd ymlaen, gan daeru eu bod allan o'r ffordd,
c er hynny mynd yr oeddid a ninneu o'u lledol
yd at Weilgi ddu ddirfawr o faint, a thrwodd yr
ethant hwy, a throſodd ninneu, a'm cydymaith
n dal y *dw'r* wrth fy nhrwyn i'm nerthi rhag
rchſa'r affon, ac erbyn y gwelwn rai o'r *trig-*
ion, canys hyd yn hyn nis gwelſwn gymmaint ac
n *Diawl*, ond clywed eu llais. Beth, ertolwg
nhwyſog, y gelwir yr Afon farwedd hon, ebr
? *Afon y Fall*, ebr ynte, lle trochir ei holl ddeili-
id ef iw cymwyſo at y Wlad: Mae'r dw'r mell-
gedig hwn, ebr ef, yn newid eu *gwedd*, yn golchi
maith bob *gweddillion* daioni, pôb *rhith* gobaith
chyſur. Ac erbyn gweled y llu yn dyfod trw-
dd, nis gwyddwn i ddim rhagor gwrthuni rhwng
Diawliaid a'r *Damniaid*. Chwenychei rai o
nynt lechu yngwaelod yr Afon, a bob yno fyth
thoedd yn tagu, rhagymcael laen waeth lletty:

Ond

Ond fel y mae'r ddihareb, *Rhaid i bwnnw redeg y bo Diawl yn ei yrru*, felly gan y Diawliaid oedd o'u hol'r oedd yn gorfod i'r damniaid hyn fynd ymlaen hyd y Feiſdon ddiniſtriol iw dihenydd tragywyddol; lle gwelais inneu ar y golwg cynta fwy nac a all calon Dyn ei ddychymyg, chwaethach tafod ei draethu o arteithieu a dirboeneu; a digon oedd weled un o honynt er gwneud i'r gwallt ſefyll, i'r gwaed fferri, i'r enawd doddi, i'r eſcyrn ymollwng, iê i'r yſpryd lewygu. Beth yw polioni, neu liho Dynion yn ſyw? tynnu'r enawd yn dammeidieu a gwrthrimmynnod heirn, neu friwlio cîg a chanwŷlleu o ſefur golwyth, neu waſcu penglogeu'n lledfennau mewn gwaſc a'r holl ddirmyg erchylla ſu 'rioed ar y ddaiar? nid ydynt oll ond megis dyfyrrwch wrth un o'i rhain. *Yma* fîl can mîl o floeddiadau ac ebychiau hyllgryg ac ochneidieu cryfion; *draw* wylofain croch, ac aruthrol gri'n eu hatteb, ac mae udfa cwn yn bêr fuwſic flaſus wrth y lleiſieu yma. Pan aethom ronyn ymlaen o'r Feiſdon felltigedig i wyllt *Deſtryw*, wrth eu tan eu hunain canſûm aneirif o Feibion a Merched yma a thraw; Diawliaid heb rifedi ac heb orphwys a'u holl egni'n dal byth iw harteithio; ac fel y gwaeddei'r Diawliaid gan eu poen eu hunain, gwnaen i'r Damniaid eu hatteb hyd adre. Deliais ſarſyllach Sulw ar y cwrr oedd meſa atta'i: Gwelwn y Diawliaid a phigffyrch yn eu taflu i ddeſcyn a eu penneu ar hiſlanod gwenwynig o biccellau geir won gwrth fachog, i wingo gerfydd eu mynyddieu, ymhen ennyd lluchient hwy ar eu gilydd yn hunfeydd, i ben un o'r Creigieu lloſc i roſtio fel poethfel. Oddiyno cippid hwy 'mhell ben un o fylcheu y rhew a'r Eira tragwyddol yna 'n ol i anferth lifeiriant o frwmſtan berwe

dig

dig, iw trochi mewn *lloſcfeydd*, a *mgrfeydd*, a *rhagfeydd*, o ddrewi anaelef; oddiyno i Siglen y pryſed ei gofleidio *ymluſciaid uffernol*,, llawer gwaeth na Seirph a Gwiberod; yna cymmerei'r Cythreuliaid wiail clymmog o ddur tanllyd o'r ffwrnes, ac ai cureint oni udent tros yr holl *Fagddu fawr*, gan yr anrhaethawl boen echryſlawn; yna cymereint heirn poethion i ſerio'r archollion gwaedlyd. Dim *llewygu* na *lleſmeirio* nid oes yno, i ſommi munyd o *ſeibiant*, ond nerth gwaſtadol i *ddiodde* ac i *deimlo*; er y tebygiti ar ol un echryſlef, nad oedd boſſibl fod fyth rym i roi un waedd arall mor hyllgref, etto byth ni oſtwng eu cywair, a'r Diawliaid yn eu hatteb, dyma'ch croeſo *byth bythoedd*. A phettei poſſibl, gwaeth na'r boen oedd goegni a chwerwder y diawliaid yn eu *gwawdio*, ac yn eu *gwatwar*: A pheth oedd waethaf oll, oedd eu *Cydwybod* y rwan wedi cwbl ddeffro, ac yn eu llarpio hwy'n waeth na mîl o'r Llewod uffernol. Ond wrth fynd rhagom ar i wared bellbell, a *phan bella gwaetha'r gwerth*, yr olwg cynta, gwelwn Garchar ofnadwy, a Dynion lawer iawn tan ſcwrs y Diawliaid yn griddfan yn ſelltigedig. Pwy yw rhain oll, ebr fi? Dyma, eb yr Angel, letty'r *Gwae fi na baſwn!* Gwae fi na baſwn yn ymlanhau oddiwrth bob rhyw bechod mewn pryd! medd un; Gwae fi na baſwn yn credu ac yn edifarhau cyn dyfod yma, medd y llall. Neſa i gell yr *edifeirwch rhyuyr* a'r *dadl wedi barn*, oedd Garchar yr *Oedwyr*, a fyddei bob amſer yn *addo* gwellau, heb fyth gwplau. Pan ddarffo hŷn o drafferth, medd un, mi a dro ddalen arall: Pan êl hyn o rwyſtr heibio, mi a'n Ddyn newydd etto, medd y llall. Ond pan ddarffo hynny, nid ydys nês, ceir rhyw rwyſtr arall fyth, a hefyd rhag cychwyn tu a Phorth

Sancteiddrwydd, ac os cychwynid weithieu, ych ydig a'u troe'n ol. Nesa i'r rhain, oedd Car char *y Cam-hyder*, llawn o rai pan berid iddyn gynt ymadel a'u *hanlladrwydd*, neu *feddwdod* ne *gybydd-dod*, a ddywedeint, *Mae Duw'n drugarog* ac yn well nai air, ac ni ddamnia 'i greadur fyth am fatter cyn lleied. Ond yma cyfarth cabledd yr oeddynt, a gyfyn p'le mae'r Drugaredd honno a foftid ei bod yn anfeidrol. Tewch gorgwn ebr cimmwch o Gythraul mawr oedd yn eu clywed, tewch, ai trugardd a fynnechwi, heb wneud dim at ei chael? A fynnech i'r *Gwirioned* wneud ei Air yn Gelwydd, dim ond er cael cwmnhi fothach mor ffiaidd a chwi? Ai gormod o drugaredd a wnaed a chwi? Rhoi i chwi Achubwr, Diddanwr, a'r Angylion, a Llyfreu, a Phregetheu, a Siampleu da, ac oni thewch chwa'n crugo ni bellach wrth ymleferydd am Drugaredd lle ni bu *hi* 'rioed! Wrth fynd allan o'r ceubwll tra thambaid hwn, clywn un yn nerthwch ac yn bloeddio'n greulon, Nis *gwyddwn* i ddim gwell; ni *chofliwyd* dim wrthin 'rioed i ddyfcu darllen fy nyledfwydd; ac nid oeddwn i'n cael mor *ennyd* chwaith gan ennill bara i mi ac i'm tylwyth tlawd i *ddarllen* nac i *weddio*. Aiê, eb rhyw ddiefyn gwergam oedd gerllaw, a gaed dim ennyd i ddywedyd chwedlau 'fmala? Dim fegur yntroftio hirnos Gaia, pan oeddwn i ynghorn y Simnai, na allefid rhoi peth o'r amfer hwnnw a ddyfcu darllen neu weddio? Beth am y *Sulieu*? Pwy fu'n dyfod gyda mi i'r Dafarn, yn lle mynd gyda'r Perfon i'r Eglwys? Pa fawl prydnhawn Sulgwaith a roed i oferddadwrdd am betheu? Byd, neu gyfcu, yn lle dyfcu myfyrio a gweddio? a'c a wnaethochwi yn ol a wyddech? Tewch, Syre, a'ch dwndwr celwyddog. O waed

C

Ci cynddeiriog, ebr y coll ddyn, nid oes fawr er pan oeddit yn ſiſial peth arall yn ſy mhen i! pe dywedaſit hyn y dydd arall, odid a ddaethwn i yma: O, ebr y Diawl, nid oes gennym fatter er dywedyd i chwi'r caſwir *yma*, oblegid nid rhaid uno'n yr ewch i'n ol bellach i ddywedyd chwedleu. Tu iſa i'r gell yma gwelwn ryw gwm mawr, ac ynddo megis myrdd o Domennydd anferth yn gwrddloſci, ac erbyn neſau, gwybùm wrth eu hudfa, mai *Dynion* oeddynt oll, yn frynieu ar eu gilydd, a'r fflammeu cethin yn cleccian trwyddynt. Y Pantle yna, eb yr Angel, yw lletty'r Gwyr a ddywedeint wedi gwneud rhyw fowrddrwg, haro! *nid fi yw'r cynta, mae i mi ddigon o gymmeiriaid*, ac felly gwedi eu bod yn cael digon o gymmeiriad, i wirio'u geirieu, ac i'chwannegu eu gofid. Gyfeiryd a hyn'r oedd Seler fawr lle gwelwn *nyddu* Dynion fel nyddu gwdyn, neu ſiccio cynfaſeu. Attolwg, ebr fi, pwy ydyw y rhain? Dyma'r *Gwawdwyr*, ebr ef, ac o Wîr wawd arnynt, mae'r Diawliaid yn profi a llid eu nyddu *hwy* cyn yſtwythed a'u *chwedlau*. s law hyn ronyn, prin y gwelſom ryw garcharowll arall trathywyll, ac yno'r oedd petheu a fai'n Ddynion, a wynebu fel penneu bleiddgwn, yd at eu cegeu mewn Siglen; ac yn cyfarth ableddd a chelwydd yn gynddeiriog tra caent y olyn allan o'r baw. Yn hyn dyma gadfa o Gyhreuliaid yn dyfod heibio, a chyrhaeddodd rhai rathu deg neu ddeuddeg o'r Diawliaid a'u dygai hwynt yno yn eu ſodleu. Gwae, Deſtryw, fferngwn! ebr un o'r Diawliaid a fratheſid, ac d'rawodd ar y Siglen onid oeddynt yn ſoddi n eigion y drewi: Pwy a haeddei Uffern well a chwi, y ſyddei'n hêl ac yn dyfeiſio chwedleu yn ſierwd celwydd o dy i dy i gael chwerthin

wedi y gyrrech yr holl fro benben a'u gilydd! Beth ychwaneg a wnae un o honom ninneu! Dyma, eb yr Angel, letty'r *Athrodwyr*, yr *Enllibwyr* a'r *Huſtingwyr*, a phob llyſrgwn cenſigennus a anafant fyth *o'r tu cefn* a dyrnod neu a thaſod. Oddiyno ni aethom heibio i walfa fawr, ffieiddia'r a welſwn i etto, a llawna o bryfed, a hiddigl a drewi, Dyma, ebr ef, le'r gwyr a ddiſgwilient Nêf am fod yn *ddi falis* ſef, yn ddidd-rwg ddidda. Neſa i'r drewbwll yma, gwelwn dyrfa fawr yn eu heiſte'n ochain yn greulonach na dim a glywſwn i hyd yn hyn o Uffern. Ymgroes dda i bawb, ebr fi, be' ſy'n peri i'r rhain achwyn mwy na nêb, heb na phoen na chythreul ar eu cyfyl? O! eb yr Angel, mae ychwaneg o boen *oddimewn* os oes llai o'r *tu allan*, *Hereticiaid* gwrthnyſig, a rhai *annuw*, a llawn o rai *anghriſt*, ac o'r *bydol ddoethion*, Gwadwyr *ffydd*, *erlidwyr* yr Eglwys, a myrdd o'r cyfryw ſy yma, wedi eu gadel yn hollawl i chwerwddycnach goſp y *gydwybod*, ſy'n cael ei chyflawn rwyſc arnynt yn ddibaid ddirwyſtr. Ni chymra bellach, medd *hi*, mo'm boddi mewn cwrw-na'm dallu a gwobrau, na'm byddaru a cherdd ac chwmnhi, na'm ſuo, na'm ſynnu a ſyrthni any ſtyriol; eithr mynnaf fy nghlywed bellach, a byth ni thyrr clep y *caſwir* yn eich cluſtieu Mae'r *'Wllys* yn codi blys y Gwynfyd a gollwyd a'r *Cô* 'n edliw hawſed faſei ei gael, a'r *Deallt wriaeth* yn dangos faint y golled, a ſiecred yw na cheir bellach ddim ond yr anrhaethawl gno fa byth bythoedd: Ac felly a'r *tri* hyn y mae *gydwybod* yn eu rhwygo 'n waeth nac y gall holl Ddiawliaid Uffern. A mi'n dyfod allan o gilfach ryfeddol honno, mi glywn gryn ſiarad ac am bob gair y fath hyll grechwen a phedfaſ

yn

yno bumcant o'r Cythreuliaid ar fwrw eu cyrn gan chwerthin: Ond erbyn i mi gael noſau i weled yr amheuthun mawr o *wenu* yn Uffern, beth ydoedd ond dau o bendefigion newydd ddyfod yn dadleu am cael parch dyledus iw *bonedd*, ac nid oedd y llawenydd ond digio 'r gwyr boneddigion. Falff o *'Scweir* a chanddo drolyn mawr o femrwn ſef ei gart acheu, ac yno'n datcan o ba ſawl un o'r pymtheg llwyth Gwynedd y tarddaſei ef: Pa ſawl *Uſtus o heddwch*, a pha ſawl *Siri* a faſei o'i dy ef. Hai, hai, ebr un o'r Diawliaid, ni wyddom haeddiant y rhan fwya o'ch hynafiaid chwi: pedfaſechwi tebyg i'ch Tad neu i'ch Gorhendaid, ni feiddiaſem ni mo'ch cyffwrdd. Ond nid ychwi ond aer y Fagddu, fflamgi brwnt, prin y teli roi i ti letty noſwaith, ebr ef, ac etto ti a gei ryw gilfach i aros dydd; chyda'r gair, dyma'r Ellyll yſcethrin a'i bigfforch yn rhoi iddo wedi deg tro ar hugain yn yr Wybr danbaid; onid oedd e'n deſcyn i geudwll allan o'r golwg. Mae hynny'n abl, ebr y llall, i *Scweir* o hanner gwaed; ond gobeithio y byddwch well eich moes with *Farchog*, a fu'n gwaſanaethu'r Brenin fy hun, a deuddeg o Ieirell, a deg a deugain o Falchogion a fedra'i henwi oni hên Stent fy hun. Os eich hynafiaid a'ch hên Stent yw'r cwbl fy gennych iw ddadleu gellwch witheu gychwyn yr un ffordd, ebr un o'r Diawliaid. Oblegid nid ym ni'n coffo odid o hên Stât fawr, nad rhyw Orthrymmwr, neu Fwrdriwr, neu Garnlleidr a'i dechreuodd; a'i gadel i rai cyn drawſed a hwytheu, neu i bemyliaid ſegurllyd, neu fôch meddwon. Ac i faentumio'r mawredd afradlon, rhaid gwaſcu'r *Deiliaid* a'r *Tenantiaid*; os bydd *yno* nac Ebol llws, na Buwch foddgar, rhaid i Meiſtres eu cael hag *blys*: A da os dianc y Merched, iê, a'r

Gwragedd rhag blys y Meiſtr. A'r man *uchelwyr* o'u hamgylch, rhaid i'r rheiny naill ai eu hofer-ganlyn, ai mechnio troſtynt iw hanrheithio 'u hunain a'u heiddo, ai gwerthu eu treſtadaeth, neu ddiſgwyl eas a chilwg, a'u llurgynio i bob oferſwydd yn eu byw. O! fon'ddigeiddied y tyngant i gael eu coelio gan eu *Cariadau* neu gan eu *Siopwyr!* a chwedi ymwychu, oh goegced yr edrychant ar lawer o gryn Swyddogion gweledig ac Eglwyſig, chwaethach ar y bobl gyffredin! fel pettei rheiny ryw bryfed wrthynt hwy. Gwae finneu! ai nid unlliw pob gwaed? Ai nid yr un ffordd rhwng y trwnc a'r baw y daethochwi i gyd allan? Er hyn oll trwy'ch cennad, ebr y Marchog, mae ymbell enedigaeth yn llawer purach na'r llall. I'r Deſtryw mawr oes bliſcyn o honoch oll well na'u gilydd, ebr y dieflyn; rŷch i gyd oll wedi'ch diwyno a *phechod gwreiddiol* oddiwrth *Adda*. Ond Syr, ebr ef, os yw'ch gwaed chwi'n *well* na gwaed arall, bydd ynddo lai o ſcum wrth ferwi, trwochwi'n y man, ac os oes *rhagor*, mynnwn chwilio pob rhann o honoch trwy ddw'r a than. Ar y gair, dyma Ddiawl ar lun eerbyd tanllyd yn ei dderbyn, a'r llall o wawd yn ei godi ef iddo, ac ymaith ac ynte fel mellten. Ymhen ennyd, parodd yr Angel i mi edrych, a gwelwn y Marchog druan yn cael ei drwytho'n erchyll mewn anferthol ffwrnes ferwedig, gyda *Chain*, *Nimrod*, *Eſau*, *Tarquin*, *Nero*, *Caligula*, a'r lleill a ddechreuodd ddwyn *acheu*, a chodi *arſeu bonedd*. Encyd ymlaen parodd fy nhwyſog i mi ſpio trwy dollgraig ac yno gwelwn dyrfa o *Furſennod* yn ymſionci, yn gwneud ac yn dad wneud eu holl ffolodd ar y ddaiar gynt; rhai'n min-grynny, rhai a heirn yn tynnu eu haelieu, rhai'n ymiro, rhai'n clyttio'u

hwynebeu

hwynebu ac yſmottieu duon i wneud i'r melyn edrych yn wynnach; rhai'n ceiſio torri'r drych a chwedi'r holl boen, yn ymliwio ac yn ymfritho wrth weled eu hwynebe'n wrthunach na'r cythreuliaid, a rwygent a'u 'winedd a'u dannedd yr holl wrîd goſod, a'r yſmottieu, a'r erwyn, a'r cîg tan un; ac a oerleiſient allan o fâth: Y felltith fawr, meddei un, i Nhâd a wnaeth i mi briodi hên gelffaint yn eneth, gwaith hwnnw'n eodi blys heb allu mo'i dorri a'm gyrrodd i yma. Mîl o felltithion ar fy Rhieni, meddei'r llall, am fy ngyrru i'r *Fonachlog* i ddyſcu diweirdeb; ni faſei waeth iddynt fy ngyrru at *Rowndiad* i ddyſcu bod yn *hael*, neu at *Gwacer* i ddyſcu bod yn *foeſol*, na'm gyrru at *Bapiſt* i ddyſcu *oneſtrwydd*. Y Deſtryw gwyllt, ebr un arall, a ddycco fy Mamm, am ei balchder cybyddus yn rhwyſtro i mi gael gwr wrth fy rhaid, ac felly gwneud i mi ledratta'r peth a allaſwn ei gael yn oneſt. Uffern, a dwbl Uffern i'r Tarw cynddeiriog o Wr bonheddig a ddechreuodd gynta fy hudo i, meddei'r drydedd, oni baſei i hwnnw, rhwng têg a hagr dorri'r cae, nid aethwn i'n gell egored i bawb, ac ni ddaethwn i'r gell gythreulig yma! ac yna ymrwygo eilwaith. Ond eraill wedi ymbobi aent o dwll i dwll tan gynheigca, a thynnent y Diawliaid rhwng eu traed, weithieu ffon rheiny rhagddynt, ac weithieu rhoent iddynt dân at dân, cynnient hwy ag ebillion o ddur gwynias oni chaent ddigon o ymrygnu a'u perfedd yn sîo ac yn ffrîo. yr oedd yn rhyhwyr genni ymadel a ffiaid ganel y geiſt cynhaig. Ond cyn mynd nemor ymlaen, bu ryfedd genni weled carcharlwyth arall o Ferched dau ffieiddiach na hwytheu. Rhai wedi mynd yn llyffaint, rhai'n Ddreigieu. rhai'n Seirph yn noſio ac yn chwibianu,

yn glafoerio ac yn ymdolcio mewn merbwll drewllyd, mwy o llawer na *Llynn-Tegid*. Aftolwg, ebr fi, beth boffibl i'r rhain fod? Mae yma, ebr ynte, bedair rhywogaeth *benigamp* o Ferehed, heb law eu cynffonion: 1. *Carn-butteiniaid*, a fu'n cadw mân fudrogod tanynt, i gael gwerthu'r un morwyndod ganwaith; a rhai o'r Putteiniaid pennaf yma o'u hamgylch. 2. *Meiſtreſod y chwedleu*, ac o'u cwmpas fyrdd o wrachod y newyddion. 3. *Marchogeſau*, a phacc o lyfrgwn llechwrus o'u deutu, canys nid ai ddyn erioed ar eu cyfyl ond rhag eu hofn. 4. *Yſcowliaid*, wedi mynd yn gan erchyllach na Nadroedd yn cnoi fyth dy-rinc, dy-rinc au colyn gwenwynig. Tygaſwn fod *Lucifer* yn weddeiddiach Brenin, na rhoi Gwraig fonheddig o'm gradd i gyda'r man ddiawleſod hyn, ebr un, ſyrn debyg, ond ei bod hi'n llawer gerwinach na *Sarph hedegod*. Oh! na yrrei ſo yma ſeithgant o'r Diawliaid dihira'n Uffern yn gyfnewid am danati uffernbry g'wenwynig, meddei ryw Wiber withun arall! O, diolch i chwi'n fawr, ebr un Cawr o Gythreul oedd yn clywed, 'rym ni'n cyſri'n lle a'n haeddiant yn beth gwell: Er y poenech chwi bawb cynddrwg a ninneu er hynny ni chollwn i etto mo'n Swydd i chwi. Ac hefyd, eb yr Angel yn ddiſtaw, mac achos arall i *Lucifer* roi cadwraeth ddichlin ar y rhain, rhag iddynt os torrant allan yrru holl Uffern bendramwnwgl Oddiyma; ni aethom ar i wared fyth, lle gwelais Ogo anferthoi, ac ynddi'd fâth ddrygnad eehrys na chlywſwn i etto mo'i gyffelyb, gan dyngu, a rhegu, a chablu, ac ymddanheddu, ac ochain, a gwaeddi Pwy ſy yma, ebr fi? Dyma, ebr ef, Ogo'r *Llâdron*; yma mae myrdd o *Fforeſtwyr*, *Cyfreithwyr*, *Stiwardiaid*, a'r hên *Suddas* yn eu myſc

myſc; a blin iawn oedd arnynt weled y ffardial *Dahwriaid* a'r *gwehyddion* uwch eu llaw ar ſcafell eſmwythach. Prin y cawſwn ymdroi, nad dyma Geffyl o Ddiawl yn dwyn *Phyſygwr* a *Phothecari*, ac yn eu taflu ymyſc y *Pedleriaid* a'r *Hwndlwyr* ceſtyleu am werthu war ddrwg *fethedig*: Ond dechreuaſant rwgnach eu goſod mewn cwmpeini mor wael. Arhowch, arhowch, ebr un o'r Diawliaid, chwi haeddech le amgenach, ac a'u taflodd hwy i wared i blith y *Cwncwerwyr* a'r *Mwrdrwyr*. Yr oedd yma fyrdd i mewn am chwareu *Diſieu ffeilſion*, a *chuddio Cardieu*: Ond cyn i mi gael dâl fawr ſulw, clywn yn ymyl y drws anferth drwp a thrwſt, a gyrru *hai, hai, hai, ptrio-how, ho, ho o o o hwp*. Trois i edrych beth oedd; methu canfod dim ond yr Ellyllon corniog. Goſynnais i'm Twyſog ai *Cwcwaldiaid* oedd; gyda'r Diawliaid? Nage, ebr of, mae y rheiny mewn cell arall, *Porthmyn* yw y rhain, a fynnei ddianc i le Torrwyr y Sabbath, ac a yrrir yma o'u hanfodd; gyda'r gair, edrychais a gwelwn eu penglogeu'n—llawn o *gyrn Defed* a *gwarthog*, a dyma'r Gyrrwyr yn eu taflu hwy i lawr tan draed yr Yſpeilwyr gwaedlyd; llechwch yna, ebr un, er maint yr ofnech i ladron ar *ffordd Llundain* gynt, etto nid oeddechwi ond y fath waetha o *ladron ffordd fawr* eich *hunain*, yn byw ar y *ffordd* ac ar *ledrad*, iê ac ar *lâdd* Teuluoedd tlodion, wrth ddal llawer, o gegu newynllyd yn egored i ddiſgwyl eu heiddo'u hunain iw porthi, a chwithe'n y *Werddon* neu yn y *King's-Bench* yn chwerthin am eu penneu, neu ar y ffordd yn eich Gwîn a'ch Putteiniaid. Wrth ymadel a'r Ogo greiſionboeth, cês olwg ar y Walſa benna, ond un a welais i yn Uffern am echryſlawn ffieidd-dra drewedig, lle'r oedd

cenfaint

cenfaint o fôch *meddwon*, melltigedig yn chwydu ac yn llyncu, yn llyncu ac yn chwydy llyſnafedd erchyll fyth heb orphwys. Y twyll neſa oedd letty'r *Glothineb*, lle'r oedd *Diſeſ* ai gymmeiriaid ar eu torreu'n bwytta baw a thân bob yn ail fyth heb ddim gwlybwr. Ddant neu ddau'n îs, yr oedd Cegin rôſt helaeth iawn, a rhai'n rhôſt ac yn ferw, eraill yn ffrio ac yn fflammio mewn Simnai fyrn dambaid: Dyma le'r *Anrhugarog* a'r *Anheimladwy*, eb yr Angel; a throes dippyn ar y llaw aſſwy, lle'r oedd cell oleuach nac a welſwn i etto yn Uffern: Gofynnais p'le ydoedd? Trigfa'r *Dreigieu vffernol*, eb yr Angel, ſy'n chwyrnu ac yn ymchwerwi, yn rhuthro ac yn anrheithio'u gilydd bob munyd. Mi neſſeais, ac och a'r olwg anrhaethadwy oedd arnynt, y tân byw yn eu llygaid oedd y goleuni oll: Hil *Adda* yw rhain, ebr fy nhwyſog, yn *Yſcowliaid*, a *Gwyr digllon* cynddeiriog: Ond d'accw, ebr ef, rai o hen fil y Ddraig fawr *Lucifer*: ac yn wîr, ni wyddwn i ddim rhagor hawddgarwch rhwng y naill a'r llall. Y Seler neſa'r oedd y *Cybyddion* mewn dirboen echrys, gerfydd eu calonne 'nglyn wrth giſtieu o arian tanllyd, a rhwd y rheiny'n eu hyſu fyth heb ddiwedd, megis na feddyliaſent hwytheu am ddiwedd fyth yn eu caſclu: ac yrwan ymddryllio'r oeddid yn waeth na chynddeiriog gan ofid ac edifeirwch. Is law hyn, yr oedd bachell ſwrth lle'r roedd rhai o'r *Potecariaid* wedu eu malu a'u gwrthio i bottieu priddion mewn *album Græcum*, a baw Gwyddeu a Môch, a llawer ennaint hendrwm. Ymlaen ar i wared fyth yr oeddem ni'n teithio hyd y Gwyllt diniſtriol, trwy aneirif o arteithiau anrhaethol a thragwyddol, o Gell i Gell, o Seler i Seler, a'r ola fyth yn rhagori ar y lleill o erchyll-

dod

dod anferth: o'r diwedd i olwg *cyntedd* dirfawr anhirionach fyth na dim o'r blaen: Cyntedd trahelaeth ydoed, a hyllſerth, a gwg ei redfa at ryw *gengl* ddugoch anghredadwy o wrthuni ac erchylltod, yno'r oedd y *Brenhinllys*. Ymhen ucha'r brenhingwrt melltigedig; ymyſc miloedd o erchyllion eraill wrth lewyrch fy nghydymaith, gwelwn yn y fagddu *ddau droed* anſerthol o anferthol o faint! yn cyrraedd i doi'r holl Ffurfafen uffernol. Gofynnais i'm Twyſog beth allei'r anferth hwnnw fod. Wel', ebr yntef, ti a gei helaethach golygiad ar yr *Anghenfil* yna wrth ddychwelyd: Ond tyred ymlaen yrwan i weled y Brenhinllys. A ni'n mynd i wared hyd y cyntedd ofnadwy, clywem drwſt o'n hôl, megis llawer iawn o bobl; wedi i ni oſcoi iw gollwng hwy ymlaen, gwelwn bedwar llu neilltuol, ac erbyn ymorol pedair Twyſoges y *Ddinas ddyhenydd* oedd yn dwyn eu deiliaid yn anrheg iw Tâd. Mi adnabûm lû y Dwyſoges *Balchder*, nid yn unic am eu bôd yn mynnur *blaen* ar y lleill, ond hefyd wrth eu gwaith yn pendwmpian bob yn awr eiſieu edrych tan eu traed: Yr oedd gan *hon* fyrdd o Frenhinoedd, Pennaethiaid, Gwyr llys, Bonheddigion a Ffroſtwyr, a llawer o *Gwaceriaid*, a Merched aneirif o bôb gradd. Y neſa oedd y Dwyſoges *Elw*, a'i llun henffol iſelgraff, a llawer iawn o hîl *Sion lygad arian*, *Llogwyr*, *cyfreithwyr*, *cribddeilwyr Goruwchwilwyr*, *Fforeſtwyr*, *Putteiniaid* a rhai *Eglwyſwyr*, Neſa i hynny oedd y Dwyſoges ſwyn, *Pleſer* a'i Merch *Ffolineb*, yn arwain ei deiliaid, yn *chwaryddion* Diſieu, Cardieu, towlbwrdd Caſtieu hûg, yn *brydyddion*, *cerddorion*. *henchwedleiwyr*, *meddwon*, Merched *mwynion*, *maſweddwyr*, *teganwyr*, a mil fyrddiwn o bôb rhyw deganeu, i ſod weithian

yn

yn *beiriannau penyd* i'r ynfydion colledig. Wedi i'r tair hyn fyned a'u carcharorion i'r Llys i dderbyn eu barn, dyma *Rægrith* yn olaf oll, yn arwain cadfa luoſoccach na'r un o'r lleill, o bob cenedl ac oed, o Dre a Gwlad, Bonheddig a Gwreng, Meibion a Merched, ynghynnſon y llu dau wynebog, ninneu aethom i olwg y Llys trwy lawer o Ddreigieu, ac Ellyllion corniog, ac o Gawri Annwn, Porthorion duon y *Fall gyrch eirias*, a minne'n llechu'n ofalus iawn yn fy llengêl, ni aethom i mewn i'r Adail erchyll, aruthrol a thra aruthrol o erwindeb oedd bob ewrr, y murieu oedd anſad Greigieu o Ddiemwnt eirias, y llawr yn un galleſtr gyllellog anoddef, y pen o Ddur tanllyd yn ymgyfwrdd fel bwa maen o fflammau gwyrddlas a dugoch, yn debyg ond ei faint ai boethder i ryw anferth Bobty cwmpaſog erchyll. Gyferbyn a'r drws, ar Orſeddfainc fflamllyd, yr oedd y *Fall fawr* a'i brif angylion colledig o'u ddeutu ar feincieu o dan tra echryſlawn yn eiſte 'n ôl eu graddeu gynt yn Gwlad y goleuni, yn genawon *hawddgar*, ni waeth i ti hynny nac oſer-bregeth i geiſio datcan mor yſceler yſcethrin oeddynt; a pha hwya yr edrychwn ar un o honynt, ſaith erchyllach fyth. Yn y canol, uwchben *Lucifer*, yr oedd *Dwrn* mawr yn dal bollt tra ofnadwy. Y Tywyſogeſau wedi gwneud eu moes a ddychwelaſant i'r Byd at eu Siars yn ddiymaros. A phan gynta'r ymadawſant dyma Gawr o Ddiawl ceghir ar amniaid y Brenhin yn rhoi bonllef uwch na chan ergyd o Ganon, cufuwch pe poſſibl, a'r Udcorn ddiweddaf, i gyhoeddi 'r Parliament uffernol; ac yn ebrwydd, dyma giwed Annwn wedi llenwi 'r Llys ar cyntedd ymhob *llun*, yn ol delw a chyffelybiaeth y *pechod penna* 'i garei

pob

pob un i wthio ar ddynion. Wedi gorchymmyn *goſteg*, dechreuodd *Lucifer*, a'i olwg ar y Pennaethiaid neſa atto, lefaru 'n raſuſol fel hyn: chychwi Bennaethiaid Annwn, Twyſogion *Fagddu Anobaith!* Os collaſom y meddiant lle buom gynt yn diſcleirio hyd Teyrnaſoedd gwynion *Uchelder*, er maint, etto gwych oedd ein cwympni, nid oeddem ni'n bwrw am ddim llai na'r *cwbl*; ac ni chollaſom mo'r cwbl chwaith. canys wele Wledydd helaeth a dyfnion hyd eitha Gwyllt-oedd *Deſtryw* fawr, tan ein rheolaeth ni etto. Gwyr iw, mewn dirboen anaelef yr ym ni'n teyrnaſu, etto gwell gan yſprydion o'n uchder ni *deyrnaſu* mewn penyd na *gwaſnaethu* mewn eſmwythyd. Ac heblaw *hwn*, dyma ni agos ac ennill Byd *arall*, mae mwy na phum rhann o'r *Ddaiar* tan fy maner i er's talm. Ac er darfod i'r Gelyn hollalluog yrru ei Fab ei hun i farw troſtynt, etto'r wyſi wrth fy nheganeu yn mynnu dêg enaid am un a gaffo ſo gyda'i Fâb croeſhoeliedig. Ac er na chyrraeddwn i gyffwrdd Ef yn y Goruchafon, ſy'n ergydio'r taraneu anorchfygol; etto melys yw dial *rywfforddi*: Gorphenwn inneu ddifa'r gweddill ſy o Ddynion yn ffafr ein Deſtrywiwr ni. Mae'n gôf genni'r amſer y paraſoch iddynt loſci yn fyddinoedd, ac yn ddinaſoedd, ie, i Ddaiarlwyth cyfan ddeſcyn trwy'r Dw'r, attom ni i'r tân. Ond yrwan er nad yw'ch *nerth* a'ch *creulonder* naturiol ronyn llai etto, rychwi wedi rhyw ddiogi: Ac oni bai hynny gallaſem fod er's talm wedi difa'r ychydig rai duwiol, ac wedi ynnill y Ddaiar i fod yn un â'r Llywodraeth fawr yma. Ond gwybyddwch hyn, weinidogion duon fy nigofaint, oni byddwch glewach a phryſurach weithian a byrred yw'n amſer ni, myn *Annwn* a *Deſtryw*, ac myn y *Fagddu fawr dragwyddol*

dragwyddol, cewch brofi pwys fy llid arnoch eich hunain yn gyntaf, mewn poeneu newyddion a dieithrol i'r hyna o honoch, ac ar hyn fe guchiodd oni chwmylodd y Llys; yn ſaith dduach nac o'r blaen. Yn hyn cododd *Moloc* un o'r Pennaethiaid cythreulig, ac wedi gwneud i foes i'r Brenin, ebr ef, O Empriwr yr Awyr, Rheolwr mawr y Tywyllwch, nid amheuodd neb erioed fy 'wllys i at eitha malis a chreulonder, canys dyna mhleſer i 'rioed: Odiaeth oedd genni glywed plant yn trengu yn y tân, megis gynt pan aberthid hwy i mi tu allan i *Gaerſalem*. Hefyd wedi ir Gelyn croeſhoeſiedig ddychwel i'r Uchelder, mi a fûm yn amſer dêg o Ymerodron yn lladd ac yn lloſci ei ddilynwyr ef, i geiſio difa't *Criſt'nogion* oddiar wyneb y ddaiar, tra thycciodd i mi. Gwneuthum ym *Mharis* ac yn *Lloegr* ac amryw fanneu eraill lawer lladdfa fawr o honynt wedi hynny: Ond beth ydys nês? tyfu a wnai'r Pren pan dorrid ei geincieu: Nid yw hyn oll ond dangos dannedd heb allu mor brathu. Pſhaw, ebr *Lucifer*, baw i'r fath luoedd digalon a chwi, ni hydera'i arnochwi mwy. Mi wna'r gwaith fy hun, ac a fynna'r orcheſt yn ddi rann: Af i'r Ddaiar yn fy mherſon brenhinol fy hun, ac a lyncaf y cwbl oll, ni cheir dyn ar y ddaiar i addoli'r Goruchaf mwy: ac ar hyn fe roes hedlam cynddeiriog i gychwyn, yn un ffurfafen o dân byw, Ond dyma'r *Dwrn* uwch ei ben yn gwyntio'r *fôllt* ofnadwy onid oedd e'n crynu 'nghanol ei gynddaredd, a chyn i fynd e'n eppell lluſcodd llaw anweledig y Cadno yn ei ôl heb waetha 'i ên gerfydd ei gadwyn: ac ynte'n ym gynddeiriogi'u ſaith pellach, a'u lygaid yn waeth na dreigieu, mwg dudew oi ffroeneu, tan gwyrddlas oi gêg a'i berfeddeu, gan gnoi ei gadwyn yn

ei ofid, a ſibrwd cabledd echryſlawn, a rheg-feydd tra arſwydus. Ond wrth weled ofered oedd geiſio'a thorri neu ymdynnu a'r Hollalluog, ſe aeth iw le, ac ymlaen yn ei ymadrodd beth gwareiddiach, etto'n ddau mileiniach. Er na threchei neb ond y Taranwr Hollalluog ſy nerth i am dichell; etto gan fod yngorfod ymoſtwng i *hwnnw* heb y gwaetha; Nid oes gennif mo'r help, ond mi a ga ſwrw fy llîd yn îs ac yn nês attaf, ai dywallt yn gafodydd ar y rhai ſy euſys tan fy maner i, ac ynghyrraedd fynghadwyn, Codwch witheu Swyddogion Deſtryw, Rheolwyr y tan anniffoddadwy, ac fel y bo fy llîd a'm gwenwyn i yn llenwi, a'm malis yn berwi ailan tenwch chwitheu'r cwbl oll yn ddichlin rhwng y Damniaid, ac yn benna'r *Criſtnogion*; cymmellwch y peirianneu penyd hyd yr eithaf, dyfeiſiwch, dyblwch y tân a'r berw oni bo'r peirie'n codi'n damchweydd tros eu penneu, a phan fônt mewn eitha poen anrhaethawl yna gwawdiwch, gwatwerwch hwynt, a edliwiwch, a phan ddarffo'i chwi'r cwbl a fedroch o ddirmyg a chwerwder bryſſiwch attafi a chewch ychwaneg. Baſei gryn *ddiſtawrwydd* yn Uffern er's ennyd, a'r poene 'n hyder creulonach wrth eu cadw i mewn. Ond yrawn torrodd yr Oſteg a baraſei *Lucifer*, pan redodd y Cigyddion erchyll fel Eirth newynllyd cynddeiriog ar eu carcharorion, yna cododd y fath och, och, och! a'r fath *wae* ac *ufda gyffredin*, mwyn a ſŵn llifddyfroedd neu dwrw daiargryn, onid aeth Uffern yn faith erchyllach. Minneu a lewygaſwn oni baſei i'm hanwyl Gyfaill ſe achub, cymmer ebr ef, lawer yrawron i'th nerthu i weled petheu garwach etto na rhain. Ond prin y daethei'r gair o'i eneu ef, pan wele'r Nefol *Gyfiawnder* ſy uwch ben y *Geulan* yn cadw drws

drwſ. Uffern, yn dyfod tan ſcwrſio tri o ddynion a gwiail o ſcorpionau tanllyd. Ha, ha! ebr *Lucifer*, dyma drywy; parchedig, y teilyngodd *cyfiawnder* ei hun eu hebrwng i'm Teyrnas i; Och ſi fyth, ebr un o'r tri, pwy oedd yn ceiſio ganddo ymboeni? Ni waeth er hynny ebr *ynte*, (a golwg a wnaeth i'r Diawliaid ddelwi a chrynu onid oeddynt yn curo'n eu gilydd) wllys y Creawdr mawr oedd i mi fy hun ddanfon y fath Fwrdrwyr melltigedig iw cartre Syre, ebr ef, wrth un o'r Cythreuliaid, egorwch i mi ffollt y Mwrdwr lle mae *Cain*, *Nero*, *Bradſhaw*, *Bener* ac *Ignatius* ac aneirif eraill o'r cyffelyb. Och, och! ni laddaſom ni neb, ebr un; Diolch i chwi, eiſieu cael amſer, am ddarfod eich rhwyſtro, ebr *Cyfiawnder*, Pan egorwyd yr Ogo, daeth allan y fath damchwa echrys o fflammeu gwaedlyd, a'r fath waedd a phettei fil o Ddreigieu'n rhoi'r ebwch ola wrth drengu. Ac wrth i *gyfiawnder* fynd heibio'n ôl, a,r hanner tro fe chwythodd y fath dymmeſtl o Gorwyntoedd tanllyd ar y Fall fawr ai holl Bennaethiaid, oni chippiwyd ymaith *Lucifer*, yna *Belzebub*, *Satan*, *Moloc*, *Abaddon*, *Aſmodai*, *Dagon*, *Apollyon*, *Belphegor*, *Mephoſtophiles* a'r holl brif-gythreuliaid eraill, ac a'u pendifadwyd oll i ryw Sugn-dwll can ffieiddiach ac erchyllach ei olwg a'i archfa oſnadwy na dim oll a'r a welſwn i, a hwnnw'n cau ac yn egoryd yng-hanol y Llys. Ond cyn i mi gael gofyn; Dyma, eb yr angel, *Dwll* ſy'n deſcyn i Fyd mawr arall. Beth ebr ſi ertolwg y gelwir y Byd hwnnw? Fo'i gelwir ebr ef *Annw'n* neu *Uffernneitha*, cartre'r Cythreuliaid, ac lle'r aethant yr awron: A'r holl *Wylltoedd* mawrion y daethoſti tros beth o honynt, a elwir *Gwlâd yr Anobaith*, lle a dreſnwyd i Ddynion damnedig hyd *Ddyddfarn*, ac

yna

yna fe ſyrth hon yn un a'r *Uffern eithr* ddiwaelod. Yna daw un o henom ninneu ac a gau ar y *Diauliaid* a'r *Damniaid* ynghyd, ac byth yn dragywydd ni egorir arnynt mwy. Ond yn y cyfamſer maent yn cael cynnwyſiad i ddyfod i'r Wlad oerach yma i boeni'r eneidieu colledig. Ie maent yn fynych yn cael cennad i fynd i'r Awyr ac o gwmpas y ddaiar i demtio dynion i'r ffyrdd diniſtriol ſy'n tywys i'r diadlam Garchar tra ſcethrin hwn. Ynghanol hyn o hanes, â mi'n ſynnu fod *Cêg Annwn* yn rhagori cymmaint ar *Safn Uffern ucha*, mi glywn dramawr drwſt a ſeu ac ergydion geirwon o un cwrr, ac megis taraneu crôch yn eu hatteb o'r cwrr arall, a'r Creigieu anghenol yn ddiasbedan. Dyma ſwn rhyfel, ebr fi, os bydd rhyfel yn Uffern. Bydd ebr ef, ac nid poſſibl fod yma ond rhyfel gwaſtadol. A ni'n cychwyn allan i edrych beth oedd ymatter, gwelwn Gèg Anw'n yn ymagor, ac yn bwrw fynu filoedd o ganhwylleu gwyrdd hyllion y rhain oedd *Lucifer* a'i Benaethiaid wedi gorfod y dymmeſtl. Ond pan glybu e'er trwſt Rhyfel, fe aeth yn laſach nac Angeu, ac a ddechreuodd alw a hêl byddinoedd o'i hên Sawdwyr profedig i oſtegu'r cythryfwl; yn hynny dyma fe'n taro wrth gorgi o ddieflyn bâch, a ddianghaſei rhwng traed y rhyfelwyr: Beth yw'r matter, ebr y Brenin? Y fath fatter ac a berygla eich coron, oni edrychwch attoch eich hun ----- ynghynffon hwn dyma redegwas cythreulig arall yn crugleiſio,'r ychwi'n dyfeiſio adonyddwch i eraill, edrych weithion at eich llonydd eich hun; daccw'r *Tyrciaid*, y *Pabiſtiaid* a'r *Rowndieid* llofruddiog, yn dair byddin yn llenwi holl waſtadedd y *Fagdau*, ac yn gwneud y mawrddrygeu'n gyrru pôb pêth dinbenſtrellach. Pa fodd y daethant allan, ebr y Fall

fawr, tan edrych yn waeth na *Demigorgan*? Y Papiſtiaid ebr y gennad ni wn i pa fodd, a dorraſant allan o'u *Purdan*, ac yna o achos hen lid aethant i ddifachio ceuddrws *Paradwys Mahomet*, a gollyngaſant y *Tyrciaid* allan o'u carchar, ac wedi yn y Cythryfwl caed rhyw ffael i hîl *Cromwel* dorri allan o'u celloedd. Yna troes *Lucifer* ac a edrychodd tan ei Orſeddfainc lle'r oedd yr holl Frenhinoedd ćolledig, ac a barodd gadw *Cromwel* ei hun yn ei ganel, a hefyd holl *Imerodron* y *Tyrciaid* yn ddiogel. Felly hyd wyll-toedd duon y Tywyllwch pryſurodd *Lucifer* a'i luoedd, a phawb yn cael *goleu* a *gwres* ar ei gôſt ei hun, wrth yr anferth drwſt cyſeiriodd yn lew tu ac attynt; yna gorchmynwyd *geſteg* yn enw'r Brenin agofynnodd *Lucifer*, beth yw achos y Cythryfwl yma yn fy Nheyrnas i? Rhyngei fodd i'ch Mawrhydi uffernol, ebr *Mahomet*, dadl a ddechreuodd rhyngofi a'r Pâb *Leo* p'run a wnaethei i chwi fwya o waſanaeth ai f' *Alcoran* i, ai creſydd *Rufeid*: ac yn hynny, ebr ef dyma yrr o *Rowndieid* wedi torri eu carchar yn y trwſt, ac yn taro i mewn hwytheu, gan daeru'r haeddei eu *Lêg* a'u *Cofenant* fwy parch ar eich llaw nac yr un: ſelly o *ymdaeru* i *ymdaro* o *eiriau* i *arfau*. Ond weithian gan i'ch Mawrhydi ddychwelyd o *Annwn*, Mi a rof y matter arnochwich Hunan; Arhowch, ni ddarfu i ni â chwi ſelly ebr Pâb *Julius*, ac atti hi winedd a dannedd eilwaith yn gynddeiriog, onid oedd yr ergydion megis daiargryn, a'r tair byddin Damniaid hyn yn darnio'u gilydd, ac yn aſſio eilwaith ſel nadroedd, ar draws y tarennydd eirias danheddog, nes peri o *Lucifer* iw hên Sawdwyr, Cawri Annwn eu tynnu oddiwrth eu gilydd, ac ni bu hawdd. Pan ddiſtawodd y derfyſc dechreuodd y Pâb *Clement* leſaru.

O

O Empriwr yr Erchyllion, ni wnaeth un gadair erioed ffyddlonech a chyffredinach gwaſanaeth i'r Goron uffernol, nac a wnaeth Eſcobion *Rufain*, tros lawer o'r Byd er's uncant o'r ddeg o flynyddoedd, Gobeithio na oddefwch î neb ymgyſtadlu â ni am eich ffafr. Wel', ebr *Scityn* o lwyth *Cromwel*, er maint gwaſanaeth yr *Alcoran* er's wythcant o flynyddoedd, ac *ofer goelion y Pâb* er cyn hynny, etto gwnaeth o *Gofenant* fwy er pan ddaeth al'an. Ac mae pawb yn dechreu mameu a diflaſu ar y lleill, ond yr ym *ni* etto ar gynnydd hyd y byd, ac mewn grym yn Ynys eich Gelynion, ſef *Prydain*, ac yn *Llundain* y Ddinas ddedwydda ſy tan Haul. Hai, hai, ebr *Lucifer*, os da clywai 'rychwi yno ar fynd tan gwmmwl chwitheu Ond beth bynnac a wnaethoch mewn teyrnaſoedd eraill, ni fynnai mo'ch gwaith yn cythryblio Nheyrnas î. Am hynny gwaſtattewch yn frau tan eich perygl o fwy o boeneu corphorol ac yſprydol. Ar y gair, gwelwn lawer o'r Diawliaid, a'r hôll Ddamniaid yn taro'u cynffonneu rhwng eu carneu, ac yn lladatta bawb iw dwll rhag ofn cyſnewid waeth. Yna wedi peri cloi'r cwbl yn eu llocheſau, a chospi a newid y Swyddogion diofal a'u gollyngaſei hwynt i dorri allan, dychwelodd *Lucifer* a'i Gynghoriaid i'r Brenhinllys, ac eiſteddaſant eilwaith yn ol eu graddeu ar y gorſeddfeincieu lloſc; Ac wedi peri goſteg. a chlirio'r lle, dyma glamp o Ddiawl yſcwyddgam yn goſod cetn llwyth o garcharorion n'wyddion o flaen y Barr. Ai dynaeʼr ffordd i *Baradwys*, ebr un? Canys ni wyddeint amcan pleʼr oeddynt. Neu os y *Purdan* fw yma, ebr un arall, mae gennym ni gynnwyſiad tan law'r *Pâb* i fynd i Baradwys yn union, neb aros yn un lle funyd: am hynny dangoſ-

wch i ni'n ffordd, onide myn bawb y Pap ni a wnawn iddo'ch cospi. Ha, ha, ha, he. --- ebr wythgant o Ddiawliaid, a *Lucifer* ei hun a wahanodd ei scithredd hannerllath i ryw chwerw chwerthin. Synnodd y lleill wrth hyn; ond, ebr un, wele, os collasem y ffordd yn y tywyll, ni a *dalwn* am ein cyfarwyddo. Ha, ha, ebr *Lucifer*, cewch dalu'r ffyrling eitha cyn yr eloch; (ond erbyn chwilio, yr oedd pob un wedi gadel ei glôs ar ei ol.) Gadawsoch *Baradwys* ar y llaw chwith tu ucha i'r Mynyddoedd fry, ebr y Fall, ac er hawsed dyfod i wared yma, etto nesa i amhoffibl yw myned yn ol, gan dywylled a dryfed yw'r Wlad, a maint sy o Elltydd heirn tanllyd ar y ffordd, a Chreigieu dirfawr yn crogi trosodd, a splentydd dibyn o rew anhygyrch, ac ymbell raiadr serthgry, sy'n rhydost oll i 'mgribinio trostynt oni byddei gennych ewinedd diawledig o hyd. Hai, hai, ebr ef, ewch a'r pembyliaid hyn i'n *Paradwys ni* at eu cymeiriaid. Ar hyn, clywn lais rai'n dyfod tan dyngu a rhegu'n greulon O Diawl! gwaed Diawl! mil can mil o Ddiawl! mil myrddiwn o Ddiawl êl a m os af! ac er hynny dyma'u teflu chwapp ger bron. Dyma, ebr y Ceffyl, i chwi bwn o gysta tanwydd a'r gore'n uffern. Beth ydynt, ebr *Lucifer*, Meistr y gelfyddyd sonheddigaidd o *dyngu a rhegu*, ebr yntef, Gwyr a fedr *iaith Uffern* cysta a ninneu. Celwydd yn eich gen myn Diawl ebr un o honynt. Syre, a gymerwchwi f' enw i'n ofer ebr y *Fall* fawr? Hai, ewch a bechi wch hwy ynghrôg gorfydd eu tafodeu wrth clogwyn eirias accw, a byddwch parod iw gwa sanaethu, os Diawl a alwant, neu os mîl o Ddiawl, hwy a gant eu gwala. Pan aeth y rhain dyma Gawr o Gythreul yn gwaeddu am glirio

Bar

Barr, ac yn taflu yno lwyth o Wr. Be'ſy yna, ebr *Lucifer?* *Tafarnwr*, ebr ynteu. Pa beth, ebr y Brenin, un Tafarnwr? Lle byddeint yn dyfod o feſur chwemil a ſeithmil, Onid ychwi allan er's dêg mhlynedd, Syre, ac heb ddwyn ini ond un? a hwnnw'n un a wnaeſhei i ni chwaneg o waſanaeth yn y byd na chwi ddrewgi diog. 'Rych chwi'n rhy deg i'm bwrw cyn ſy ngwrando, ebr ynteu. Ei roeſid ond hwn yn ſy ſiars i, ac wel'dyma ſi'n rhydd oddiwrth hwn. Ond etto mi yrrais i chwi o Dy hwn lawr *oferwr* wedi yſed cynhaliaeth ei dylwyth, ymbell *ddiſiwr* a *chardiwr* ymball *dyngwr* tlws, ymbell *folerwr* mwyn *di-ſalis* ymbell *wâs diofol*, ymbell *forwyn grôch* yn y gegin, a mwynach na dim yn y Seler neu'r gwely. Wel, ebr y Fall fawr, er yr haeddei'r *Tafarnwr* fod ymyſc y *Gwenieithwir* odditanom ni, etto ag e'r awron at ei gymeiriaid i gell y *Murdwr gwlyb*, at lawer o *Botecariaid* a *Gwenwynwyr*, am wneud diod i ladd ei cwſmeiriaid, berwch ynte'n dda, eiſieu iddo ef ferwi ei gwrw'n well. Trwy'ch cennad, ebr y tafarnwr, tan grynu, ni haeddwn i ddim o'r fath beth; ond rhaid i trad fyw? Ai ni allechwi fyw, ebr y Fall, heb gynnwys oferedd a chwareuon, putteindra meddwdod, llyſon, cwerylon enllib a chelwydd? ac a fynnech chwi hen ufferngi, fyw bellach yn well na ninneu? Er tolwg, pa ddrwg ſy gennym ni yma nad oedd gennit titheu gartre, ond y *gôſp* yn unig? Ac o ddywodyd i chwi'r caſwir yma, nid oedd y *gwrês* a'r *berfel* uffernol ddieithr i chwi chwaith. Oni welſoch wreichionen o'n *tân ni* yn nhafodeu'r *Tyngwyr*, a'r *Yſcowliaid* wrth geiſio'u Gwyr adre. Onid oedd llawer o'r tan aniffoddadwy yngheg y *meddwyn*, yn llygad y *llidiog*, ac yngaſloch y

buttein? Ac oni allaſech weled peth o'r *eaſfa uffernol* yngharedigrwydd yr Oferwr, ac yn ſicca yn eich mwynder eich hun tu ac attynt tra pharhae ddim ganddynt, yn yſmal dod y *gwawdwyr*, ynghlôd y *cenſigenus* a'r *athrodwr*, yn addewidion yr *anllad*. neu ynghoeſeu'r *Cymdeithion dâ* ſferri tan eich byrddau. Ai dieithr genniti uffern, a thithe'n cadw uffern gartre? dôs fflamgi at dy benyd. Yn hyn dyma ddêg o Gythreuliaid yn bwrw eu beichieu ar y llawr tanbaid tan erthwch yn aruthr. Be ſy gennych yna, ebr *Lucifer*? Mae gennym ebr un o'r ceffyleu cythreulig, bump o betheu a elwid echdoe yn *frenhinoedd*. (Edrychais lawer a welwn i *Lewis* o *Fraine* yn un) Teflwch hwy yma, ebr y brenin; yna taflwyd hwy at y *penneu coronog* eraill tan draed *Lucifer*. Neſa i'r brenhinoedd daeth y *gwyr llys* a'r *gwenieithwyr* lawer. Bwriwyd y rhain bod un tan dîn ei frenin ei hun, fel yr oedd y brenhinoedd tan dineu'r diawliaid, ynghachty *Lucifer*. Ond yr oedd rhann o'r bawdy o tan y Diawliaid *gwaela*, lle'r oedd y *Witſiaid*, fel gynt ar nôs Iau, felly fyth yn cuſanu tineu'r Ellyllon. Ni ches i fawr ymorol na chlywn i ganu cyrn prês a gwaeddi lle! lle! lle! Erbyn aros ychydig beth oedd ond gyrr o wyr y *Seſſiwn*, a diawliaid yn cario cynffonneu chwech o Uſtuſiaid a myrdd o'u ſil yn Gyfarthwyr, Twrneiod, Clarcod, Recordwyr, Bailiaid, Ceisbyliaid a Checcryn y Cyrtieu. Bu ryfedd genni na holwyd un o honynt; ond deallodd y rhain fynd o'r matter yn eu herbyn yn rhybell, ac felly ni agorodd un o'r dadleuwyr dyſcedig mo'i ſafn; ond *Cecryn y cyrtieu* a ddyweid y rhoe gwyn camgarchariad yn erbyn *Lucifer*, cewch gwyno trwy achos weithian, ebr y Fail, a bod fyth heb weled

Cwrt

Cwrt a'ch llygaid. Yna gwiſcodd *Lucifer* ei *gapcôch* yntei, ac â golwg drahausfalch anoddef, ewch ebr ef a'r *Uſtuſiaid* i ſtafell *Pontius Pilate* at Meiſtr *Bradſhaw* a fwriodd y Brenhin *Charles* Sechwch y *Gyfarthwyr* gyda mwrdrwyr Sir *Edmwnt Buwri-Godffri* a'u cymmeriaid dau eiriog eraill, a gymmeraint arnynt ymrafaelio a'u gilydd dim ond i gael lladd y ſawl a ddal rhyngddynt; ewch ac anneirchwch y Cyfreithiwr darbodus hwnnw, a gynnygiodd wrth ſarw *til o bunneu* am *gydwybod dda*, gofynnwch a roe e't awron ddim ychwaneg. Rhoſtiwch y *Cyfreithwyr* wrth eu parſmant a'u papurau eu hunain oni ddel eu perfedd dyſcedig allan, ac i dderbyn ymygdarth hwnnw, crogwch y *Cyrtwyr ceccrys* uwch ei ben, a'u ffroeneu'n iſa yn y Simneiau rhôſt, i edrych a gaffont fyth lond ei bol o *Gyfraith*. Y *Recordwyr*, teſtwch hwy rwan i fyſe y *Maelwyr*, a fydd yn attal neu'n rhagbrynnu'r yd, ac yn ei gymmyſcu, yna gwerthu'r ammur yn nwbl brîs y pury'd: felly hwytheu. mynnant am *gamm* ddwbl y ffîs a roid gynt am *uniondeb*. Am y *Ceiſbyliaid*, gedwch hwy'n rhyddion i bryfetta, ac iw gyrru i'r byd i geunentydd a pherthi i ddal dyledwyr y Goron uffernol: oblegid pa'i ddiawl fy o honoch a wna'r gwaith well na hwy? Yn y man dyma ugain o ddiawliaid fel *Scotſmyn* a phaccieu traws ar eu hyſcwyddeu, yn eu deſcyn oſlaen yr Orſedd ddiobaith, a pheth oedd ganddynt erbyn gofyn ond *Sipſiwn*, hol ebr *Lucifer*, pa fodd y gwyddeich chwi *Ffortun* rhai eraill cyſtal, ac heb wybod fod eich Ffortun eich hunain yn eich wyneb i'r fangre hon? Nid oedd atteb gair, wedi ſynnu weled yma betheu gwrthunach na hwy eu hunain. Teſtwch hwy, ebr y Brenin, at y *Witſiaid* i'r cachity ucha, am foe

eu hwynebu mor debyg i liw'r baw. Nid oes yma na *Chaihod* na *Chanwylleu-brwyn* iddynt, ond gedwch iddynt gael llyffant rhyngddynt unwaith bôb dengmil o flynyddodd os byddant diſtaw, heb ein bvddaru a'u *gibris dy-glibir dy-glabar*, Yn neſa i'r rhain daeth debygwni ddeg ar hugain o *Laſurwyr*. Synnodd ar bawb weled cynnifer o'r alwedigaeth oneſt honno, ac anamled y byddeint yn dyfod: ond nid oeddynt o'r un fro, nac am yr un *beteu*. Rhai am *godi'r Farchnad*, llawer am *attal degymmeu* a thwyllo'r Eglwyſwr o'i gyfiawnder, eraill am adael eu gwaith i *ddilyn bon'ddigion*, ac wrth geiſio cydgammu â rheiny torri eu ffwrch; rhai am *weithio ar y Sul*, rhai am ddwyn eu *Defaid a'u Gwartheg* yn eu penneu *i'r Eglwys* yn lle yſtyried y Gair, eraill am *ddrwg fargenion*. Pan aeth *Lucifer* iw holi, oh! 'roeddynt oll cyn laned a'r aur, ni wyddei neb arno'i hun ddim a haeddei'r fath letty. Ni choeliti rhawg deccluſed eſcus oedd gan bob un i guddio'i fai, er eu bod euſys yn Uffern o'i herwydd, a hynny dim ond o ddrygnaws i groeſi *Lucifer*, ac i geiſio bwrw anghyfiawnder ar y Barnwr cyfion a'n damniaſei. Etto baſei rhyfeddach gennit ddeheued yr oedd y Fall fawr yn dinoethi'r briwieu, ac yn atteb eu coeg-eſcuſion hyd adref. Ond pan oedd y rhain ar dderbyn y ſarn uffernol oll, dyma ddeugain o *'Scholheigion* yn dyfod ger bron ar lamhedyddion o ddiawliaid gwrthunach pettei boſſibl na *Lucifer* ei hun. A phan glybu'r Scolheigion y llaſurwyr yn ymreſymmu, hwy ddechreuaſant yn hyfach ymeſcuſodi. Ond, oh! barotted yr oedd yr hen Sarph yn eu hatteb hwytheu, er maint eu dichell a'u dyſceidiaeth. Eithr gan ddigwydd i mi weled y cyfflyb ddadleuon mewn Brawdle arall, mi roſ yno

hanes

hanes y cwbl tan un; ac a fynegaf a rwan it beth a welais nesa'n y cyfamser. Pan y traethasei *Lucifer* y farn ar y rhain, a'u gyrru am oered eu rhesymmeu i'r Splent fawr yn *Gwlad yr Iâ* tragwyddol, a hwythe'n dechreu rhincian eu dannedd eusys cyn gweled eu carchar, dyma Uffern eilwaith yn dechreu dadseino'n aruthrol, gan ergydion ofnadwy a tharaneu croch rhuadwy, a phob swn rhyfel; gwelwn *Lucifer* yn duo ac yn delwi; yn y munyd daeth scithell o ddiesyn carngam i mewn tan ddyhead a chrynu. Beth yw'r matter, ebr *Lucifer?* Y matter perycla i chwi er pan yw Uffern yn Uffern, ebr y bach; mae holl eithafoedd Teyrnas y tywyllwch wedi torri allan i'ch erbyn, a phawb yn erbyn eu gilydd, yn enwedig y sawl oedd a hen 'lanasdra rhyngddynt, ddant yn nant nad yw bossibl eu tynnu oddiwrth eu gilydd. Mae'r *Sawdwyr* benben a'r *Physygwyr* am ddwyn eu trad *llâdd*; Mae myrdd o *Logwyr* benben a'r *Cyfreithwyr* am fynnu rhain o'r trad *'speilio*. Mae'r *Cwestwyr* a'r *Hwndlwyr* ar falu y *bon'ddigon*, am *dyngu a rhegu* heb raid, lle'r oeddynt hwy'n byw wrth y trâd. Mae'r *Putteiniaid* a'i Cymdeithion, a myrddiwn eraill o hên Geraint a Chyfeillion gynt wedi syrthio allan yn chwilfriw. Ond gwaeth na dim yw'r gad sy rhwng yr hên *Gybyddion* a'u Plant eu hunain am afradloni'r da a'r arian a gostiodd i ni (medd y *Cottaid*) gryn boen ar y ddaiar, ac anfeidrol ing *yma* dros byth: A'r Meibon o'r tu arall yn rhegu ac yn rhwygo'r cribinwyr yn felldigedig, gan roi eu galanasdra tragwyddol ar eu Tadau, am adel iddynt ugain *gormod* iw gwallcofio falchder ac oferedd, lle gallasei *ychydig* bach gyda bendith eu gwneud yn happus yn eu dau fyd; wel', ebr *Lucifer*, digon, digon! rheitiach

tiach arfeu na geirieu. Ewch yn ôl, ebr ef, Syre, ac yſpiwch ymhob gwiliadwriaeth p'le bu'r eſceuluſdra mawr hwn, a pheth yw'r achos: canys mae rhyw ddrygeu allan na wyddys etto. Yma th a hwnnw ar y gair, ac yn y cyfamſer coddodd *Lucifer* a'i Bennaethiaid mewn braw ac arſwyd mawr, a pharodd gaſclu'r byddinoedd dewra o'r Angylion duon, ac wedi eu trefnu cychwynodd ei hun allan ymlaenaf i oſtegu'r gwrrhryfel, a'r Pennaethiaid a'u lluoedd hwytheu ffyrdd eraill. Cyn i'r fyddin frenhinol fyned yn neppell tel mêllt hyd y Fagddu hyll (a ninneu o'u lledol (dyma'r trwſt yn dyfod iw cyfwrdd. Goſteg yn enw'r Brenin, ebr rhyw fonllefwr cythreulig! Nid oedd dim clywed, haws tynnu'r hên afanc o'i gafael nac un o'r rhain. Ond pan drawodd hên Sawdwyr profedig *Lucifer* yn ei plith, dechreuodd y chwyrnu a'r ymdolcio a'r ergydion larveiddio. Goſteg yn enw *Lucifer*, ebr y crochleſwr cilwaith. Beth ydy'r matter, ebr y Brenin, a phwy yw y rhain? Attebwyd, nid oes yma ddim ond darfod yn y cythryfwl eyffredin i'r *Porthmyn* daro wrth y *Cucwaldiaid*, a mynd i ymhyrddio i brofi p'run oedd gletta'i *Cyrn:* ac hi allaſei fynd yn hên ymgornio oni baſei ich Cawri corniog chwitheu daro i mewn. Wel'r ebr *Lucifer*, gan eich bod oll mor barod feich arfeu, trowch gyda mi i gyſtwyo'r Terfyſcwyr eraill. Ond pan a th y ſi at y Gwrthryfelwyr eraill, fod *Lucifer* yn dyfod a thair byddin gorniog iw herbyn, ceiſiodd pawb iw wâl. Ac felly ymlaen yn deiwrthwyneb yr aeth *Lucifer* hyd y Gwyllt oedd diriſtriol, tan holi a chwilio beth oedd dechreu'r cynnwr, heb air ſôn. Ond ymhen ennyd, dyma un o ſpiwyr y Brenhin wedi dychwelyd ac ai anadl yn ei wddf, O! ardderchoccaf

checcaf *Lucifer*, ebr ef. mae'r Twyſog *Mawr* wedi goſtegu peth o'r Gogledd a darnio miloedd ar draws y Splentydd: Ond mae etto allan dri neu bedwar o *Ddrygeu* geirwon yn y gwynt. Pwy ydynt, ebr *Lucifer*? Mae, ebr ef, *Athrodwr*, a *Medleiwr*, a *Chwerylwr cyfreithgar*, wedi torri'r carcharau a mynd yn rhyddion. Nid oes ynteu ddim rhyfedd, ebr y Fall fawr pedfaſei 'chwaneg o gythryfwl Yn hyn, dyma un arall a faſei ar yſpiſtuar Deheu, yn mynegu fod y drwg yn dechreu torri allan yno, oni charcherid *tri* oedd euſys wedi gyrru pob peth bendramwnwgl yn y Gorllewin: a'r tri hynny oedd *Marchoges*, a *Dyfeiſiwr*, a *Rhodreſwr*. Wel', ebr *Satan*, oedd yn ſefyll neſa ond un at *Lucifer*, er pan demtiais i *Adda* o'i ardd, ni welais etto o'i hîl ef gymmaint o ddrygeu allan ar unwaith erioed. Marchoges, Rhodreſwr a Dyfeiſiwr, ac o'r tu arall Athrodwr, Cyrtiwr a Medleiwr! dyna gymmyſc a bair i fil o Ddiawliaid chwydu eu perfeddeu allan. Nid oes ryfedd, ebr *Lucifer*, eu bod mor atcas gan bawb ar y ddaiar, a hwythe'n gallu gwneud cymmaint blinder i ni yma. Gronyn ymlaen, dyma'r *Farchoges* fawr yn taro wrth y Brenin yn yngwrth ar ei hynt. Ho! modryb ar clôs ebr rhyw Ddiawl croch, noſda'wch: ie, 'ch modryb o ba'r dy, attolwg, ebr hithe'n ddigllon? eiſieu'i galw *Madam*. Brenin gwych ydychwi *Lucifer*, gadw'r fath bembyliaid anſoeſol, pechod for cymmaint Teyrnas tan un mor anſedrus yn ei llywodraethu; Ona wneid ſi, ebr hi, yn Rhaglaw arni -- Yn hyn dyma'r *Rhodreſwr* tan bendwmpian yn y tywyll, Eich gwaſanaethwr, Syr, meddei ſo wrth un, tros ei yſcwydd--- Y chwi'n iâch lawen, wrth y llall--- Oes dim gwaſanaeth a'r a allwn i chwi, wrth y trydydd,

ran

tan gil-wenu'n goegfall. Mae'ch glendid yn fy hudo i, eb ef wrth y Farchoges. Och! och! ymaith a'r fflamgi yma, ebr honno, â phob un yn gwaeddi ymaith a'r poenwr newydd yma! Uffern ar Uffern yw hwn. Rhwymwch ef a hitheu din-bren-drofben, ebr *Lucifer*. Ymhen ennyd, dyma *Gwmbrys y Cyrtieu* yn nal rhwng dau Ddiawl. O ho! Angel tangneddyf, ebr *Lucifer*, a ddaethofti! cedwch e'n ddiogel tan eich perygl; ebr ef, wrth y Swyddogion. Cyn i ni fynd nemor, dyma'r *Dyfeifiwr* a'r *Athrodwr* yn rhwyn rhwng deugain o ddiawliaid, ac yn fiffial ynghluftieu i gilydd. O arddercheccaf *Lucifer* ebr y *Dyfeifiwr*, drwg iawn genni fod cymmaint cythryfawl yn eich Teyrnas, ond mi a ddyfcaf i chwi ffordd well os ca'i ngwrando, nid rhaid i chwi ond yn efcus Parliament ddyfyn y Damniaid oll i'r *Fallgyrch eirias*, ac yna peri i'r Diawliaid eu pendifadeu bendramwnwgl i *Geg Annw'n*, a'u cloi yn y Sugnedd, ac yna cewch lonydd ganddynt. Wel', ebr *Lucifer*, tan guchio'n dra-melltigedig ar y *Dyfeifiwr*, mae'r Medleiwr cyffredin etto'n ol. Erbyn ein dyfod eilwaith i gyntedd y Llys cythreulig, pwy a ddaeth decca i gyfarfdd y Brenin ond y *Medleiwr*. O fy Mrenin, ebr ef, mae i mi air a chwi. Mae i mi un neu ddau a thitheu ondodid, ebr y Fall. Mi a fûm, ebr ynte, hyd hanner *Deftryw* yn edrych pa fodd yr oedd eich matterion chwi'n fefyll. Mae gennych lawer o Swyddogion yn y Dwyrain heb wneud affaith ond eifte'n lle edrych ar boeni ei carcharorion neu gadw chwaith, a hynny a barodd y cythryfwl mawr yma. Heb law hynny, ebr ef, mae llawer o'ch Diawliaid ac o'ch Damniaid hefyd a yrrafoch i'r byd i demtio, heb ddychwelyd er darfod eu amfer, ac eraill wedi dyfod yn *flechu*, yn lle rhoi cyfri o'u negefeu. Yna

parodd

parodd *Lucifer* iw groch-lefwr gyhoeddi Parliament drachefn, ac ni bu'r holl Bennaethiaid a'u Swyddogion dro llaw'n ymgyfwrdd i wneud yr eisteddfod gythreulig i fyny eilwaith. Cynta peth a wnaed oedd newid Swyddogion a pheri gwneud lle o amgylch Cêg Annwn i'r *Rhodreſwr* a'r *Farchoges* drwyndrwyn, ac i'r terfyſcwyr eraill yn rhwym dinben droſben, a rhai allan gyfraith pa ddieflyn neu gollddyn bynnac a droſeddei ei Swydd rhagllaw, y cai ei fwrw yno rhyngddynt hyd Ddyddfarn. Wrth y geirieu hyn gwelit yr holl Erchyllion, ei, *Lucifer* ei hun, yn crynu ac yn cythruddo. Neſa peth fu alw i gyfri rai Diawliaid a rhai Damniaid a yrraſid i'r byd i hel Cymdeithion; a'r Diawliaid yn dywedyd eu hanes yn deg: Ond'r oedd rhai o'r Damniaid yn gloff yn eu cyfri, ac a yrrwid i'r Yſcol boeth, ac a ſcwrſiwyd a Seirph clymog tanllyd eiſieu dyſcu'n well. Dyma ſenyw lan pan ymwiſco hi, ebr Diawl bach, a yrrwyd i fyny i'r byd, i hel i chwi ddeiliaid grefydd au canoleu, ac i bwy'r ymgynnygiei hi ond i ryw weithiwr llafurus yn dyfod adre'n hwyr oi orchwyl, a hwnnw'n lle ymdrythyllu gyda hi aeth ar ei linieu weddio rhag Diawl a'i Angylion: amſer erall, hi ai at wr afiachus. Hai, teflwch hi, ebr *Lucifer*, at y gollferch ddiles honno a fu'n caru *Eignion* ab *Gwalchmoi* o *Fôn* gynt. Arhowch, nid yw hwn ond y bai cyntaf, ebr y feinir; nid oes etto oddiar flwyddyn er y diwrnod y darſu amdanai, pan i'm *damniwyd* i'ch llywodraeth felltigedig chwi, Frenin y poeneu! nac oes etto mor tair wythnos, ebr y Diawl ai dygaſei hi yno. Am hynny ynteu, ebr hi, pa fodd y mynnech fi mor hyd lyſc a'r Damniaid ſy yma er's trychant neu bumcant o flynyddoedd allan yn ſcylfaetha. Os mynnech

nech gennifi well gwaſanaeth, gollyngwch fi i'r byd etto i roi tro neu ddau'n ddigerydd; ac oni ddygaf i chwi ugain putteinwr am bob blwydd-yn y bwy allan, rhowch arnai'r goſp a fynnoch. Ond ſ' aeth y ferdit yn ei herbyn, a barnwyd iddo fod ganmlynedd hirion tan gerydd y coſiei hi'n well yr ail tro. Yn hyn, dyma Ddiawl arall yn gwthio *mâb* ger bron; dyma i chwi, ebr ef, ddarn o negeſwr teg, oedd ar grwydr hyd ei hen gymdogaeth uchod y nos arall, ac a welai leidr yn mynd i ddwyn Stalwyn, ac ni fedrei gymmaint a helpu hwnnw i ddal yr Ebol heb *ymddangos*, a'r lleidryn pan ei gwelodd a ymgroeſodd byth wedi. Trwy gennad y Cwrt, ebr y Mab, os cai blentyn y lleidr roddiad *oddiuchod* i'm gweled i, a allwn i wrth hynny? Ond nid yw hwn ond un, ebr ef; nid oes oddiar ganmlynedd er y dydd dieſcor y darfu byth am danai! a pha ſawl un o'm ceraint a'm cymydogion a hudais i yma ar fy ol yn hynny o amſer? Yn Annwn y bwy onid oes gennif gyſtall 'wllys i'r Trad a'r goreu o honoch, ond ſe geir gwall ar y cellaf weithieu. Hai, ebr *Lucifer* bwrwch ef ei Yſcol y *Tyluyth teg*, ſy etto tan y wialen am eu caſtieu diriaid gynt, y llindagu a bygwth eu cyfneſeiſiaid, a'u deffroi ſelly oi diofalwch, canys gweithie'r dychryn hwnnw 'chwaneg ondodid arnynt na deugain o bregetheu. Yn hyn, dyma bedwar Ceisbwl a Chyhuddwr, a phymtheg o Ddamniaid yn lluſco dau *Gythraul* ger bron. Wel, ebr y Cyhuddwr, rhag i chwi fwrw 'r holl gam-neg-eſwriaeth ar hil Adda, dyma, eb ef, ddau o'ch hen Angylion a gymdreuliodd eu hamſer uchod cynddrwg a'r ddau o'r blaen. Dyma, walch ail i hwnnw'n y *Mwythig* y dydd arall, ar ganol Inteſlud y Doctor Fauſtus, a rhai ('n ol yr arfer (

yn

yn godinebu a'u llygaid, rhai a'u dwylo, eraill yn llunio cyfarfod i'r un pwrpas a llawer o betheu eraill buddiol i'ch Teyrnas; pan oeddynt brysura, ymddangosodd y Diawl ei hun i chwarae ei bart ac wrth hynny gyrrodd bawb oi blesser iw weddieu: Felly hwn hefyd ar ei hynt hyd y byd, se glywai rai'n son am fynd i droi o gwmpas yr Eglwys i weled eu Cariadeu, a pheth a wnaeth y catffwl ond ymddangos i'r ynfydion yn ei lun ei hun gartre; ac er maint fu eu dychryn, etto pan gawsant eu cof, rhoisant ddiofryd oferedd ond hynny: lle ni basei raid iddo ond ymrithio ar lun rhyw fudrogod diffaith, fo'u tybiasent eu hunain yn rhwym i gymmeryd y rheiny, ac yna gallasei'r ellyll brwnt fod yn wr y ty gyda'r ddwylyw, ac ynteu wedi gwneud y briodas. Ac dyma un arall, ebr ef, aeth Nos Ystwyll ddiweddaf i ymweled a dwy Ferch ieuanc yn *Nghymru* oedd yn *troi'r Crysau*, ac yn llo denu'r Genethod i falwedd yn rhith Llanc glandeg, mynd ag *Ebr*, i sobreiddio un; a mynd a *thrusst Rhysel* at y llall mewn corwynt uffernol iw gyrru o'i cho mhellach nac o'r blaen, ac ni basei raid. Ond nid hyn mo'r cwbl, eithr wedi iddo fynd i'r llances a'i thaflu ai phoeni'n dost, gyrrwyd am rai o'n Gelynion dyscedig ni, i weddio drosti hi, ac iw fwrw ef allan; yn lle ei themtio hi i anobeithio, a cheisio enill rhai o'r Pregethwyr, mynd i bregethu iddynt a dadcuddio dirgelion eich Teyrnas chwi, ac felly yn lle rhwystro, help eu hiechydwriaeth: ar y gair *iechydwriaeth* gwelwn rai'n dychlammu'n dan byw o gynddaredd. Teg pob chwedl heb wrthyneb. ebr y dieflyn: Gôb ithio na ad *Lucifer* i'r un o hil domlyd *Adda* ymgystadlu a mi sy'n Angel, llawer uwch sy rhyw a'm bonedd. Hai, ebr

Lucifer,

Lucifer, bid ficer iddo ei gosp; ond Syre, atteb-wch i'r achwynion yma'n bryſur ac yn eglur; neu myn Deſtryw diobàith mi wna --- Mi ddygais yma, ebr ynte, lawer enaid er pan ſu Satan yn Gardd *Eden*, ac a ddylwn ddeall fy nhrad yn well na'r Cyhuddwr newydd yma --- Gwaed uffernol benlewyn, ebr *Lucifer*, oni pherais i chwi atteb yn bryſur, ac yn eglur? Trwy'ch gorchymyn, ebr y dieflyn, bûm ganwaith yn *pregethu*, ac yn gwahardd i rai amryw o'r ffyrdd ſy'n arwain i'ch Terfynau chwi, ac etto'n ddiſtaw a'r un anadl hyd ryw goeg lwybr arall, yn eu dwyn yma'n ddigon diogel. Fel y gwneuthum wrth bregethu 'n ddiweddar yn yr *Ellmyn*, ac yn un o ynyſoedd *Fferoe*, ac amryw fanneu eraill. Felly drwy mrhegethiad i y doeth llawer o *goelion* y Papiſtiaid, a'r *hên chwedleu* gynta i'r byd, a'r cwbl tan rîth rhyw *ddaioni*. Canys pwy fyth a lwnc fach heb ddim abwyd? pwy 'rioed a gadd goel i ſtori one byddei ryw feſur o *Wir* yn gymyſc a'r *Celwydd*, neu beth rhîth *Daioni* i gyſcodi'r *Drwg*? Felly os cafinneu wrth bregethu ymyſc cant o gynghorion cywir a da wrthio un o'm heiddo fy hun, mi wnaf a'r ûn hwnnw, trwy *amryfuſedd* neu *goel gref-ydd*, fwy llês i chwi nac a wnêl y lleill i gyd fyth ich erbyn. Wel', ebr *Lucifer*, gan eich bod cyſtal yn eich *Pulpyd*, 'rwy'n d' orchymmyn trosiaith mlynedd i ſafn un o bregethwyr y *Scubor*, a ddywed y beth a ddel cynta iw ſocheu, yno cei ditheu le i roi gair i mewn weithieu at dy bwrpas dy hun. Yr oedd llawer o *Ddiawliaid* ac o *Ddamniaid* ychwaneg yn gwau fel mellt trwy i gilydd o amgylch yr Orſedd echryſlawn i gyfri ac i ati dderbyn Swyddeu. Ond yn ſydyn ddiarwybod, dyma orchymyn i'r holl negeſyddion a'r carcharorion

charorion fynd allan o'r Llys bawd iw dwll, a gado'r Brenin ai ben cynghoriad yno'n unic. Ond goreu i ninne'n ymadel. ebr fi, wrth ſy nghyfell, rhag iddynt ein cael, Nid rhaid it uno'n, eb yr Angel, ni wêl un Yſpryd aflan byth trwy'r *llenn* yma. Felly yno'r arhoſaſom yn anweledig i weled beth oedd y matter. Yna dechreuodd *Lucifer* lefaru'n raſſawn wrth ei Gynghoriaid fel hyn. Chwi'r Prîf Ddrygan yſprydol, chwi ben *Yſtrywieu* Annwfn, eitha 'ch dichellion maleiſgar wrth raid yr wy'n ei oſyn. Nid dieithr i nêb yma mai *Prydain* a'r Ynyſoedd oi hamgylch yw'r Deyrnas berycla i'm llywodraeth i, a llowna o'm Gelynion: A phe ſy gan gwaith, mae yno'r awron Frenhines peryclaf oll, heb oſſio troi unwaith tu ac yma, nac hyd hên ffordd *Ruſain* o'r nailltu, na chwaith hyd ffordd *Geneva* o'r tu arall; a maint llês a wnaeth y Pâp i ni yno'n hîr, ac *Olſir*, hyd y rwan! Beth a wnawn weithian? Yr wy'n, oſni y collwn yr hên feddiant a'n marchnad yno'n glir, oni phalmantwn chwippyn ryw ffordd newydd yn dramwyſa ddynt, canys adwaenant yr holl hên ffyrdd ſy'n ywys *yma* 'n rhŷ dda. A chan fod y *Dwrn* anrfod hwn yn byrrhau nghadwyn, ac yn fy rhwyro i fy hun i'r Ddaiar, eich cyngor pwy a wnâ 'n Rhaglaw tanaf i wrthwynebu'r Frenhines tcas accw, Rhaglaw ein Gelyn ni? O Emriwr mawr y Tywyllwch, ebr *Cerberus* Diawl *Tobacco*, Myfi ſy'n rhoi traean cynhaliaeth y Goron honno; Myfi a âf ac a yrraf i chwi ganiil o eneidieu'ch Gelynion trwy dwll *pibell*. Vel', ebr *Lucifer*, ti a wnaethoſt i mi waſanaeth gon da, rhwng peri ladd y perchenogion yn *India*, a lladd y cymerwyr a glafoerion, gyrru awer iw ſegur gludo o dŷ i dŷ, craill i ledratta

iw gael, a myrdd iw ſerchi cymhelled nad allent fod ddiwrnod yn eu hiawn bwyll hebddo. Er hyn oll, dôs di a gwnâ d'oreu, ond nid wyt ti ddim i'r pwrpas preſennol. Ar hyn eiſteddodd hwnnw, a chododd *Mammon* Diawl yr *Arian*, ac â golwgdra-choſtog lechwrus; Myfi, ebr ef, addangoſodd y mwynglawdd cyntaf i gael *Arian*, ac byth er hynny'r wy'n cael ſy moli a'm addoli'n fwy na Duw, a Dynion yn rhoi eu poen au perygl, eu hôll fryd, ei hoffder a'u hyder arna'i: iê, nid oes nêb yn eſmwyth eiſieu cael ychwaneg o'm ffafr i, a pha mwya y gaffont pella ſyth oddiwrth orphwyſtro nes dyfod o'r diwedd tan geiſio *eſmwythyd*, yma, i Wlad y *poeneu* tragwyddol. Pa ſawl Cybydd henffel a ddenais i yma hyd lwybrau toſtach nac ſy'n arwain i Deyrnas yr Happuſrwydd! Os *Ffair*, os *Marchnad*, os *Seſſiwn*, os *Leeſiwn*, os rhyw Ymgyfwrdd arall, pwy amlach ei ddeiliaid? pwy fwy ei allu ai awdurdod na myfi? tyngu, rhegu, ymladd, ymgyfreithio, dyſeiſio a thwyllo, ymgurio, ymgribinio, lladd a lledratta, torri'r Sul, anudoniaeth, angharedigrwydd, a pha nôd du arall, beb law'r rhain, ſy'n marcio Dynion at gorlan *Lucifer*, nad oes gennifi law'n ei roi? am hynny y galwyd fi *gwreiddyn pob drwg*. Am hynny os gwêl eich Mawrhydi'n dda, Myfi a âf, ebr ef, ac a eiſteddodd. Yna cododd *Apollyon*. Nis gwn i, ebr hwnnw, beth a'u dwg *hwy* yma ſiccrach na'r peth ach dûg chwitheu yma ſef *Balchder*; Os ceiff hon blannu ei phawl fyth ynddynt a'u chwyddo nid rhaid uno'n yr ymoſt yngant i godi'r *groes* nac i fynd trwy'r porth cyfyng. Myfi a âf ebr ef, gyda'ch Merch *Balchder*, ac a yrraf y *Cymru* tan ucheldremio ar wychder y *Saeſon*, a'r *Saeſon* tan ddynwared ſioncrwydd y *Ffrancod*, i ſyrthio yma cyn y gwypon

amear

amcan p'le bônt. Yn neſa cododd *Aſmodai* Diawl yr *anlladrwydd*, Nid anhyſpys i chwi Frenin galluoccaf y dyfnder, ebr ef, na chwitheu Dwyſogion Gwlad Anobath, faint a lenwais i gylfacheu Uffern trwy drythyllwch a maſwedd: Beth am yr amſer y cynneuais i'r fath fflamm o daachwant yn yr holl fyd, oni orfu gyfru'r Diluw i lanhau'r Ddaiar oddiwrthynt, ac iw 'ſcubo hwy oll attom ni i'r Tan aniffoddadwy? Beth am *Sodoma* a *Gomorra*, dinaſoedd têg a hyfryd a loſcais i â thrythyllwch nês i gafod o Uffern ennyn yn eu trachwanteu uffernol, a'u curo hwy yma'n fyw i loſci'n oes oeſoedd? A pheth am fyddin fawr yr *Aſſyriaid* a laddwyd oll mewn unnos o'm achos i? *Sara* a ſiommais i am ſaith o Wyr; a *Solomon* y doetha o Ddynion, a llawer mîl o Frenhinoedd eraill a welliais i â Merched. Am hynny, ebr ef, gollyngwch fi a'r *pechod melus* yma, ac mi a 'nynnaf y wreichionen uffernol yno mor gyffredin hyd oni êl yn un a'r fflamm aniffoddadwy hon: canys odid o un a ddychwel fyth oddiar fy ol i', i gymeryd gafael yn llwybreu bywyd; ar hyn fe eiſteddodd, Yna cododd *Belphegor*, Pennaeth y *Diogi* ar *Seguryd*; Myfi, ebr ef, yw Twyſog mawr y *Syrthni* a'r *Diogi*, mawr fy ngallu ar fyrdd o bod oed a grâdd o ddynion; myfi yw'r merllyn mudd lle mâg ſil pob drygeu, lle ceula ſorod pob pydredd ſnafedd diniſtriol. Beth a deliti, *Aſmodai*, na chwithe'r Prif-Ddrygau colledig eraill hebofi fy'n gadw'r ffeneſtri'n agored i chwi, heb ddim gwildrwriaeth, modd y gallochwi fynd i mewn i'r byn, iw lygaid, iw gluſt, iw ſafn, ac i bob twll arall arno pan fynnoch. Myfi a âf ac a'u treigaf hwy oll i chwi tros y Dibyn trwy eu Cwſc, yna cododd *Satan* Diawl yr *Hûg*, oedd neſa i

Lucifer ar ei law chwith, ac wedi troi gwep hyllgrech at y Brenin, Afraid i mi, ebr ef, yſpyſu ſyngweithredoedd iti, Archangel colledig, nac i chwitheu Dwyſogion duon y Deſtryw: oblegid y dyrnod cyntâ 'rioed ar ddyn myfi a'i torawodd; a dyrnod nerthol ydoedd, i bara'n *ſarwol* o ddechreu'r byd iw ddiwedd. Ai tybied nad allwn i a anrheithias yr holl ſyd, roi rwan gyngor a waſanaethei am un Ynyſig fechan? ac onid allwn i a ſiommais *Efa* ym *Mharadwys*, orchfygu *Ann* ym *Mhrydain*? Os tâl ddim ddichell naturiol a phrawf gwaſtadol er's pummil o flynnyddoedd, fy nghyngor i ichwi drwſio'ch Merch *Rhagrith* i dwyllo *Prydian* a'i Brenhines; ni feddwch chwi ferch yn y byd mor waſanaethgar i chwi a honno: Mae *hi* 'n lletrach ei hawddurdod ac yn amlach ei deiliaid na'ch holl ferched eraill. Ond trwyddi *hi* y ſiommais i y Ferch gyntaf? ac byth er hynny hi arhoſodd ac a gynnyddodd yn ddirfawr ar y Ddaiar. Ac yr awron nid yw'r Byd oll fawr ond un *rhagrith* i gyd troſto. Ac oni bai gywreindeb *Rhagrith* pa fodd y cai'r un o honom ddim maſnach mewn un cwrr o'r byd? Oblegid pe gwelent *bechod* yn ei *liw* a than ei *henw* 'i hun, pa ddyn byth a'i cyffyrddei? byddei haws ganddo gofleidio Diawl yn ei lûn ai wîſc uffernol. Oni bai ei bod *h* *Rhagrith* yn medru dieithro *henw* a *natur* pob *drwg* tan rîth rhyw *ddâ*, a llyſenwi pob *daioni* a rhyw enw *drwg*, ni chyffyrddei ac ni chwenychei neb ddrwg yn y byd. Rhodiwch yr holl Ddinas ddihenydd, cewch weled faint yw *h* ymhob cwrr. Dos i ſtryd y *Balchder*, ac ymdrol am *wr trahaus*, neu am geinhiogwerth o *ſut* *ſendod* wedi ei gymyſcu trwy *ſolchder*, gwae fi neu (medd Rhagrith) nid oes yno ddim o'r fait

beth

beth; ac i Ddiawl ddim arall yn yr holl ſtryd ond yr uchder, Neu gerdd i ſtryd yr *Elw*, gofyn am dy'r *Cybydd* ffei nid oes neb o'r fath ynddi neu am dy'r *Mwrdriwr* ymyſc y Phyſygwyr, neu am dy'r *carnlleidr* ymyſc y Porthmyn, byddei cynt it gael carchar am ofyn na chael gan neb gyfadde 'i henw. Ie mae Rhagrith yn ymluſco rhwng dyn a'i galon ei hun, ac mor gelfydd yn cuddio pob *camwedd*, tan enw a rhith rhyw rinwedd, oni wnaeth *di* i bawb agos golli eu 'dnabod arnynt eu *hunain*, *Cybydd-dod* a eilw hi *Cynnilwch*; ac yn ei hiaith *hi Llawenydd diniweid* yw *Oferwch*; *Bon'ddigeiddrwydd* yw *balchder*; gwr *ffêſt gwrol* yw'r *traws*; *Cydymaith da* yw'r *Meddwyn*, ac nid yw *godineb* ond *ceſtyn ieuenctid:* O'r tu arall os coelir *hi* ai ſcolheigion nid yw'r *duwiol* ond *rhagrithiwr* neu *benbwl*; nid yw'r *llaryaidd* ond *llyfrgi* na'r *ſobr* ond *cerſyn*: ac felly am bob camp arall. Gyrrwch *hon*, ebr ef, yn ei llawn-drwſiad yno, mi a wrantaf y twylla hi bawb, ac y dalla hi'r Cynghoriaid a'r Milwyr, a'r holl Swyddogion Gweledig ac Eglwyſig, ac a'u tynn hwy yma'n finteioedd chwapp a'r *mwgwd ſymmudliw* ar eu llygaid; ac ar hyn yntef a eiſteddodd. Yna cododd *Belzebub* Diawl yr *anyſtyriaeth*, ac a llais garwgry rhuadwy, Myfi, ebr ef, yw Twyſog mawr y *Syndod*, Myfi a pieu rhwyſtro i ddyn *yſtyried* a chonſidrio'i ſtât. Myfi yw Pennaeth y *gwybod* taerddrwg affernol ſy'n penſyfrdanu dynion, wrth eu cadw fyth a hefyd mewn rhyw ddwned gwaſtadol ynghylch eu meddianneu neu eu plefereu, heb adel iddynt om bodd fyth funyd o *hamdden* i feddwl am eu ffyrdd na'u diwedd. Ni wiw i'r un o honoch ymgyſtadlu a mi am orcheſtion buddiol i Deyrnas y tywyllwch. Canys beth yw *Tobacco* ond un o'm harfeu gwaelaf i, i

ddwyn *Jyndod* i'r ymennydd? A pheth yw Teyrns *Mammon*, ond cainc o'm llywodraeth fawr i? Ie pe dattodwn i y rhwymau ſy gennif ar ddeiliaid *Mammon* a *Balchder*, ie ac ar ddeiliad *Aſmodai*, *Belphegor* a *Rhagrith*, nid arhoe ddyn funyd hwy tan reolaeth un o honnynt. Am hynny ebr ef, Myfi a wna'r gwaith neu na ſonnied un o honochwi fyth. Yna cododd *Lucifer* fawr ei hun o'r Gadair eirias, ac wedi troi wyneb hygar (neu hager) o'r ddeutu, Chwi brif Yſprydion Hirnos, Pennaethiaid y ddichell ddiobaith, ebr ef; Er nad nad yw'r *Fagddu fawr* a Gwylltoedd Deſtryw rwymediccach i neb am ei thrigolion nac i'm brenhinol orchelder fy hunan, canys myfi gynt, eiſieu gallu tynnu'r Hollalluog o'i feddiant, a dynnais fyrddiwn o honochwi f' Angylion duon gyda'm cynffon i'r Erchyllfa aneſcor hon; ac wedi a dynnnais fyrddiwn o Ddynion attoch, i gael rhan o'r byd ſy yma, Etto nid oes wâd na wnaethoch chwithe 'ch rhann oll at gynnal a chynnyddu'r Ymerodraeth fawr uffernol hon. Yna dechreuodd *Lucifer* eu hatteb o un i un. Ac, ebr ef, o un o godiad diweddar, ni wada'i na ddygaiſti, *Cerberus*, i ni lawer yſclyfaeth yn Ynys y Gelynion, o achos y *Tobacco*, rhwng ſy o ddwyll yn ei gludo, yn ei gymyſcu, ac yn ei bwyſo, ac y mae e'n ei ddanu i lymmeitian Cwrw, ac eraill i dyngu, rhegu a gwenieithio iw gael, eraill i ddywedyd Celwydd iw wadu, heb law'r afiechyd ſy ynddo i amryw gyrph, a gormododd yn niweidiol i bob, corph, heb ſon am yr *enaid*, A phe ſy well, mae myrdd o *dlodion*, na chaem ni oni bai hynny mo'u cyflwrdd, yn ſoddi yma wrth roi pwys eu ſerch ar y *Tobeccyn*, a gadel iddo'u *meiſtroli* i dynnu'r Bara o Safneu eu Plant. Ac yn neſa mrawd *Mammon*,

mae'ch

mae'ch gallu chwi mor gyffredin a hyſpys hefyd ar y Ddaiar, a'i mynd hi'n ddihareb, *ceir pob peth am Arian.* A diammeu, ebr ef, gan droi at *Apollyon*, fod ſ'anwyl Ferch *Balchder* yn dra buddiol i ni, canys beth ſy, nac a all ddrygu Dyn fwy yn ei ſtâd, ei gorph, ai enaid, na'r *'pinitwn balch yſtyſnig* hwnnw a wna i Ddyn waſtraffu *canpunt* yn hytrach na phlygu i roi *Coron* am heddwch. Mai *hi* 'n eu cadw hwy mor warſyth a'u golwg mor ddyfal ar uchelbetheu oni bo digrif eu gweled, wrth dremio ac ymgyrraedd a'r Awyr, yn ſyrthio chwapp i eigion Uffern. Chwitheu *Aſmodai*, mae'n gof gennym oll eich gwaſanaeth mawr chwi gynt, nid oes neb lewach am gadw'i Garcharorion tan glo, na neb mor ddigerydd a chwi; nid oes ond chwerthin tipyn am ben *ceſtyn anllad*: Ond bu agos i ti a thrigo o newyn yno'r blynyddoedd drudion diweddar, Ond fy Mab *Belphegor* Pennaeth pryfedog y *Diogi*, ni wnaeth neb i ni fwy pleſer na chwi, mawr iawn yw'ch awdurdod ymyſc y bon'ddigion a'r Gwreng hefyd, hyd at y cardottyn Ac oni bai gywreindeb fy Merch *Rhagrith* yn lliwio ac yn amwiſco, pwy fyth a lyncei un o'n bacheu ni? Ond wedi'r cwbl oni bai ddyfal lewdid fy mrawd *Belzebub* yn cadw Dynion mewn *ſyndod anyſtyriol* ni thaleich chwi oll ddraen. Weithian, ebr ef, ail grynhown y cwbl. Beth a deliti *Cerberus* a'th *fygyn* tramor, oni bai fod *Mammon* yn d'achleſu. Pa Farſiandwr fyth a gyrchei dy ddeiliach trwy gymmaint perygl o'r *India*, oni bai o ran *Mammon*? ac ond oi achos *ef*, pa Frenin a'i derbyniei yn enwedig i *Brydain*? phwy ond o rann *Mammon* a'i cludei i bob cwrr o'r Deyrnas? Er hynny beth a delititheu, *Mammon*, heb *Falchder* i'th waſtraffu ar Dai teg Dillad gwychion,

Cyfreithieu afraid, Gerddi o Meirch pherthynaſeu drudfawr, Dyſcleu aml, Bîr a Chwrw'n genlli uwch law *gallu* a *grâdd* y perchennog: canys ped arferid Arian o ſewn therfyneu *angenrhaid*, a *gweddeidd-dra cymmeſurol*, pa lês a wnai *Mammon* i ni? felly ni theli ditheu ddim heb *Falchder*. Ac ychydig a dalei *Falchder* heb *Anlladrwydd*, oblegid Baſtardiaid yw'r deilaid amla a ffyrnica fedd fy. Merch *Balchder* yn y byd, Chwitheu, *Aſmodai*, Pennaeth *Anlladrwydd*, beth a dalech oni bai *Ddiogi* a Seguryd, p'le caech letty noſwaith? nid oedd wiw i chwi ddiſgwyl gan un gweithiwr na ſtudiwr llafurus. Titheu *Belpheger* y Diogi, pwy gan gywilydd a gwarth a'th groeſawai fyth funud oni bai *Ragrith*, ſy'n cuddio dy wrthuni tan enw *afiechyd oddimewn*, neu fod yn *bwrpaſwr* da, neu tan rîth *dibriſio golud* a'r cyffelyb. Hitheu f' annwyl Ferch *Rhagrith*, beth a dâl nac a dalaſei hi'rioed, er cywreinied ymadyddes a glewed yw, oni bai 'ch hely chwi fy mrawd hynaf *Belzebub*, Twyſog mawr y *Penſyfrdandod*; pe gadawei hwn lonydd a hamdden i bobl i *dawyſyſtyried* natur petheu a'u gwahaniaeth, pa dro byddeint yn ſpio tylleu yn nyblygion eurwiſc *Rhagrith*, ac yn gweled y bacheu trwy'r abwyd? Pa wr yn ei gô a heliei deganeu a phleſereu darfodedig, ſwrffedig, ffol a gwiradwyddus, a'u dewis o flaen *heddwch Cydwydod*, a *hyfrydwch Tragywyddoldeb* ogoneddus? Pwy a ruſiei odde 'i ferthyru am ei ffydd tros awr neu ddiwrnod, neu ei gyſtuddio ddeugain neu driugain mlynedd, ped yſtyrici fod ei Gym'dogion yma 'n diodde mewn awr fwy nac all ef odde ar y Ddaiar fyth; Nid yw *Tobacco* ynteu ddim heb *Arian*, nac Arian heb *Falchder*, na Balchder ond egwan heb *Anlladrwydd*, nac Anlladrwydd ddim heb *Ddiogi*, na

na Diogi heb *Ragrith*, na Rhagrith heb *Anefty-riaeth*. Weithien, ebr *Lucifer*, ac a gododd ei garneu cythreulig ar y garnwinedd, i draethu fy meddwl inneu fy hunan; Er daed y rhain oll, mae gennifi *gvfeill* fy well at yr Elynes *Prydain* na'r cwbl. Yma gwelwn yr holl brif-gythreuliaid a'u cegeu tra erchyll yn egored ar *Lucifer*, i ddifgwyl beth boffibl a allei hwn fod, a minneu cyn rhywired genni glywed a hwytheu. *Un*, ebr *Lucifer*, y bûm i'n rhy hîr heb yftyried ei haeddiant hi, fel dithe *Satan* gynt wrth demtio *Jôb* yn troi'r ty hagr fel ffwl. Hon fy Nghares yr wy'nawr yn ei hordeinio'n Rhaglaw ar holl achofion fy llywodraeth ddaiarol yn nefa'attaf fy hun, hi a elwir *Hawddfyd*; *Hon* a ddamniodd fwy o Ddynion na chwi i gyd, ac ychydig a dalechwi oll hebddi *hi*. Canys mewn *Rhyfel*, neu *Berygl*, neu *Newyn*, neu *Glefyd*, pwy a brifia mewn na *Thobacco*, nac *Arian* na hoewdra *Balchder*, nac a feiddia feddwl am groefawu nac *Anlladrwydd* na *Diogi*? ac mae Dynion yn y cyfyngoedd hynny'n rhy effro i gymryd eu pendifadu gan *Rhagrith* nac *Anyfiyriaeth* chwaith: ni lefys un o'r uffernol *wybod y Syndod* ddangos ei bîg ar un o'r Stormoedd hyn. Eithr *Hawddfyd* efmwythglyd yw'ch Mammaeth chwi oll: yn ei chyfcod tawel, ac yn ei monwes hoewal hi y megir chwi oll, a phob pryfed uffernol eraill yn y Gydwybod, a ddaw i gnoi eu perchen *ymma* byth heb orphwys. Trabydder *efmwyth*, nid oes fôn ond am ryw ddigrifwch, gwleddoedd, bargeinion, acheu, ftoriau, newyddion a'r cyffelyb; ni fonir am *Dduw* oddieithr mewn ofer lyfon a rhagfeydd, lle mae'r *tlawd* a'r *clâf*, &c. a Duw'n ei eneu ac yn ei galon bôb munyd. Ewch chwitho'ch faith ynghynffon hon, a ched-

wch

wch bawb yn ei hûn ai heddwch, mewn llwyddiant ac eſmwythyd, a llawnder a dioſalwch; ac yno cewch weled y tlawd goneſt yn mynd yn garl trowsfalch anhyweth, pan gynta'r yſo o *hudol-gwppan Hawddfyd*; cewch weled y llafurwr diwyd yn troi'n llefarwr diofal yſmala; a phôb peth arall wrth eich bodd. Oblegid *Hawddfyd* hyfryd yw cais a chariad pawb; hitheu ni chlyw gyngor, nid ofna gerydd; os da nid edwyn, os drwg hi a'i meithrin. *Hon* yw'r brif-brofedigaeth, y Dyn a ymgadwo rhag ei Swynion mwynion *hi*, gellwch daflu 'ch Cap iddo, ffarwel i ni byth am gwmnhi hwnnw. *Hawddfyd* ynteu yw fy *Rhaglaw* ddaiarol i, dilynwch *hon* i *Brydain*, ac ufuddhewch iddi, megis i'n Brenhinol Oruchelder ni'n hunain. Ar hyn gwyntiwyd y fôllt fawr a thrawyd *Lucifer* ai Ben-cynghoriad i Sugnedd *Uffern eitha*, ac och fyth erwined oedd weled *Cêg Annwn* yn ymagor iw derbyn. Wel', eb yr Angel, weithian ni a ddychwelwn: Ond ni welaiſti etto ddim wrth y *cwbl* ſydd o fewn cyffinieu *Deſtryw*, a phe gwelſit y cwbl; nid yw hynny etto ddim wrth ſy o drueni anrhaethawl yn *Annw'n*, canys nid yw boſſibl bwrw *amcan* ar y Byd ſy'n *Uffern-eitha*. A chyda'r gair, f' am cippiodd yr Eryr nefol fi i entrych y Fagddu felltigedig ffordd na's gwelſwn, lle cês o'r Llys hyd holl ffurfafen y *Deſtryw* duboeth, a holl *Dir Ange* hyd at gaereu'r *Ddinas ddibenydd* lawn olwg ar yr anfad anghenfil o *Gawres* y gwelſwn ei thraed hi o'r blaen. Ac nis meddai mo'r geirieu i ddadcan ei moddion hi. Ond mi fedraf ddywedyd iti mai *Cawres dri-wynebog* oedd hi, un wyneb tra ſoeler at y *Nefoedd*, yn cyferth, yn chwyrnu ac yn chwydu ffieidd-dra melltigedig tu ac at y Brenhin nefol, wyneb arall têg

tu

tu a'r *Ddaiar*, i ddenu Dynion i aros yn ei chyfcod, a'r wyneb anaelef arall at *Annwn* iw poeni byth bythoedd. Mae hi 'n fwy na'r Ddaiar oll, ac yn cynnyddu etto beunydd, ac yn gan erchyllach na holl Uffern; Hi a barodd wneud Uffern, ac fy'n e'i llenwi hi a thrigolion. Po ceid *hon* o Uffern f' ai Annwn yn Baradwys: A phe ceid hi o'r Ddaiar, fe a'i 'r Byd bâch yn Nêf; a phe cai hitheu fynd i'r Nef, hi a droe'r Gwynfyd yn Uffern eitha. Nid oes dim yn y bydoedd oll (ond *hon* (nad Duw a'i gwnaeth. Hon yw Mamm y pedair Rhudoles ddihenydd, hon yw Mamm *Angeu*, a hon yw Mamm pob *drygioni* a *thrueni*; a chanddi grâp ofnadwy ar bob Dyn byw. Hi a elwir P,E C H O D. *Y fawl a ddiango o'i bacheu hi gwyn ei fyd fyth*, yr Angel. Ar hyn fe ymadawodd, a chlywn ei adlais e'n dywedyd, *'Scrifenna'r hyn a welaift, a'r fawl ai darellenno'n yftyriol, ni fydd byth editor ganddo.*

Ar y Dôn a elwir Heavy-Heart *neu* Trom-Galon.

1.

TRom yw'r *galon* tramwy'r Gwaelod,
A gweled peth o Fro'r *Erchylldod*,
Gweled *Diawliaid* a *Chollddynion*
Yn eu cartre tra echryſlon;
Gweled diwedd Llwybreu gwyrgam,
Llynn echrysſflam,
Twll diadlam
ddryglam ddreigle;
Yr ail olwg ſi ni fynnwn
Er bydoedd fyrddiwn
Er nad oeddwn
yn eu diodde.

2.

Trom yw'r *galon* tra mae'r golwg
Ette yn ſy nghô mor amlwg
Gweled lluoedd o'm cydnabod
Yn ſoddi yno chwapp *heb wybod*;
Ddoe yn *Ddyn* a heddyw'n fallgi,
Yn pryſur *ddenu*
Bawb i'n ynnu
bob yn enaid:
Ac wedi mynd yn ddiawl uffernlith,
O'r un hyllrith
Ac athrylith
a'r Cythreuliaid.

3.

Trom yw'r *galon* tremio'r *gwely*
Lle'r eir o ddâl i wirfodd bechu;
Pa ddirmyg ſyth a gwarth yſcethrin,
Sy yno ar Fonedd a chyffredin!
Dadcan hylldod y *coll benneu*,

Neu

Neu un o'r *poeneu*
Dir eu godde
yn dragwyddawl,
Nis medra i, ni choelit titheu,
Ni cheir geirieu.
Mae'r *Lle* a'r *Rhithieu.*
yn anrhaethawl.

4.

Trom yw'r *galon* trwm y gwelir
Colli *Car* neu Gyfaill cywir;
Colli Da, neu *Dîr*, neu *Rydd-dyd*,
Neu golli'r *geirda* och neu *Iechyd*;
Colli *Llonydd* a *Diofalwch*,
Neu golli *Heddwch*,
A phob *difyrrwch*
Daiar farwol;
Colli *Cô* neu *Râs* tros encyd
Sy Drymder embyd,
Yn fwrn ennyd
fawr anianol,

5.

Trom yw'r *galon* (tramawr golyn !)
A fo'n dechre 'mwrando â dychryn,
Ac â baich ei gorthrwm *bechod*,
Gan daer, ofidus geisio cymmod;
Cael blâs oer ar bôb plesereu,
Gan ddolurieu
Tyst y brycheu,
tôst brawychus,
Cydwybod glâ mewn gwewyr escawr
Ar ddyn *newyddfawr*
I lwyr ddiniſtriaw'r
henddyn aſtrus.

6.

Trom yw'r *galon* wraidd oreu
Pan fo ar ei *gwely-Angeu*;

Tan

Tan orteithieu corph ac yſpryd
Rhwng y *Fuchedd* a'r *Afiechyd*;
Dirfawr ing, ac ofni chwaneg,
Byth heb attreg,
Trom yw'r adeg
tramawr Odfa!
Teimlo eitha'r *Bydan* hudol,
A'r Byd *tragwyddol*,
Mawr *dieithrol*,
ar y wartha.

7.

Trom yw'r *galon* tân un gowled,
O'r hôll Drymdereu hyn a henwed,
Ond pettyn oll yn un Torr-gwmmwl,
Mae etto *Drymder* mwy na'r cwbwl:
Mae gobaith eſcor pob Trymederau
Tu yma i'r *Caereu.*
A'r naill tu i *Angeu*
hôllt diangol:
Ond un *Trymder* tu'wnt ir *Amdo'*
Gwae a'i caffo!
Nis ceir obeithio
eſcor bythol.

8.

Trom y'wr *galon* donn êl dano;
(Och drymmed genni gip o'i atco?)
Yſcafnderau dylid alw
Pob trymderau oll wrth hwnnw:
Y *Trymder* hwn di ſwn yſywaeth)
Yw *Damnedigaeth*
At Lu diffaeth
i Wlâd Uffern,
Pan wêl Dyn ddarfod fyth am dano,
Ac eufys *yno*
Yn drwg icithio
gyda'r Gethern.

24 DE 67

9. Na

Na chwyna ditha'r dim a'th flin
Oſwyt beb fynd i Uffern etto,
Etto dyro drô'n dy *feddwl*
Yno'n ſynych ac yn fanwl:
Dwyn yſtyrio'r *Pwll* echryſlym,
Ar *Byth* ſy nghenglyn,
A'th dry'n ſydyn
dan arſwydo;
Mynych gofio'r *Fagddu danbaid*,
Trwy GRIST unblaid
A geidw d' *Enaid*
rhag mynd *yno*. Amen.

Diwedd y Rhann Gyntaf.

24 DE 67

...drgraphwyd ac ſydd ar werth gan
...O. DURSTON.

Y Teſtament Newydd yn Gymraeg gyda'r Cynhwyſiad.

Llyfr Gweddi Gyffredin Mawr ir Elwys.

Llyfr Gweddi Gyffredin, yn gymmwys i'r Llogell neu'r *Boced.*

Llyfr Ymarfer o Dduwioldeb.

Llyfr Meſur Coed, *&c.*

Llyfr Hunan ymholiad.

Llyfr Ymadrod ynghylch Dychymygion Dynion yn Addoliad Duw, gan Dr *King.*

Llyfr Cyſoeth ir Cymru gan *William Dyer.*

Llyfr Ficcer *Llandyſri*, y Chweched Ran.

Patrwm y Gwir Griſtion: Neu, Ddilyniad Jeſu Griſt.

Llyfr Cydymaith yr Eglwyſwr, yn ymweled a'r Claf,

Y Geirlyfr Saeſneg a Chymraeg; neu'r Saeſneg o flaen y Cymraeg.

Llyfr Cydymaith ir Allor.

Llyfr Meddyginiaeth a Phyſygwriaeth ir Anafus a'r Clwyfus.

Llyfr Drych y prif Oeſoedd.

Llyfr Myfyrdodau Ar Pedwar peth Diweddaf, ſef Angeu, Barn nef ac uffern.

Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol.

Llyfr Primer yn ol gwaſanaeth yr Eglwys.

Llyfr Taith neu ſiwrnai y Pererin.

Llyfr Hanes o Fywyd a Marwolaeth *Judas Iſcariot*

Llyfr Undeb mewn Gwlad, neu Bregeth ynghylch y newidiaid diweddar wnaed yn y Flwyddyn, *&c.*

Llyfr Hiſtori *Nicodemus &c.*

Llyfr O Weddiau Duwiol, yn Cynnwys ynddo mwy na Wyth ugain o Weddiau Duwiol ar amryw Achoſion:

Llyfr Tri Aderyn ymddiddan yr Eryr, a'r Golomen a'r Gigfran.

Hist. Owens Hist